



Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024-2025



Cynnwys



Cyflwyniad gan Gadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth	3
Cyngor Prifysgol Aberystwyth	5
Adolygiad yr Is-Ganghellor	13
Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth	15
Adolygiad Strategol	18
Datganiad Polisi Cyflog Blynnyddol a Thaliadau i'r Staff Uwch	35
Cyd-adroddiad ar y Flwyddyn Ariannol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Prif Swyddog Ariannol	36
Yr Amgylchedd	44
Datganiad o'r Budd Cyhoeddus	45
Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	47
Grŵp Gweithredol y Brifysgol	49
Adroddiadau Blynnyddol Pwyllgorau'r Cyngor	52
Adroddiadau Presenoldeb	59
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor o ran y Datganiadau Ariannol Cyfun	62
Ymddiriedolwyr y Brifysgol	63
Ymgynghorwyr Proffesiynol	64
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gyngor Prifysgol Aberystwyth	65
Datganiadau Ariannol a Nodiadau	69

Cyflwyniad gan Gadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth



MERI HUWS
Cadeirydd y Cyngor

Mae gallu Prifysgol Aberystwyth i ymaddasu i ddiwallu anghenion y gymdeithas wrth iddi newid yn rhan allweddol o'n hethos ers dros ganrif a hanner.

Rydym yn byw mewn cyfnod o ansefydlogrwydd economaidd a gwleidyddol byd-eang, o ddemograffeg sy'n newid, a chyfnod lle mae deallusrwydd artifisial yn effeithio'n gyflym ar sut rydym yn byw a gweithio. Mae'n gyfnod o gystadleuaeth ffyrnig yn y sector addysg uwch ym Mhrydain, wrth i niferoedd myfyrwyr rhwngwladol leihau a chostau cyson uchel roi pwysau ariannol ar sefydliadau. Rwy'n falch o ddweud bod Prifysgol Aberystwyth wedi wynebu'r cyfnod hwn o newid a heriau yn hollol ddiwyro.

Pan ysgrifennais fy rhagair i Adroddiad Blynyddol 23/24, siaradais am Raglen Drawsnewid y Brifysgol, a lansiodd i newid sut mae'r Brifysgol yn gweithio ac sy'n cynnwys arbedion a buddsoddiadau er mwyn gweithredu mewn modd sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Eisoes mae arwyddion cynnar bod y Brifysgol yn gwneud cynnydd ar y cynlluniau hyn. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae gwaith wedi dechrau ar newid ein strwythurau a'n prosesau, gan gynnwys gosod y sylfeini i lansio'r cyfadranau newydd, Cyfadran y Dyniaethau a Chyfadran y Gwyddorau, ym mis Awst 2025.

Mae'n flaenoriaeth gan y Cyngor sicrhau bod y Brifysgol yn sefyll ar dir mwyfwy cadarn ac yn gwneud penderfyniadau a fydd o fudd i'r myfyrwyr, y staff a'r gymuned ehangach. Cofnododd y Brifysgol ddiffyg ariannol i'r flwyddyn academiaidd sy'n cyd-fynd â'r targedau a osodwyd gennym. Mae'r ffaith bod sefyllfa ariannol y Brifysgol wedi gwella yn ystod y flwyddyn academiaidd, a hynny



Dechreuodd y myfyrwyr cyntaf i astudio am radd Nyrso Milfeddygol yn ystod y flwyddyn academiaidd hon.



Cafodd y staff a rhanddeiliaid allweddol gyflwyniad i'r Stratêgaeth 2030au mewn ffeiriau gwybodaeth.

yng nghanol cyfnod anodd iawn i'r sector, yn arwydd bod y Rhaglen Drawsnewid yn gweithio. Rwy'n hynod ddiolchgar i'r staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd am eu gwaith a'u hamynedd yn ystod y cyfnod hwn, ac i'm cydaelodau ar y Cyngor. Mae gwaith i'w wneud eto, ond mae'r Brifysgol ar y trywydd iawn.

Ac, yn wir, fel y gwelwch chi yn yr adroddiad hwn, mae'r Brifysgol yn parhau i greu argraff yn ei gwaith dysgu a'i hymchwil fel ei gilydd. Mae wedi'i henwi'n brifysgol orau yng Nghymru am foddhad myfyrwyr gan yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, a hynny am y ddegfed flwyddyn yn olynol; perfformiad mor gyson fel y byddai'n hawdd ei gymryd yn ganiataol. Mae'n hanfodol nad ydym byth yn anghofio cymaint o gamp yw hynny, ac mae'n digwydd oherwydd cyfraniad pob un aelod o staff yn y Brifysgol hon.

Mae ehangder a dyfnder yr ymchwil a wneir yn y Brifysgol, yn amrywio o fynd i'r afael â chlefydau parasitig ledled y byd i ddatgelu cyfrinachau Côr y Cewri, yn ddi-ffael yn creu argraff ar aelodau'r Cyngor. Mae Prifysgol Aberystwyth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl: yn ogystal â thanlinellu pwysigrwydd yr effaith rydym ni yn ei gwneud, mae ein llwyddiannau, fel y rhai a amlinellir yn yr adroddiad hwn, hefyd yn dangos pa mor bwysig yw'r sector addysg uwch yn ei gyfanrwydd.

Hoffwn ddiolch i bob un o aelodau'r Cyngor, sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac sydd bob amser yn gweithredu er budd y Brifysgol, ac yn unol â'u cyfrifoldebau i'r dref, y rhanbarth a'r byd ehangach.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2024-25, daeth cyfnodau Elain Gwynedd a Bayanda Vundamina ar y Cyngor i ben. Yn rhinwedd eu swyddi, y naill yn Llywydd UMCA a'r llall yn Llywydd Undeb Aberystwyth, fe wnaethant chwarae rhan allweddol wrth lunio ein penderfyniadau a sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed bob amser. Rwy'n ddiolchgar iawn iddynt ill dau.

Wrth tua'r dyfodol, parhau wnaiff yr heriau sy'n wynebu'r sector. Yr hyn sy'n galonogol yw, yn ogystal â'r Rhaglen Drawsnewid sy'n sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy, bod ein Strategaeth 2030au newydd yn edrych tua'r dyfodol a'n rôl ni ynddo. Mae gan y Strategaeth newydd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r staff a'r myfyrwyr, gynlluniau clir ar waith er mwyn datblygu sefydliad cynaliadwy a hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dyfodol a fydd yn goresgyn yr heriau hynny ac yn parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ysbrydoli pobl i newid bywydau er gwell ers dros ganrif a hanner erbyn hyn. Ein henw da am ddysgu, am ymchwil o'r radd flaenaf, am fod yn lle sy'n meithrin y Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n rhoi yn ôl i'r dref sydd yn gartref iddi, ac yn ôl i'r byd ehangach: mae hyn oll yn sylfaenol i bwy ydym ni. Yr hyn sy'n rhoi hyder i mi yw y bydd y penderfyniadau a wneir heddiw yn ein helpu i wneud gwahaniaeth i'r blynyddoedd a ddaw.



Teithiodd ymchwilydd i Fynydd Everest i archwilio pam mae rhew ar rewlfif y Cwm Gornelwinol wedi bod yn dadmer.

Cyngor Prifysgol Aberystwyth

Yn unol â Siarter Frenhinol Ategol Prifysgol Aberystwyth, fel y'i diwygiwyd yn 2018, Cyngor y Brifysgol yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol". Ef sy'n gyfrifol am "benderfynu ar gyfeiriad strategol y brifysgol ac am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, a materion eraill y brifysgol, yn unol â'i hamcanion".

I'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025, a'r cyfnod dilynol tan i'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, dyma, isod, oedd aelodau'r corff llywodraethu.

AELODAU ANNIBYNNOL

Y Cyngor sy'n gyfrifol am benodi'n ffurfiol y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau Annibynnol eraill y corff llywodraethu.

Gofynnodd y Cyngor i Bwyllgor Enwebiadau'r sefydliad arwain ar y prosesau penodi perthnasol ac ar wneud argymhellion addas ar gyfer penodiadau gan y corff llywodraethu. Yn rhan o'r cyfrifoldeb hwnnw, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Enwebiadau sicrhau bod yr unigolion sy'n cael eu penodi yn addas o annibynnol (gweler isod).

MERI HUWS

Cadeirydd y Cyngor



CYFNOD Y PENODIAD

1 Mai 2019 – 31 Gorffennaf 2027

CADEIRYDD

1 Ionawr 2024 – 31 Gorffennaf 2027

Tan fis Ebrill 2019, Meri Huws oedd Comisiynydd y Gymraeg, swydd a fu ganddi ers Ebrill 2012. Hi oedd Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o 2004 tan y diddymwyd y Bwrdd ym mis Mawrth 2012. A hithau wedi graddio o Brifysgol Aberystwyth yn y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, mae hi hefyd wedi bod yn Ddirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant ac ym Mhrifysgol Bangor.

RHUANEDD RICHARDS

Dirprwy Gadeirydd y Cyngor



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2028

DIRPRWY GADEIRYDD

12 Mawrth 2024 – 31 Gorffennaf 2028

Astudiodd Rhuanedd Richards ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd. Dechreuodd ei gyrfa gyda BBC Cymru fel newyddiadurwraig cyn mynd ymlaen i gyflwyno ar rai o'u prif raglenni newyddion a gwleidyddol. Gadawodd y BBC yn 2007 a gweithiodd fel cynghorydd arbennig i Lywodraeth Cymru, Prif Weithredwr Plaid Cymru, ac ymgynghorydd gwleidyddol i Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol. Dychwelodd i'r BBC yn 2018 lle mae hi ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Dros Dro i'r Cenhedloedd yn y BBC.

Ailetholwyd Rhuanedd Richards am ail dymor yn aelod o'r Cyngor o 1 Awst 2024.

DR PAUL BEVAN



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2028

Cwblhaodd Paul ei radd a'i ddoethuriaeth yn Aberystwyth ac mae'n gweithio yn y sectorau addysg, cyhoeddus a dielw ers 20 mlynedd, gan gynnwys bod yn Gyfarwyddwr Gweithredol Grŵp Llandrillo Menai, a gweithio mewn swyddi trawsnewid ac arwain ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion, Prifysgol Lerpwl, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ar hyn o bryd mae'n cynorthwyo â rhaglen newid digidol ar gyfer Jisc, sef elusen technoleg addysg y DU, ochr yn ochr ag ystod o rolau llywodraethu annibynnol a dielw, gan gynnwys gweithio gyda Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint, Glas Cymru, ac fel cadeirydd Cymdeithas Cerbydau Trydan Cymru.

KATE EDEN



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2028

Cyfarwyddwr Anweithredol yw Kate Eden, ac mae ganddi dros 15 mlynedd o brofiad ar lefel rheoli uwch, ym Mhrydain ac yn rhyngwladol. Cafodd ei geni a'i magu yn y gogledd, ac fe astudiodd y Gwyddorau Cymdeithasol a Gwleidyddol yng Ngholeg y Brenin, Caergrawnt. Yn y sector fferyllol yn bennaf y meithrinodd ei harbenigedd mewn materion cyhoeddus, polisi a chyfathrebu strategol. Mae hi hefyd wedi gweithio ar bolisi ynni a gwyddoniaeth.

Ail-etholwyd Kate Eden am ail dymor yn aelod o'r Cyngor o 1 Awst 2024.

YR ATHRO SIMON GREEN



CYFNOD Y PENODIAD

1 Medi 2021 - 31 Awst 2025

Mae Simon yn Athro Gwleidyddiaeth ac yn Ddirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil a Menter) ym Mhrifysgol Salford. Cyn hynny, bu'n Ddeon Gweithredol leithoedd a'r Gwyddorau Cymdeithasol (2013-2018) ac wedyn yn Ddirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (2018-2023) ym Mhrifysgol Aston, Birmingham.

Gwleidyddiaeth yr Almaen ac Ewrop yw ei ddiddordebau academiaidd. Fe'i haddysgwyd ym mhrifysgolion Manceinion, Heidelberg a Birmingham.

ARWEL THOMAS



CYFNOD Y PENODIAD

1 Gorffennaf 2022 – 31 Gorffennaf 2026

Ac yntau'n gyfrifydd cymwysedig, treuliodd Arwel ei yrfa gynnar yn gweithio i sefydliad Glo Prydain. Ar ôl iddo adael, ychydig cyn i'r corff hwnnw gael ei breifateiddio yn 1994, ymunodd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel archwilydd, gan ddod yn Uwch Reolwr Archwilio wedi hynny. Yn 2008, ymunodd Arwel â Llywodraeth Cymru fel Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Risg. Ers ymddeol, mae wedi dal rolau anweithredol yn Estyn, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Chomisiynydd Plant Cymru.

MARK TWEED



CYFNOD Y PENODIAD

1 Ionawr 2020 – 31 Rhagfyr 2026

Ar hyn o bryd mae Mark Tweed yn gweithio i Propel Finance, yn Brif Swyddog Ariannol, yn Gyfarwyddwr, ac yn Bennaeth ar Faterion Cyfreithiol y Grŵp. Cyn hynny, fe fu'n Ddirprwy Brif Swyddog Ariannol a Phennaeth Dros Dro ar Faterion cyfreithiol i Opel Vauxhall Finance (OVF). Graddiodd mewn Cemeg Ddiwydiannol o Brifysgol Caerdydd ac mae hefyd yn aelod annibynnol o Fwrdd Cymdeithas Chwaraeon Cymru. Cyn dod yn aelod o Gyngor y Brifysgol, bu'n gwasanaethu fel aelod annibynnol ar y pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a'r pwyllgor Buddsoddi.

CLAIRE VAUGHAN



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2022 - 31 Gorffennaf 2026

Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn yr elusen cymorth cyntaf Ambiwlans Sant Ioan yw Claire. Ymunodd â'r elusen ym mis Ebrill 2022, ar ôl saith mlynedd fel Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yng Ngwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae ganddi dros 20 mlynedd o brofiad yn arwain a chyflwyno newid cynaliadwy i ddiwylliant a gwasanaethau yn y sectorau gwirfoddol, iechyd, addysg ac eraill ac mewn swyddi cenedlaethol. Mae hi wedi arwain llawer o'i thimau at lwyddiant ac at ennill gwobrau.

JANE USHERWOOD



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2024 - 31 Mawrth 2028

Roedd gyrfa Jane ym maes Adnoddau Dynol yn rhychwantu'r sectorau preifat a chyhoeddus fel ei gilydd, ac fe ddringodd i fod yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn un o brifysgolion ymchwil mwyaf Lloegr. Treuliodd dros 10 mlynedd fel Ysgrifennydd Cyffredinol i rwydwaith rhyngwladol o brifysgolion ymchwil, gan hwyluso cydweithio a chydweithredu rhwng yr aelodau a meithrin cysylltiadau ag asiantaethau allanol. Mae'r amser a dreuliodd yn astudio a gweithio y tu allan i'r DU wedi'i hargyhoeddi o'r posibiliadau trawsnewidiol sy'n dod o brofiadau rhyngwladol ac o'r grym a ddaw o weithio'n fwy rhyngwladol, yma a thramor.

DANIEL RICHARDS



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2028

Cyfarwyddwr annibynnol ac anweithredol yw Daniel Richards a chanddo fwy na 25 o flynyddoedd o brofiad o wasanaethau cyfreithiol proffesiynol corfforaethol ac ariannol, a mwy na 14 o flynyddoedd o brofiad o uwch reoli, arwain prosiectau strategol, a llywodraethu corfforaethol ym Mhrydain ac yn rhyngwladol. Ac yntau wedi'i eni a'i fagu yn y de, astudiodd Daniel y gyfraith yng Ngholeg Clare, Prifysgol Caergrawnt a chymhwysodd fel cyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr gan ganolbwyntio ar y gyfraith gorfforaethol, ac ar gyllid ac ailstrwythuro mewn cwmni cyfreithiol rhyngwladol yn Ninas Llundain.

Mae Daniel wedi cael ardystiad mewn llywodraethu corfforaethol gan Sefydliad Cyfarwyddwyr y DU ac mae hefyd yn darparu gwasanaethau llywodraethu sefydliadol yn y sectorau diwylliant ac addysg, ochr yn ochr â phortffolio o ddi-ddordebau busnes academiaidd a phersonol.

YUSUF IBRAHIM



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2028

Ar hyn o bryd mae Yusuf yn Is-Bennaeth (Cwricwlwm a Safonau) yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ac yn arweinydd cenedlaethol ar y Cwricwlwm Gwrth-Hiliaeth mewn Addysg Bellach. Wedi'i eni yn Llundain, mae gan Yusuf dros 15 mlynedd o brofiad o arwain mewn ysgolion a cholegau yn Llundain, Bryste a Chaerdydd, gan ddatblygu deunydd i'r cwricwlwm a dysgu digidol.

Ac yntau'n eiriolwr dros greu system addysg gynaliadwy a thrawsnewidiol yng Nghymru, mae Yusuf yn gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn yr Academi Genedlaethol o Arweinyddiaeth Addysg, gan ddarparu cymorth ar ddulliau arweinyddiaeth systemig.

Aelodau etholedig y staff

Etholir dau aelod o blith Senedd y Brifysgol gan y Senedd, i fod yn aelodau academaidd o'r Cyngor; y staff anacademaidd sy'n ethol yr aelod anacademaidd i'r Cyngor.

YR ATHRO SARAH DAVIES

Aelod o'r Senedd



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2028

Ymunodd Sarah â'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym mis Medi 2002 fel darlithydd mewn Daearyddiaeth Ffisegol a Gwyddor yr Amgylchedd. Fe'i penodwyd yn Bennaeth yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn 2019 ac yn Athro yn 2021. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar ail-lunio newidiadau hinsoddol ac amgylcheddol drwy ddefnyddio tystiolaeth o waddodion llynnoedd i astudio'r rhyngweithiad rhwng pobl, yr hinsawdd a'r amgylchedd dros ystod o linellau amser. Mae hi wedi cyfrannu at brosiectau cydweithredol, rhyngwladol ym Mecsico a chanolbarth America, De America, a dwyrain Affrica. Ar hyn o bryd mae Sarah yn ymchwilio i gyfnewidoldeb yr hinsawdd, eithafion y tywydd a'u heffeithiau ar dreftadaeth arfordirol o amgylch glannau môr Cymru ac Iwerddon.

KYLIE EVANS

Aelod o'r staff anacademaidd



CYFNOD Y PENODIAD

1 Chwefror 2022 - 31 Gorffennaf 2028

Ymunodd Kylie â'r Brifysgol yn 1994 ac mae wedi gweithio ar ddenu a derbyn myfyrwyr a marchnata. Ei swydd bresennol yw Pennaeth y Gweithrediadau Derbyn. Yn ddiweddar, cwblhaodd MSc mewn Gweinyddu, Rheoli ac Arweinyddiaeth Addysg Uwch, lle canolbwyntiodd ei phrosiect ymchwil ar ddefnyddio deallusrwydd artifisial wrth dderbyn myfyrwyr i brifysgolion, ar yr hyn sy'n ei rwystro rhag cael ei ddefnyddio, a llwybrau tuag at ymarfer teg ac agored sy'n canolbwyntio ar yr ymgeisydd. Mae Kylie hefyd yn aelod o Fforwm Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol.

DR ALOYSIUS IGBOEKWU

Aelod o'r Senedd



CYFNOD Y PENODIAD

1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2028

Mae Aloysius yn Uwch Ddarlithydd Cyllid ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys Priso Asedau, Cyllid Ymddygiadol, Cyllid Corfforaethol, Cyfrifeg ar Sail y Farchnad, Marchnadoedd Ariannol, Economeg Ryngwladol, a Bancio.

Mae'n ymchwilydd gweithgar ac mae ganddo gyhoeddiadau mewn cyfnodolion rhyngwladol megis *Review of Quantitative Finance and Accounting* ac mae wedi cyflwyno ei ymchwil mewn cynadleddau rhyngwladol fel Cymdeithas Rheoli Ariannol Ewrop a Chymdeithas Cyfrifeg a Chyllid Prydain. Mae'n dysgu modiwlau mewn Buddsoddiadau, Cyllid Corfforaethol, Damcaniaethau Ariannol, Bancio, Marchnadoedd a Sefydliadau Ariannol.

Aelodau o blith y myfyrwyr

Penodir dau aelod gan Undeb Aberystwyth i gynrychioli'r myfyrwyr ar y Cyngor.

ELAIN GWYNEDD

Llywydd UMCA



CYFNOD Y PENODIAD

1 Gorffennaf 2023 – 30 Mehefin 2025

Elain oedd llais diwylliant Cymru a myfyrwr Cymraeg yn Aberystwyth. Roedd ei swydd yn canolbwyntio ar hybu diwylliant Cymru, a rhoi'r cyfle i fyfyrwyr Aberystwyth ddysgu Cymraeg, a siarad a byw yn Gymraeg. Cyn hyn, roedd Elain yn fyfyrwraig israddedig yn astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Etholwyd Nanw Hampson yn Llywydd UMCA i'r flwyddyn academaidd 2025/26 gan gymryd yr awenau ar 1 Gorffennaf 2025.

BAYANDA VUNDAMINA

Llywydd Undeb Aberystwyth



CYFNOD Y PENODIAD

1 Gorffennaf 2023 – 30 Mehefin 2025

Bayanda oedd Llywydd Undeb Aberystwyth, sef Undeb Myfyrwyr y Brifysgol, yn darparu llais ar ran y myfyrwyr ac yn gweithio ar bolisiâu sy'n bwysig i gorff a chymuned y myfyrwyr. Cyn hynny, roedd Bayanda yn astudio Biocemeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Etholwyd Millicent Hackett yn Llywydd Undeb Aberystwyth i'r flwyddyn academaidd 2025/26 gan gymryd yr awenau ar 1 Gorffennaf 2025.

Aelodau Cyngor y Brifysgol

Mae'r Is-Ganghellor yn gwasanaethu ar y Cyngor mewn rhinwedd ex-officio. Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor, yr Athro Angela Hatton, hefyd yn gwasanaethu ar y Cyngor mewn rhinwedd ex-officio, wedi'i enwebu gan yr Is-Ganghellor. Gweler Grŵp Gweithredol y Brifysgol ar dudalennau 49 i 51.

PRESENOLDEB

Yn ystod y cyfnod 01 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2025, cyfarfu'r Cyngor chwe gwaith. Dyma ffigurau presenoldeb aelodau'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw:

Enw	Categori	Yn Bresennol
Meri Huws	Cadeirydd y Cyngor	6/6
Rhuanedd Richards	Dirprwy Gadeirydd y Cyngor	6/6
Yr Athro Jon Timmis	Is-Ganghellor	6/6
Yr Athro Angela Hatton	Dirprwy Is-Ganghellor	6/6
Dr Paul Bevan	Aelod Annibynnol	6/6
Kate Eden	Aelod Annibynnol	6/6
Yr Athro Simon Green	Aelod Annibynnol	5/6
Yusuf Ibrahim	Aelod Annibynnol	5/6
Daniel Richards	Aelod Annibynnol	6/6
Arwel Thomas	Aelod Annibynnol	6/6
Mark Tweed	Aelod Annibynnol	5/6
Jane Usherwood	Aelod Annibynnol	6/6
Claire Vaughan	Aelod Annibynnol	6/6
Bayanda Vundamina	Aelod o blith y Myfyrwyr	4/5
Elain Gwynedd	Aelod o blith y Myfyrwyr	5/5
Yr Athro Sarah Davies	Aelod o'r Senedd	6/6
Dr Aloysius Igboekwu	Aelod o'r Senedd	6/6
Kylie Evans	Aelod y Staff Anacademaidd	5/6

ANNIBYNIETH AELODAU'R CYNGOR

Disgwylir i bob aelod o'r Cyngor gynnig cyfraniad creadigol i'r corff llywodraethol trwy ddarparu goruchwyliaeth annibynnol, arweiniad strategol, ac adborth adeiladol i'r rheolwyr gweithredol.

Rhaid i aelodau'r Cyngor beidio â gadael iddynt hwy eu hunain gael eu 'cipio' na mynd dan ddylanwad gormodol buddiannau pobl eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, megis staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr, neu undebau llafur. Mae angen i aelodau Cyngor allu herio'n effeithiol ac yn adeiladol, ac ni allant wneud hynny os oes ganddynt fuddiant mewn mater sy'n cael ei drafod.

Mae'r Cyngor yn cynnwys ymhlith ei aelodau rai sydd yn aelodau o staff y Brifysgol neu'n gynrychiolwyr y myfyrwyr, ac mae'r egwyddorion uchod yr un mor berthnasol i'w cyfraniadau hwythau i'r corff llywodraethol. Serch hynny, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor fod yn Aelodau Annibynnol. Mae'r aelodau hynny'n cael eu penodi i'r corff llywodraethol ond heb fod yn fyfyrwyr cofrestredig, swyddogion sabothol Undeb Aberystwyth, nac yn aelodau o staff y Brifysgol.

Wrth ystyried ceisiadau ac wrth gyfsweld â darpar Aelodau Annibynnol newydd i'w penodi i'r Cyngor, mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n chwilio am dystiolaeth bod yr unigolion dan sylw:

- yn dangos anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth;
- yn gallu herio'n effeithiol ac adeiladol; yn gallu 'sefyll draw' o ddylanwadau amhriodol ac yn rhydd rhag cael eu 'dal' gan ddylanwad y rheolwyr;
- yn rhydd rhag unrhyw fandad neu gyfyngiadau a fyddai'n eu hatal rhag cymryd y camau cywir; a
- heb fod yn perthyn i unrhyw weithwyr cyflog yn y Brifysgol, a heb gyswllt ag unrhyw sefydliad sy'n cael budd ariannol gan y Brifysgol.

GWRTHDARO BUDDIANNAU

Gofynnir i holl aelodau'r Cyngor ddatgan yn ffurfiol unrhyw fuddiannau a fo ganddynt pan fyddant yn derbyn eu penodiad. Gofynnir hefyd i'r holl aelodau adolygu eu datganiadau bob blwyddyn.

Mae'r holl ddatganiadau o fuddiant gan aelodau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Mae crynodeb o Gofrestr Buddiannau'r unigolion hynny yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

Mae'n ofyniad i'r Aelodau Annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Cyngor ofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig Cadeirydd y Cyngor cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch neu waith datblygu busnes allanol newydd a allai fod yn berthnasol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i waith y Brifysgol.

Adolygiad yr Is-Ganghellor



YR ATHRO JON TIMMIS
Is-Ganghellor

Cenhadaeth Prifysgol Aberystwyth yw newid bywydau er gwell. Mae ein cyflawniadau yn ystod y flwyddyn academiaidd 2024/25 yn dangos na fyddwn ni byth yn gwyro oddi wrth y genhadaeth honno, beth bynnag fo'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch.

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi cadw at ein hymroddiad i ddarparu profiad rhagorol i'r myfyrwyr, cynnal ymchwil sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl, a sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth ac arweinyddiaeth yn y Brifysgol a'r rhanbarth.

Dangosodd canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr, mai ni sydd ar y brig fel y brifysgol orau yng Nghymru am foddhad y myfyrwyr, a hynny am y ddegfed flwyddyn yn olynol, Mae'r cysondeb hynod drawiadol hwn yn arwydd o ba mor gryf mae ein staff yn teimlo ynglŷn â sicrhau y bydd ein myfyrwyr wedi cael y profiad gorau posib erbyn iddynt adael y brifysgol. Fe wnaethom wella ar ein perfformiad yn 2024, gan ddangos

ein bod yn dal ati i'n gwthio ein hunain i ddarparu profiad o'r ansawdd orau ym mhob agwedd ar fywyd y myfyrwyr wrth iddynt ddysgu yma. Roedd naw deg y cant o'n myfyrwyr yn fodlon â'r dysgu, gan ein rhoi yn y 10 uchaf yng ngwledydd Prydain. Mae Canllaw Prifysgolion Da 2025 y Times and Sunday Times wedi ein rhoi ni ar y brig o'r holl brifysgolion yng Nghymru a Lloegr am Brofiad y Myfyrwyr.

Mae'n bwysig cofio nad y dysgu yw popeth o ran profiad y myfyrwyr. Mae gennym ofal bugeiliol ar gael rhag ofn y bydd ei angen, boed hynny ar gyfer materion ariannol neu bersonol. Rydym hefyd wedi buddsoddi yn ein gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogadwyedd, gan ddarparu cymorth pwrpasol ac yn paratoi'r myfyrwyr at eu bywydau ar ôl Aberystwyth. Rydym wedi cymryd camau mawr ymlaen wrth ddarparu profiad gwirioneddol grwn i'r myfyrwyr; maen nhw'n wirioneddol bwysig i ni ac rydym yn ymdrechu'n galed i'w helpu ym mhob ffordd bosib.

Drwy ein hymchwil amrywiol fe gafwyd canfyddiadau hynod ddiddorol, gan ddangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r heriau cyfoes sy'n wynebu Cymru a'r byd ehangach. Enillodd ymchwilwyr gyllid i ymchwilio i feysydd mor amrywiol â bwydydd y dyfodol, polisi darlledu yn

y Brydain ddatganoledig, archwilio newid yn yr hinsawdd, a thrin clefydau sy'n effeithio ar fwy na 200 miliwn ledled y byd. Mae rhagoriaeth ein hymchwilwyr yn dal i gael ei hadlewyrchu drwy eu cyfranogiad mewn prosiectau o bwys - boed hynny'n ymchwilio i'r eira sy'n toddi ar Everest, yn datgloi cyfrinachau Côr y Cewri neu'n mynd i'r afael â chlefydau ar ffermydd yma - ac mae eu gwaith yn cael effaith enfawr yma a'r tu hwnt.

Fel Prifysgol, mae gennym ddyletswydd i Aberystwyth, ein rhanbarth ac i Gymru a'r byd ehangach. Mae ein cenhadaeth gyhoeddus yn amlochrog: mae ein hymchwil yn creu cysylltiadau â phobl a sefydliadau lleol; mae'r Brifysgol yn hyrwyddo ei disgyblaethau amrywiol drwy ystod o weithdai a digwyddiadau; mae Canolfan y Celfyddydau yn dod â digwyddiadau diwylliannol i'r dref; ac rydym yn rhan o bartneriaethau ledled Cymru. Rydym wedi llwyddo i gyrraedd cerrig milltir pwysig yn ein prosiect i adfer yr Hen Goleg hanesyddol, cartref eiconig Coleg Prifysgol cyntaf Cymru, sy'n cael ei drawsnewid yn ganolfan ddiwylliannol a chreadigol bwysig.

Mae ein hunaniaeth Gymreig wrth wraidd y Brifysgol ac eleni dathlwn 150 o flynedd ers i ni sefydlu Adran y Gymraeg ac

Astudiaethau Celtaidd. Mae'r Adran wedi bod yn gartref i rai o awduron ac ysgolheigion disgleiriaf Cymru drwy ei hanes, gan gynnwys T. H. Parry-Williams, T. Gwynn Jones, D. Gwenallt Jones, Bobi Jones a Mihangel Morgan. Mae llawer o'n cyn-fyfyrrwyr wedi ennill y prif wobrau llenyddol yn Eisteddfod yr Urdd ac yn y Genedlaethol dros y degawdau. Heddiw rydym yn parhau â'n darpariaeth Gymraeg mewn amrywiaeth o bynciau ac yn helpu i addysgu'r gymuned ehangach drwy'r rhaglen Dysgu Cymraeg.

Dim ond cip bras ar rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn academaidd yw hwn. Ond mae'r llwyddiannau hyn wedi dod ochr yn ochr â llif o sylw yn y wasg, sy'n ymddangos fel petai'n ddi-baid, ar iechyd ariannol y sector addysg uwch. Nid yw'r heriau sy'n wynebu prifysgolion ledled Prydain wedi diflannu - mae'r ffaith bod ffioedd dysgu myfyrwyr o Brydain wedi'u rhewi yn dal i effeithio ar sefydliadau, mae marchnad myfyrwyr rhyngwladol wedi gostwng ac mae chwyddiant uchel yn dal i gael effaith.

Yn debyg i weddill y sector, rydym ni hefyd yn wynebu'r heriau hyn a dyna pam y cyflwynasom ein Rhaglen Drawsnewid y llynedd i osod ffyrdd newydd o weithio, er mwyn sicrhau ein bod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn dal i dyfu ac i gyflawni ein cenhadaeth ganolog. Rydym yn gwneud cynnydd da, ac mae ein diffyg yn cyd-fynd â'r targedau a osodwyd gennym y llynedd. Rwy'n hynod ddiolchgar am waith caled ein staff yn ystod y cyfnod hwn o newid.

Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2024/25 roeddem ar fin lansio'r drefn newydd â dwy gyfadran - Cyfadran y Dyniaethau a Chyfadrann y Gwyddorau - ym mis Awst 2025.

Serch hynny, mae'n amlwg bod angen i ni edrych tuag at y tymor hwy. Mae'r byd yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd 10 mlynedd yn ôl, hyd yn oed, ac mae'n rhaid i'r Brifysgol fod yn barod i gyflawni ei chenhadaeth yn y blynyddoedd a'r degawdau a ddaw. Dyma pam roedd cyfran fawr o waith y Brifysgol yn ystod y flwyddyn academaidd wedi'i neilltuo i ddatblygu Strategaeth 2030au, sy'n tanlinellu pwy ydym ni a pham rydym ni yma. A'i rhoi yn syml, ymfalchïwn yn ein cartref ar lannau gorllewin Cymru, ac rydym yn meithrin yma gymuned o academyddion a myfyrwyr o bob cwr o'r byd. Rydym yn uchelgeisiol, yn gynhwysol ac yn ddwyieithog, ac yn anelu at fod yn sefydliad sy'n ysbrydoli pobl i newid bywydau er gwell yn ein cenedl a'r byd ehangach, trwy'r holl waith a wnawn. Bydd ein Strategaeth newydd yn ein galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sydd o'n blaenau ac ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch trwy adeiladu sefydliad cynaliadwy a hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

Mae ein targedau yn uchelgeisiol ac yn cwmpasu pob agwedd ar yr hyn a wnawn a pham rydym ni yma, a hynny oll wrth sicrhau ein bod ar sail ariannol gadarn. O ran ein myfyrwyr, rydym yn awyddus

i sicrhau eu bod yn cael cyfle teg waeth beth fo'u cefndir, a'u bod yn astudio mewn amgylchedd diogel, cefnogol, ac yn dysgu'r sgiliau a fydd yn arwain at yrfa lwyddiannus ar ôl y Brifysgol.

Bydd y Strategaeth yn sicrhau bod ein staff yn parhau i fod yn rhan o ddiwylliant cefnogol, o fewn cymuned lle y teimla pawb eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi, gyda llwybr datblygu gyrfaol clir. Bydd y rhai sy'n gweithio ym maes ymchwil yn cael yr hyfforddiant a'r mentora sydd eu hangen arnynt fel y gallwn ddal ati i wneud ymchwil sy'n newid bywydau.

Rydym yn awyddus i fod yn galon y Gymraeg yn y sector addysg uwch, gan arwain y sector o ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog pobl i ddefnyddio'r iaith bob dydd ar draws y campws. Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldebau i'r amgylchedd a byddwn yn lleihau'r effaith rydym ni'n ei chael arno trwy fuddsoddi mewn prosiectau arbed ynni bob blwyddyn.

Roeddem yn awyddus i'n staff a'n myfyrwyr fod wrth wraidd gwaith datblygu'r Strategaeth newydd ac fe gynaliasom gyfres o weithdai dan arweiniad ein Canolfan Ddeialog er mwyn iddynt gael rhannu eu meddyliau a'u syniadau. Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran. Heb eu cyfraniadau, ni fuasem wedi cyrraedd y Strategaeth sydd gennym erbyn hyn.

Lansiwyd y Strategaeth newydd yn ffurfiol ym mis Mai 2025 mewn ffair wybodaeth i'r holl staff, gyda chyfres o ddiwyddiadau wedyn i gynnal cyswllt â'r staff a'r cyhoedd a fydd yn ymestyn i'r flwyddyn academaidd 2025/26.

Rwy'n credu'n gryf bod ein Strategaeth newydd yn ein rhoi ar sail gryfach ac yn sicrhau bod y gwaith hanfodol a wnawn yn lleol ac yn rhanbarthol - ac yng Nghymru a'r byd ehangach - yn parhau. Mae'r sector addysg uwch yn chwarae rhan hanfodol yn y gymdeithas ac fe ddylid ei gefnogi yn hynny o beth, a gadael iddo ffynnu. Dyna'r ddadl rydym wedi'i gwneud ar y cyd i Lywodraethau Cymru a'r DU.

Mae gan Brifysgol Aberystwyth lawer i ymfalchïo ynddo ac mae'r flwyddyn ddiwethaf yn dangos unwaith eto bwy ydym ni a pham rydym ni yma. Fel y Coleg Prifysgol cyntaf yng Nghymru, mae gennym ddyletswydd i adeiladu ar sylfaen ein traddodiadau uchel eu parch ym meysydd dysgu ac ymchwil fel ei gilydd. Mae gennym ran hanfodol i'w chwarae yn genedlaethol ac yn fyd-eang, trwy ein gwaith dysgu ac ymchwilio, a'n cenhadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol. Newid bywydau er gwell sydd yn ein sbarduno: mae ein Strategaeth newydd yn rhoi i ni lwybr uchelgeisiol tuag at ddarparu ymchwil ac addysg sy'n fwy rhagorol byth, er budd y genedl a'r byd.

Yr Athro Jon Timmis
Is-Ganghellor

Datblygu Strategaeth Prifysgol Aberystwyth



Prifysgol Aberystwyth - y llwybr i'r strategaeth newydd

Ionawr 2024

Gwaith ar Strategaeth 2030au yn dechrau

Dechrau i ganol 2024

Gweithdai staff

Hydref 2024

Cyswllt â'r staff a'r myfyrwyr

Hydref 2024

Y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth

Mai 2025 ymlaen

Gweithgareddau cyswllt mewnol ac ymgyfarwyddo, a chyflwyniadau i randdeiliaid allanol

Cenhadaeth Prifysgol Aberystwyth yw darparu addysg ac ymchwil sy'n ysbrydoli mewn amgylchedd cefnogol, creadigol, dwyieithog, ac eithriadol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw y byddwn ni, drwy adeiladu ar ein harbenigedd a'n cryfderau hanesyddol, yn cyfrannu at y gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach trwy gymhwyso ein gwybodaeth i heriau lleol a byd-eang. Gan weithio o fewn cymuned groesawgar, byddwn yn defnyddio ein harbenigedd i feithrin meddwl beirniadol, ymholi annibynnol, a galluoedd sy'n paratoi ein myfyrwyr am fywyd llwyddiannus.

EIN GWERTHOEDD

- **Trawsnewidiol:** Rydym yn ymdrechu i ddatgloi potensial unigolion drwy ddatblygu cryfderau personol parhaol a fydd yn eu galluogi i lwyddo yn y dyfodol. Mae ein staff a'n myfyrwyr yn ysbarduno newidiadau cadarnhaol trwy fynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang. Rydym yn annog dyfeisgarwch trwy syniadau a gweithrediadau newydd, mewn cyd-destun mentergar.
- **Creadigol ac arloesol:** Rydym yn annog meddwl yn rhydd, yn feirniadol ac yn llawn dychymyg drwy elwa ar ein diwylliant penodol Cymreig, a'n hanes, ein hamgylchedd eithriadol, a'n hadnoddau. Rydym yn meithrin dyfeisgarwch y staff a'r myfyrwyr wrth ddatrys problemau ac addasu a thrwy fod yn hyblyg.
- **Cynhwysol:** Rydym yn hyrwyddo natur agored a haelioni ysbryd ac yn coleddu'r ymdeimlad cryf o gymuned sydd i'w deimlo ledled y brifysgol, tref Aberystwyth a'n byd ehangach. Gwrandawn ar safbwyntiau gonest ein gilydd, ac ymateb iddynt, gyda pharch. Ymfalchiwn yng nghyfoeth yr amrywiaeth o ddiwylliannau, safbwyntiau a chefnidiroedd sydd i'w cael ymhlith ein staff a'n myfyrwyr.
- **Uchelgeisiol:** Rydym yn ymdrechu i wella ymhellach yr enw da sydd gennym ar draws y byd am ddarganfyddiadau, ansawdd yr addysg ac am arloesi. Rydym wedi ymrwymo i ragoriaeth mewn ymchwil, dysgu, a meithrin cysylltiadau. Dathlwn lwyddiannau a chyfraniadau ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr.

- **Cydweithredol:** Rydym yn meithrin a chynnal cysylltiadau allanol, gan gyfrannu at y ddadl gyhoeddus, at hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac i'r economi'n lleol ac yn ehangach. Rydym yn gweithio gyda'n myfyrwyr i sicrhau bod profiad y myfyriwr a'r amgylchedd dysgu yn cael eu gwella drwy'r amser. Rydym yn cyfleu gwaith a gwerth y brifysgol i'r byd ehangach.

EIN HAMCANION CRAIDD

- **Addysg a phrofiad y myfyrwyr:** Byddwn yn galluogi ein myfyrwyr i wireddu eu potensial eu hun fel dysgwyr annibynnol mewn cymuned ddwyieithog gefnogol, gynhwysol a chreadigol. Wrth raddio, bydd ein myfyrwyr yn feddylwyr beirniadol annibynnol a chanddynt sgiliau penodol a throsglwyddadwy.
- **Ymchwil ac arloesi sy'n creu effaith:** Byddwn yn cefnogi a datblygu ymchwilwyr er mwyn ymgymryd ag ymchwil sy'n creu effaith ac sydd o ansawdd sy'n arwain y byd, gan adeiladu ar sylfaen ein cryfderau hanesyddol er mwyn mynd i'r afael â heriau cyfoes sy'n wynebu Cymru a'r byd yn yr 21ain Ganrif.
- **Cyfraniad i'r gymdeithas:** Ers y cychwyn, rydym bob amser yn gwneud cyfraniad allweddol i Gymru a'r tu hwnt, gan ddod â manteision i'n cymunedau a'r gymdeithas yn gyffredinol trwy effaith ein hymchwil, ein haddysg, a llwyddiannau ein staff, ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr.
- **Meithrin cysylltiadau rhyngwladol:** Mae Aberystwyth yn brifysgol flaenllaw yng Nghymru ac mae ganddi enw rhagorol ledled y byd. Byddwn yn gyrchfan boblogaidd yn rhyngwladol i'r rhai sydd yn awyddus i astudio yma ac anogwn ein myfyrwyr i dreulio amser yn astudio dramor.
- **Ein pobl:** Ein pobl yw ein hadnodd pennaf ac mae gweithlu medrus, iach a theyrngar yn hanfodol er mwyn cyflawni ein strategaeth. Rydym yn gwerthfawrogi ein hacademyddion, ein gweinyddwyr a'r holl staff sy'n cyfrannu at lwyddiant y Brifysgol hon. Rydym wedi ymrwymo i feithrin boddhad, cymhelliant ac ysbryd y staff, ac i greu gweithle sy'n cynnig cefnogaeth ac ysbrydoliaeth.
- **Llywodraethu:** Mae llywodraethu effeithiol, effeithlon ac atebol yn nodwedd o'r Brifysgol. Llywodraethir mewn ffordd foesegol a hyblyg sy'n galluogi, gan sicrhau ar yr un pryd fod yr holl ddyletswyddau cyfreithiol a statudol yn cael eu cyflawni.

Strategaeth 2030au




Pwy ydyn ni a pham rydyn ni yma:

Wedi'i gwreiddio yng nghefn gwlad Cymru, yn ymfalchïo yn ei dwyieithrwydd a'i hagwedd fyd-eang, mae Prifysgol Aberystwyth yn ysbrydoli pobl i newid bywydau er gwell ymhob cwr o'r byd.

Who we are and what we're here for:

Rooted in rural Wales, proudly bilingual and cosmopolitan, Aberystwyth University inspires people to change lives for the better around the world.





Mae Prifysgol Aberystwyth yn parhau i gael ei chydabod am lefelau uchel bodhad ei myfyrwyr.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 24/25, roedd Prifysgol Aberystwyth yn parhau â'i hanes hir o ragoriaeth mewn addysg, profiad a chanlyniadau ei myfyrwyr. Unwaith eto fe ddangosom ein hymrwymiad diwyro i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel, cynhwysol a hyblyg; ac rydym yn parhau i gael ein cydnabod am hynny yn genedlaethol.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr i 2025, cawsom ein rhoi ar y brig yng Nghymru am ein cymorth academaidd, ein trefniadaeth a rheolaeth academaidd, ac am yr adnoddau dysgu sydd ar gael ac am eu hansawdd. Yr elfen fwyaf trawiadol oedd mai ni oedd y brifysgol orau yng Nghymru am foddhad y myfyrwyr am y ddegfed flwyddyn yn olynol. Roeddem hefyd ar y brig yng Nghymru a'r ail ym Mhrydain am foddhad ein myfyrwyr yng Nghlanllaw Prifysgolion Da 2025 y Times a'r Sunday Times, yn ogystal â dod yn y seithfed lle drwy Brydain am ansawdd y dysgu.

Mae'r ganmoliaeth hon yn adlewyrchu llwyddiant y Brifysgol wrth greu amgylchedd dysgu lle mae myfyrwyr yn cael eu cynorthwyo i wireddu eu

potensial academaidd llawn, yn ogystal ag effeithiolrwydd ac ymroddiad ein staff dysgu.

Rhywbeth sydd wedi cael sylw eang yn y cyfryngau yw'r lefelau uchel o gystadleuaeth am fyfyrwyr sy'n wynebu'r sector addysg uwch. Er hynny, rydym wedi cynnal niferoedd cadarnhaol o fyfyrwyr, sy'n dyst i'n gwytnwch a'n gallu i ymaddasu. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn adlewyrchu ein gallu i gynnig profiad unigryw a chefnogol i fyfyrwyr, profiad sy'n dal i ddenu dysgwyr o bob rhan o'r DU a'r tu hwnt.

Mae'r datblygiadau strategol yn cynnwys cyflwyno gradd Nysio Milfeddygol newydd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Coleg Milfeddygol Brenhinol (RVC). Croesawyd y garfan gyntaf o fyfyrwyr i'r rhaglen ym mis Medi 2024 ac mae'n cyfuno astudiaethau academaidd â blwyddyn ar leoliad gwaith mewn milfeddygfa. Ar ben hynny, graddiodd carfan gyntaf y Brifysgol o fyfyrwyr gofal iechyd proffesiynol yn haf 2025, sydd yn garreg filltir arwyddocaol wrth i ni ehangu ein darpariaeth addysg gofal iechyd.

Mae'r Ysgol Addysg hefyd wedi llwyddo i gael Nod Ansawdd yr ECSDN ar gyfer ei gradd Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda statws Ymarferydd y Blynnydoedd Cynnar, gan sicrhau bod y rhaglen yn bodloni safonau proffesiynol yng Nghymru a Lloegr ac yn ehangu cyfleoedd i raddedigion.

Fe wnaethom ehangu ein darpariaeth drwy lansio Aber Ar-lein yn swyddogol eleni, sy'n darparu rhaglenni lefel Meistr a gynlluniwyd i ddarparu addysg hyblyg. Cyrsiau mewn Busnes a Chyfrifiadureg yw'r rhai cyntaf ac mae gwaith ar y gweill ar ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys Seicoleg ac Addysg. Mae pob rhaglen astudio yn darparu ystod eang o adnoddau arbenigol i fyfyrwyr eu profi yn unigol ac ar y cyd, gan ddysgu o enghreifftiau o'r byd go iawn sut i gymhwyso eu gwybodaeth i'w dewis broffesiwn.

Enillodd un academydd yn yr Adran Dysgu Gydol Oes wobwr Cwrs Eithriadol y Brifysgol am ei fodiwl Writing Women: Feminism in Poetry and Prose. Cafwyd canmoliaeth uchel hefyd am gwrs ar ysgrifennu hunangofiannol, yn ogystal â rhai eraill a ddysgir gan adrannau'r Gyfraith a Throsedddeg, a Chyfrifiadureg.

Yng Ngwobrau Addysgu, Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr a gynhelir bob blwyddyn gan Undeb Aberystwyth, yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol a enwyd yn Adran y Flwyddyn. Enillodd Dr Alex Hubbard wobwr Darlithydd y Flwyddyn yn ogystal â'r wobwr Ymrwymiad i Gyflogadwyedd Myfyrwyr.

Nid dysgu yw ein hunig gyfrifoldeb i'r myfyrwyr ac mae ein hadran Gwasanaethau i Fyfyrrwyr yn cynnig cyngor bugeiliol ac ariannol i fyfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth lles wedi'i deilwra at yr unigolyn, cymorth academaidd ac adnoddau cynhwysol sydd

wedi'u cynllunio i ddiwallu eu hanghenion amrywiol. Trwy feithrin amgylchedd cefnogol a hybu gwytnwch, mae'r adran yn chwarae rhan hanfodol wrth wella profiad cyffredinol y myfyriwr a sicrhau bod pob myfyriwr yn teimlo bod ganddynt y grym a'r sgiliau i allu ffynnu yn ystod eu hastudiaethau ac wedyn.

Ym mis Medi 2024, cawsom Achrediad Cyffuriau ac Alcohol gan SOS-UK yn sgil gwaith yr adran gydag Undeb Aberystwyth, sef Undeb Myfyrwyr y Brifysgol, a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS). Mae'r achrediad yn cydnabod ein hymrwymiad i ymgorffori arferion diogel a chefnogol ac i godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth.

Rydym hefyd yn chwarae rhan allweddol yng nghorff newydd y Gymuned Ymarfer Genedlaethol sy'n anelu at leihau hunanladdiadau a hunan-niweidio ledled Cymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr addysg uwch a phellach eraill, yn ogystal â Medr a'r GIG. Yn ystod y flwyddyn academaidd, cyhoeddodd y Brifysgol hefyd ei Pholisi Atal, Ymyrryd ac Ymateb i Hunanladdiad, polisi newydd sy'n cynnig mwy o gefnogaeth i'n cymuned o fyfyrwyr pan fo ei hangen arnynt.

Mae ein rhwydwaith o gymorth i fyfyrwyr yn dechrau o'r eiliad pan gychwynnant ar eu hastudiaethau yn Aberystwyth. Eleni fe wnaethom gyflwyno rhaglen newydd o weithgareddau a gwybodaeth i'r glas-fyfyrwyr, gyda digwyddiadau

ymgyfarwyddo cyn cyrraedd a deunydd addysgol ar bynciau fel cydsyniad, a chymryd camau i ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol.

Mae'r dull cynhwysol ac ystyriol hwn o adeiladu rhwydwaith o gymorth o amgylch ein myfyrwyr yn dod yn fwyfwy hanfodol, gan fod angen i ni sicrhau ein bod yn ymateb â gofal a chydymdeimlad i broblemau iechyd meddwl ac anghenion dysgu cymhleth, wrth iddynt fynd yn fwyfwy cyffredin. Mae hyn yn gofyn am newid ein hymdriniaeth ar addysg uwch, drwy ganolbwyntio o'r newydd ar addysgeg drugarog, strwythurau cymorth cynhwysol a chydweithredu ar draws adrannau.

Fel rhan o'n Strategaeth ehangach ar Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr, a lansiwyd yn 2024/25, gwnaethom roi pwyslais cryf ar gyflogadwyedd ein graddedigion a sgiliau yn y byd go iawn, gan fuddsoddi yn ein Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd i sicrhau gwell llwybrau gyrfaol a chyflogadwyedd i raddedigion. Bydd hyn yn sicrhau bod myfyrwyr yn meithrin y wybodaeth, yr hyder a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r brifysgol.

Un o'r mentrau amlycaf a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn oedd darparu 42 Lleoliad Gwaith Llwybrau Proffesiynol i fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf mewn achosion lle y nodwyd bod eu paratodau gyrfaol wedi bod yn gyfyngedig. Rhoes y lleoliadau gwaith hyn brofiad gwerthfawr

o'r gweithle yn ogystal â chymorth wedi'i deilwra'n unswydd, ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill i ehangu'r cynllun i 50 lleoliad gwaith yn 2025/26. Yn ogystal, drwy'r Rhaglen FFYNIANT, cefnogwyd 38 o fyfyrwragedd, menywod sy'n dod o gefndiroedd a dangynrychiolir yn addysg uwch, drwy gyfres o weithdai i feithrin hyder y cyfranogwyr a helpu i'w grymuso a gwella eu rhagolygon gyrfaol.

Roedd mentergarwch hefyd yn faes allweddol, ac fe ddenodd y Gystadleuaeth Syniadau Myfyrwyr 33 o geisiadau. Dyfarnwyd grantiau cychwyn £4,000 i bum myfyriwr ar draws gwahanol gategoriâu gan gynnwys gwyddoniaeth a thechnoleg, menter gymdeithasol, busnes lleol a menter greadigol, sy'n dangos yr amrywiaeth a'r uchelgais sydd ymhlith yr arloeswyr yn ein corff o fyfyrwyr.

Gwnaethom lwyddo i gynnal cyswllt cryf rhwng y myfyrwyr a'n Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd trwy gydol y flwyddyn. Cynaliasom 1,194 o apwyntiadau cynghori â 665 o fyfyrwyr unigol, ochr yn ochr ag 1,737 o sesiynau galw heibio, yn ogystal â darparu cymorth drwy'r e-bost, gan sicrhau gwasanaeth hygrych ac ymatebol. Daeth 5,508 o fyfyrwyr i'n rhaglen o 286 o ddiwyddiadau a gweithdai, sy'n adlewyrchu cryn dipyn o ymroddiad a diddordeb mewn datblygu gyrfaol.

Roedd cyfranogiad y cyflogwyr yr un mor gadarn. Yn y Ffair Yrfaoedd Flynyddol gwelwyd 41 o gyflogwyr ac fe ddenwyd

859 o fyfyrwyr, gan hwyluso cyfleoedd gwerthfawr i rwydweithio a meithrin diddordeb mewn ymgeisio am swyddi. Yn y cyfamser, hyrwyddwyd 1,590 o gyfleoedd trwy GyrfaeddABER, gan ddenu 3,237 o gliciau drwy ddolennu, a rhoi mwy o fyfyrwyr mewn cyswllt ag interniaethau, swyddi addas i raddedigion a phrofiad gwaith.

Fe wnaethom bartneru â 'The Brilliant Club', sy'n galluogi myfyrwyr PhD i gyflwyno eu hymchwil i ddisgyblion ysgolion. Yn ogystal â'r manteision wrth greu cyswllt â'r gymuned, mae'r prosiect hwn yn helpu ymchwilwyr uwchraddedig i ddatblygu sgiliau dysgu a chyfathrebu.

Rydym hefyd wedi noddi dwy interniaeth israddedig ryngwladol trwy raglen ysgoloriaeth Universities UK International a Mitacs, sydd yn enghraifft o sut y gall ymchwil a dysgu gydblythu i greu profiadau dysgu trawsnewidiol.

Mae ein seilwaith digidol a'n hamgylcheddau dysgu yn rhoi sylfaen i'n haddysg a'r profiad a roddwn i'n myfyrwyr, ac fe wnaed gwaith sylweddol i'w gwella yn ystod y flwyddyn academaidd. Ymgorfforwyd offer deallusrwydd artiffisial (DA) cynhyrchiol yn Blackboard, gan gynnwys offer sgwrsio DA i hwyluso cyswllt â'r myfyrwyr.

Hyrwyddwyd Blackboard Ally er mwyn gwella hygrychedd, ac fe gafwyd mwy na 53,000 o lawrlwythiadau ar fformatau amgen gan fwy na 4,000 o ddefnyddwyr rhwng Medi 2024 a Mai 2025.

Roedd un o brif anerchiadau'r 12fed Gynhadledd Dysgu ac Addysgu Flynyddol yn ymdrin ag asesu trugarog, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddysgu cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, tra gwnaethom hefyd ail-fuddsoddi yn y feddalwedd bleidleisio Vevox a ddefnyddiwyd yn helaeth yn ystod yr Wythnos Groeso a digwyddiadau ymgyfarwyddo'r myfyrwyr.

Mae'r datblygiadau hyn yn gyson â'n nod strategol o gefnogi llwyddiant myfyrwyr trwy ddarparu amgylcheddau addysgu a dysgu rhagorol a'r nod o hybu arloesi wrth ddarparu'r cwricwlwm.



Mae ymchwil Prifysgol Aberystwyth yn y dyniaethau a'r gwyddorau'n dal i greu effaith wirioneddol ar fywydau pobl.

Adeiladwyd blaenoriaethau ymchwil Prifysgol Aberystwyth i'r flwyddyn academaidd 24/25 ar sylfaen ein cryfderau hanesyddol er mwyn ymdrin â'r heriau cyfoes sy'n wynebu Cymru a'r byd ehangach. Mae ein gwaith yn cael effaith flaenllaw ledled y byd: gwnaethom arwain neu gyfrannu at arloesi ym meysydd diwydiant a pholisi cyhoeddus, ac fe gafodd ein hymchwilyr gydnabyddiaeth ar y lefelau uchaf.

Roeddem yn falch o ddathlu penodiad yr Athro Michael Woods yn Gymrawd er Anrhydedd yn y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, gan gydnabod ei gyfraniadau eithriadol i ddaearyddiaeth wledig a gwleidyddol.

Cydnabuwyd ein hymrwymiad i amaethyddiaeth gynaliadwy pan ddyfarnwyd Cwpan Amrywogaeth y Sefydliad Botaneg Amaethyddol Cenedlaethol i Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) am y ceirch gaeaf Mascani, a fagwyd gan ymchwilyr yn y Brifysgol ac sydd erbyn hyn y math o geirch a dyfir yn fwyaf eang drwy wledydd Prydain. Fe'i disgrifir fel "amrywogaeth eithriadol heb ei hail [o ran] ansawdd a dibynadwyedd", ac mae llwyddiant Mascani yn rhan o hanes cyfoethog ein hymchwil ym maes gwyddor bywyd.

Cawsom gydnabyddiaeth hefyd am hyrwyddo cydraddoldeb rhyweddol mewn ymchwil. Dyfarnwyd Gwobr Audrey Jones i Elize Freeman gan Gynulliad Menywod Cymru, yn anrhydeddu gwaith sy'n bwrw ymlaen ar sail gwaddol yr ymgyrchydd

byd-eang dros hawliau menywod ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ymchwil gynhwysol a meithrin cyswllt â'r cyhoedd.

Rydym yn dal i fod ar flaen y gad o ran ymchwil arloesol ar draws amryw feysydd, o'r gofod a hanes cymdeithasol, i bolisi amgylcheddol a bwydydd y dyfodol, gan ennill grantiau pwysig ac yn gwneud cyfraniadau i arloesi a dysg ledled y byd.

Cyrhaeddodd y Brifysgol gerrig milltir cyllido pwysig sy'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i ymchwil gydweithredol a rhyngddisgyblaethol. Dyfarnwyd £1.6 miliwn i Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol UKRI (ESRC) am ei raglen dair blynedd Pobl, Lleoedd, a'r Maes Cyhoeddus, a fydd yn cael ei harwain gan ymchwilyr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd y prosiect hwn yn gwella ein dealltwriaeth am fywyd sifig a chyfranogiad y cyhoedd ledled Cymru a gweddill Prydain, gan gyfrannu at bolisi a seilir ar dystiolaeth ac at adnewyddu democratiaeth. Mewn enghraifft arall o'n gwaith sy'n torri tir newydd wrth arloesi â bwyd cynaliadwy, fe gawsom £470,000



Mewn digwyddiad arbennig yn y Senedd fe wnaeth y Brifysgol arddangos ei gwaith ymchwil i'r gofod, gan gynnwys copi o'r cerbyd crwydro ExoMars.

oddi wrth Gyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol (BBSRC) am brosiect bwydydd microbaidd, a fydd yn ymchwilio i broteinau amgen a wneir drwy eplesu.

Cryfhawyd ein hymchwil amgylcheddol ymhellach gan grant £3 miliwn gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) i brosiect pum mlynedd ar Fethan yng Ngwlyptiroedd Affrica. Nod y gwaith hwn yw gwella rhagfynegiadau am allyriadau methan o wlyptiroedd trofannol, hyrwyddo modelu systemau'r Ddaear, a chefnogi gwaith i gyrraedd targedau hinsawdd byd-eang.

Rydym yn arwain nifer o brosiectau ymchwil uchel eu heffaith sy'n ymdrin ag iechyd ledled y byd, newid amgylcheddol, a dealltwriaeth hanesyddol. Dyfarnwyd grant £3.4 miliwn gan Ymddiriedolaeth Wellcome i gyflymu gwaith i ddarganfod cyffuriau cyn-glinigol at sgistosomiasis, sef clefyd parasitig sy'n effeithio ar dros 200 miliwn o bobl ledled y byd.

Bydd Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol uchel iawn ei bri, a ddyfarnwyd i'r Dr Amanda Gibson, werth £2.2 miliwn, yn cefnogi ymchwil i ddewisiadau amgen cynaliadwy yn lle gwrthfotigau, a fydd yn gwella iechyd, cynhyrchiant a lles da byw ac ymdrin ag ymwrthedd i driniaethau gwrthmicrobaidd mewn amaethyddiaeth.

Er mwyn cryfhau ymchwil ryngwladol i'r gofod a hybu gwynwch technolegol, cawsom £600,000 oddi wrth y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (STFC) ar gyfer prosiect CorMag i ddatblygu

model magnetig o gorona'r Haul, gan hyrwyddo ein gwybodaeth am ddeinameg yr haul a thywydd y gofod. Rydym hefyd yn chwarae rhan allweddol yng ngwaith yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd wrth iddi ryddhau mapiau o garbon coedwigoedd y byd, offer hanfodol ar gyfer cofnodi newid yn yr hinsawdd a llywio penderfyniadau polisi cynaliadwy.

Yn hyrwyddo ein hymrwymiad i hanes cymdeithasol, mae £125,000 o grant gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) wedi cefnogi ein prosiect 'Ganrif o Frwydro: Tlodid a Deddf y Tlodion yng Nghymru, 1830-1930', sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth am hanes cymdeithasol Cymru ac yn porthi trafodaethau cyfoes ar dlodi a lles.

Daw'r llwyddiannau hyn ar adeg hynod gystadleuol am gyllid. Yn rhan o'n Strategaeth 2030au newydd, byddwn yn darparu hyfforddiant a mentora i staff er mwyn datblygu eu sgiliau ymchwil, fel y byddant yn parhau i gynhyrchu ymchwil o ansawdd uchel ac yn gwneud i Aberystwyth sefyll uwchben sefydliadau eraill.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill gwaith ymchwil y flwyddyn academiaidd hon roedd: datblygu prawf arloesol a allai ganfod canser y prostad mewn dynion yn gynt ac yn fwy cywir; creu dewis arall yn lle olew palmwydd sy'n niweidiol i'r amgylchedd; defnyddio modelau 3D a dysgu peirianyddol i gynorthwyo â llawdriniaeth ar wefusau a thafnodau hollt; a darganfod mai o ogledd yr Alban, nid o Gymru, y daeth y "garreg las" fwyaf yng nghanol Côr y Cewri.



Cafodd rhai o gyfrinachau mwyaf di-ddorol Côr y Cewri eu datglo, diolch i'n hymchwil ni.

Trwy benodiadau i swyddi arwain cenedlaethol, rolau cynghori arbenigol, a chyfraniadau uchel eu heffaith i bolisiâu a gwaith arloesol, rydym yn parhau i hyrwyddo gwybodaeth, llunio'r ddisgwrsgyhoeddus a gyrru newid cymdeithasol.

Penodwyd staff i rolau polisi cyhoeddus allweddol, gan gynnwys arbenigwr twbercwlosis gwartheg o fri rhyngwladol, yr Athro Glyn Hewinson, sy'n ymuno â phanel blaenllaw Llywodraeth y DU i adolygu'r dystiolaeth ddiweddaraf am y clefyd, a'r Athro Qiang Shen o'r Adran Gyfrifiadureg a ddewiswyd i gadeirio is-banel Cyfrifiadureg FfRhY 2029. Daeth yr Athro Reyer Zwiggelaar, hefyd o'r Adran Gyfrifiadureg, yn un o Uwch Arweinwyr Ymchwil i gorff

Ymchwil lechyd a Gofal Cymru.

Cyfrannodd ymchwilwyr hefyd i Adroddiad 'CreaTech' yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Ymddiriedolaeth Pen-blwydd Frenhinol ynghylch arloesi yn y diwydiannau creadigol a sut y gall technolegau newydd yrru arloesedd a chreu swyddi. Cafodd canfyddiadau'r Arolwg ar leuenticid Cefn Gwlad eu rhannu â Senedd y DU mewn Wythnos Dystiolaeth, gan ddylanwadu ar bolisi cyfranogiad pobl ifanc a sut i'w darbwyllo i aros yng nghefn gwlad. Roedd un academydd hefyd yn gyd-gadeirydd Adroddiad Asesu Gwerth IPBES a gyflwynwyd yn COP16 ac a helpodd i lunio polisi bioamrywiaeth.

Rydym wedi gweithredu fel cyrchfan ddeinamig i ddigwyddiadau sy'n hybu deialog, cyfnewid diwylliannol, ac ymchwil gydweithredol. Roedd cynhadledd heddwch, a agorwyd gan y Prif Weinidog, yn ystyried rôl Cymru wrth hybu byd di-ryfel, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddinasyddiaeth fyd-eang a'r ddisgwrs gyhoeddus. Cyflwynasom ein gwaith ar y cerbyd crwydro ExoMars i wleidyddion a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y Senedd yng Nghaerdydd.

Agorodd yr arddangosfa 'Bywydau Ansefydlog: Rhyfel a Dadleoli yng Nghymru' yng Nghanolfan y Celfyddydau ym mis Mehefin, yn rhoi llwyfan i straeon am ffoaduriaid, faciws a phobl wedi'u dadleoli o'r 20fed ganrif hyd heddiw, gan dynnu sylw at effeithiau gwrthdaro a mudo ar bobl, ac at rôl Cymru fel man lloches.

Cynhaliodd IBERS gynhadledd Monogram 2025, gan groesawu dros 150 o gynadleddwyr o academia a byd diwydiant. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth grawnfwyd a glaswellt, cryfhau partneriaethau ymchwil, a chefnogi gwaith arloesi mewn amaethyddiaeth.

Mae ein myfyrwyr yn dal ati i wneud cyfraniadau i ymchwil arloesol, ac un enghraifft o'u llwyddiannau pwysicaf yw un o'n myfyrwyr PhD Ffiseg a enillodd le yn Ysgol Hyfforddi yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, sy'n gwella ein harbenigedd ar weithrediadau llongau gofod ac yn cefnogi ein gwaith ni ar gynlluniau taith ExoMars.



Agorodd y Prif Weinidog Eluned Morgan gynhadledd heddwch arbennig a drafododd sut y gall Cymru gyfrannu at fyd di-ryfel.

Roeddem yn rhan o bartneriaeth lwyddiannus ar hyfforddiant doethurol â'r BBSRC, sy'n datblygu biowyddonwyr y dyfodol a fydd yn meithrin arbenigedd ar systemau bwyd a phrosesau biolegol. Rydym hefyd yn rhan o ddau gais llwyddiannus am gyllid Ffocws Doethurol yr AHRC, dim ond 10 ohonynt a ddyfarnwyd drwy Brydain, sy'n cynnig hyfforddiant sy'n edrych tua'r dyfodol mewn meysydd sy'n hanfodol i economi greadigol a lles cymdeithasol y DU.

Roeddem hefyd yn falch o ddathlu llwyddiannau ein cymuned ymchwil, gan gryfhau ein hymrwymiad i gydweithredu, gwaith arloesol a chynhwysiant. Mae'r ail flwyddyn o'n Gwobrau Amlygu wedi cydnabod cyfraniadau staff Prifysgol Aberystwyth ym mhob rhan o'n sefydliad. Fe wnaethom ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Menywod a Merched mewn Gwyddoniaeth a hybu 'Code First Girls', prosiect codio ar-lein am ddim sy'n cefnogi menywod a phobl anneauaid mewn technoleg.

Yn olaf, rhoddwyd llwyfan i un o'n cyfraniadau i wyddoniaeth fyd-eang wrth i gydrannau'r cerbyd crwydro ExoMars Rover gael eu dangos mewn arddangosfa am y gofod yn yr Amgueddfa Astudiaethau Natur. Fe wnaethom hefyd ddathlu 30 mlynedd o'r Ganolfan Rhewlifeg, sy'n enwog am ei hymchwil i'r hinsawdd a'i gwaith maes yn y pegynau, ac mae tri o'i chyfarwyddwr wedi derbyn y Fedal Begynol am ragoriaeth yng ngwyddor y pegynau.



Labordy'r Traeth, digwyddiad blynyddol sydd yn un enghraifft o sut rydym yn dod â'n gwaith ymchwil i'r cyhoedd.

Rydym yn falch o edrych yn ôl ar flwyddyn lle mae ein cenhadaeth gyhoeddus—ein hymrwymiad parhaol i addysg, ymchwil, a meithrin cyswllt â'r gymuned—yn destun sylw mwy pendant ar draws Prifysgol Aberystwyth. Y genhadaeth honno sy'n gyrru ein hymdrechion i gefnogi datblygu rhanbarthol, ac i gydweithio â'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector.

O brosiectau ar lawr gwlad sy'n cryfhau ein cysylltiadau â chymunedau ledled Cymru, i ymchwil fyd-eang sy'n ymdrin â heriau cymdeithasol a rennir yn eang, rydym yn dal ati i gyflawni ein rôl fel Prifysgol sy'n gwneud cyfraniad ystyrion a pharhaol i'r gymdeithas.

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi ysgogi, cyflwyno neu ddatblygu ystod amrywiol o brosiectau sy'n creu effaith, gan fanteisio ar ein rhagoriaeth academaidd a'n partneriaethau cymunedol cryf.

Er enghraifft, mae ein Canolfan Ymchwil i Greadigrwydd a Lles wedi mynd i bartneriaeth ag Ymddiriedolaeth Fathom, y sefydliad Credu, ac Ymddiriedolaeth y Gofalwyr i gynnal cyfres o ddiwrnodau lles creadigol i ofalwyr ledled gorllewin Cymru. Ariannwyd y digwyddiadau hyn gan Sefydliad Shaw, ac fe wnaethant gynnig lle diogel a chyffrous i feddwl am ieched a lles trwy grefftiau ac ysgrifennu.

Mae'r prosiect hirsefydlog Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr, sydd bellach yn ei ddegfed flwyddyn, yn parhau i ddarparu cyngor cyfreithiol am ddim i gyn-filwyr a'u teuluoedd ledled Cymru. Yn 2024, enillodd wobwr y Cyfraniad Pro Bono Gorau

yng Nghymru yng Ngwobrau Pro Bono LawWorks, a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Gyfraith yn Llundain.

Ym mis Mawrth, fe wnaethom groesawu dros 1,500 o ddisgyblion ysgol o'r canolbarth a'r gorllewin i'n harddangosfa o wyddoniaeth ryngweithiol, gan gynnig profiadau ymarferol yn y pynciau STEM. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cynhaliwyd ein digwyddiad Labordy'r Traeth ar brom Aberystwyth gan ddod â gwyddoniaeth i'r gymuned, gydag arddangosiadau diddorol ar ddeallusrwydd artiffisial, roboteg a chodio—gan gynnwys ein bygis hunan-yrru oddi-ar-y-ffordd a'n cerbydau crwydro traeth.

Cyflwynodd Canolfan y Celfyddydau raglen fywiog o ddigwyddiadau, gan gynnwys Multiplicity, arddangosfa bwysig a guradwyd gan Ffion Rhys. Roedd yr arddangosfa yn dangos gwaith gan wyth artist o'r mwyafrif byd-eang o ganolbarth a gorllewin Cymru, yn craffu ar hunaniaeth a chroestoriadedd trwy adrodd straeon gwledol grymus. Fe'i cefnogwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru.

Aeth gwaith ailddatblygu ein Hen Goleg eiconig yn ei flaen yn gadarn wrth i ni

agosáu at ein nod o'i droi'n ganolfan ddiwylliannol a chreadigol flaenllaw i Gymru. Cafodd y prosiect gydnabyddiaeth drwy ennill gwobr am y Defnydd Gorau o Dreftadaeth wrth Greu Lle.

Ehangodd ein Hysgol Filfeddygaeth ei darpariaeth, gan groesawu'r garfan gyntaf o fyfyrwyr nyrsio milfeddygol, a fydd yn llenwi bwch sgiliau hollbwysig yng Nghymru. Rydym yn dal ati i hybu ymchwil sy'n cefnogi ffermio a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy—er mwyn sicrhau dyfodol un o ddiwydiannau mwyaf hanfodol ein rhanbarth. Mae'r Brifysgol wedi dod yn adnabyddus am ei gwaith arloesol yn erbyn twbercwlosis buchol ac yn ystod y flwyddyn academaidd gwnaethom sicrhau cyllid i ddatblygu offeryn diagnostig cyflym, sy'n golygu bod modd canfod y clefyd yn gynt ac yn fwy effeithiol.

Mae ein gwaith hefyd yn dathlu ac yn cryfhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gynnwys ymchwil i integreiddio iaith i newydd-ddyfodiaid, cynllun Sgriblwyr Cymraeg Gŵyl y Gelli ar gyfer disgyblion ysgol, ac archif ar-lein newydd sy'n dogfennu dros 50 mlynedd o fideos cerddoriaeth Gymraeg.

Mae ein hymchwil hefyd yn gwneud gwahaniaeth ledled y byd - yn amrywio o drin y malltod tatws a lleihau colledion cnydau, i ddatblygu offer amddiffyn rhag trychinebau i gymunedau yn Nepal, a helpu i ddiogelu ffermydd Nigeria rhag fflw'r adar. Mae ein hymchwil i'r hinsawdd yn parhau wrth i ni ddatblygu system

rhybuddio cynnar i fonitro sut mae llen iâ'r Ynys Las yn toddi.

Fe wnaethom gryfhau ein cenhadaeth gyhoeddus drwy ddigwyddiadau fel Cyfres Her y Dyfodol a gynhaliwyd yn y Senedd yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2025. Daeth hyn â llunwyr polisi, ymchwilwyr ac arweinwyr cymunedol ynghyd i archwilio atebion cydweithredol i heriau cymdeithasol y dyfodol.

Rydym yn parhau â'n rhan weithredol mewn fforymau rhanbarthol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, ac yn dal ati i feithrin partneriaethau cryf ar draws y canolbarth, y gorllewin a'r gogledd. Trwy'r cysylltiadau hyn, rydym yn adeiladu cymunedau, yn meithrin gwybodaeth, ac yn cryfhau Cymru.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw ein cymuned i'r Brifysgol, ac mor bwysig yw'r Brifysgol i'n cymuned. Er bod cyfyngiadau ariannol yn gallu cyfyngu ar fuddsoddiadau uniongyrchol, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol i ddenu cyllid allanol a darparu buddion ar y cyd.

Wrth edrych ymlaen, mae ein hymrwymiad i greu effaith ar y rhanbarthol ac i feithrin cyswllt â'r cyhoedd yn dal i chwarae rhan ganolog yng nghyfeiriad strategol y Brifysgol. Drwy ein Strategaeth 2030au newydd, ein nod yw meithrin Cymru ffyniannus, sydd wedi'i chysylltu â'r byd yn dechrau yn Aberystwyth ac yn cyrraedd ymhell y tu hwnt i'r fro.



Mae myfyrwyr rhyngwladol yn rhan allweddol o hunaniaeth Prifysgol Aberystwyth.

Ers croesawu ein myfyrwyr rhyngwladol cyntaf ym 1875, rydym wedi dangos ymrwymiad cadarn a pharhaol i feithrin cysylltiadau ledled y byd. Yn ogystal â bod yn rhan annatod o'n treftadaeth sefydliadol, mae ymagwedd ryngwladol yn dal i fod yn gonglfaen o'n gweledigaeth strategol heddiw.

Ers canrif a hanner, rydym yn meithrin enw da am fod yn agored, am ragoriaeth academaidd a chyfnawid diwylliannol, gan ddenu myfyrwyr, ymchwilwyr a phartneriaid o bob cwr o'r byd.

Mae'r hanes hwnnw yn llywio ein hymagwedd bresennol, sy'n blaenoriaethu addysg gynhwysol uchel ei hansawdd a chydweithredu rhyngwladol ystyrlon. Wrth i'r ddeinameg fyd-eang newid, rydym yn parhau i esblygu, gan gryfhau ein strategaethau denu myfyrwyr, ehangu addysg draws-wladol a dyfnhau partneriaethau i sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i fod yn sefydliad â chysylltiadau byd-eang cryfion sy'n edrych tua'r dyfodol.

Un datblygiad allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf oedd mireinio prosesau sicrhau ansawdd ar draws pob elfen o ddenu myfyrwyr rhyngwladol. Mae'r newid hwn yn ein strategaeth wedi arwain at welliant sylweddol yn safon y myfyrwyr sy'n ymuno â'r Brifysgol. Mae cyfraddau derbyn fisâu yn dal i fod yn eithriadol o uchel, sy'n dyst i'r gwaith paratoi trylwyr a wnaed gan dimau o fewn y gwledydd ac arweinyddiaeth y pedwar swyddog rhyngwladol yn Aberystwyth. Disgwylir i'r gwelliannau hyn ddylanwadu'n gadarnhaol ar gyfraddau cadw myfyrwyr a'r cyfraddau sy'n cwblhau eu cyrsiau, gyda chefnogaeth drwy brosiectau a dargedir i wella'r cymorth academaidd a bugeiliol sydd ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol.

Mae ein strategaeth denu myfyrwyr rhyngwladol, a gyflwynwyd yn y flwyddyn gynt, wedi dwyn ffrwyth dros y 12 mis diwethaf. Nododd y strategaeth mai Malaysia, India, Tsieina, a'r Unol Daleithiau oedd y marchnadoedd blaenoriaethol. Mae'n werth nodi bod niferoedd y myfyrwyr a ddenwyd o'r Unol Daleithiau yn dangos cryfder, gan gynyddu 1.5% dros ddwy flynedd. Mae'r twf hwn yn adlewyrchu ymdrechion diwyd y tîm byd-eang, a ddechreuodd ei waith yn meithrin cysylltiadau a datblygu partneriaethau yng Ngogledd America sawl blwyddyn yn ôl, ac a gafodd ei ffocws strategol yn 2023.

Yn y marchnadoedd eraill sydd yn flaenoriaeth i ni, mae'r ffigurau cofrestru wedi gostwng ychydig, yn llai nag un ganran ym mhob achos. Mae'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch wrth ddenu myfyrwyr rhyngwladol yn hysbys ac mae gennym yr un problemau â'r rhai sy'n wynebu ein cyd-sefydliadau. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn, cynaliasom adolygiad ar y timau denu myfyrwyr yn y gwledydd dan sylw, â'r bwriad o sicrhau'r perfformiad gorau a lleihau'r costau caffael.

Rydym hefyd yn blaenoriaethu datblygu Addysg Draws-wladol (TNE) fel un o'n meysydd twf strategol. Mae gwaith wedi dechrau i archwilio ffyrdd o wahaniaethu ein cynnyrch ac ehangu i farchnadoedd lle nad ydym yn gweithredu ar hyn o bryd. Mae partneriaethau

cychwynnol wedi'u sefydlu i helpu i ddatblygu darpariaeth Addysg Draws-wladol, gan gynnwys cytundeb dilysu yn Ewrop y disgwylir iddo groesawu ei garfan gyntaf o fyfyrwyr yng ngwanwyn 2026. Dechreuwyd trafodaethau â phartneriaid posib yn Llundain, Manceinion a Birmingham, yn ogystal â rhai rhyngwladol yn India, Pacistan a Tsieina. Ar ben hynny, mae sgyrsiau wedi symud ymlaen â sefydliadau yn yr Unol Daleithiau ynglŷn â rhaglenni cyd-gyflwyno yn Aberystwyth, sy'n adlewyrchu'r diddordeb sy'n tyfu mewn modelau darpariaeth gydweithredol.

Rydym yn dal i groesawu myfyrwyr sy'n talu ffioedd o sefydliadau partneriaethol sydd ar gyrsiau byrion, rhaglenni semester, a lleoliadau am y flwyddyn academaidd lawn. Mae rhai partneriaethau o bwys yn cynnwys rhai â sefydliadau yn Tsieina, Prifysgol Talaith Bowling Green (Cyfrifiadureg) a Phrifysgol Gogledd Georgia (Addysg).

Mae rhaglenni cyfnawid a symudedd yn dal i fod yn elfen hanfodol o waith y Brifysgol i feithrin cysylltiadau rhyngwladol y Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, manteisiodd 182 o fyfyrwyr Aberystwyth ar gyfleoedd astudio dramor, gan gynnwys dwy daith dan arweiniad staff, un i Beriw i fyfyrwyr Sŵoleg ac un arall i Dde Affrica i fyfyrwyr Milfeddygaeth. Fe wnaethom ni groesawu 166 o fyfyrwyr cyfnawid a ddaeth atom ni, ac mae ymdrechion ar y gweill i ymdrin â'r anghydbwysedd presennol mewn trefniadau cyfnawid lle y hepgorir ffioedd.

Mae'r tîm Cyfleoedd Byd-eang (GO) yn parhau i godi ei broffil a chynyddu ei effaith, gan gynnwys rhoi cyflwyniad yng Nghynhadledd Fyd-eang UUKi ar bwysigrwydd cymorth

ôl-symud ac ôl-ofal. Mae'r partneriaethau gweithredol â sefydliadau fel Prifysgol Alabama a Citadel De Carolina yn dal i fod yn gryf, gyda rhaglenni cyfnawid myfyrwyr a staff yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Mae ymweliadau ychwanegol gan staff o Brifysgol Suffolk yn Boston a sefydliadau eraill yn yr Unol Daleithiau yn dystiolaeth bellach o'n hymrwymiad i gynnal ac ehangu ein rhwydwaith rhyngwladol.

Er mwyn cynorthwyo â datblygiad strategol ein partneriaethau rhyngwladol a rhaglenni cydweithredol ymchwil, rydym wedi sefydlu swydd ran amser y Dirprwy Is-Ganghellor Cyswllt - Rhyngwladol. Mae hyn wedi ein galluogi i gydlynun uniongyrchol â Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Prydeinig, yn ogystal â gwasanaethu fel cyrchfan ar gyfer croesawu sefydliadau byd-eang. Ffurfiwyd hefyd grwpiau gweithredu rhanbarthol, sy'n canolbwyntio ar farchnadoedd o bwys, sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r Brifysgol ac yn darparu cefnogaeth werthfawr i'r timau rhyngwladol.

Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu'r sector, mae gennym ffordd o weithio sy'n drawsnewidiol ac yn gynaliadwy, sy'n sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol yn cael eu croesawu, eu cefnogi a'u grymuso i lwyddo. Rydym yn parhau â'n hymroddiad i'n cenhadaeth ryngwladol a gall y Brifysgol barhau i'w rhoi ei hunan mewn sefyllfa gadarn fel sefydliad sydd â chysylltiadau byd-eang drwy gynllunio strategol, targedu ein gwaith denu myfyrwyr, a datblygu partneriaethau arloesol.



Roedd Gŵyl Trawsnewid yn dathlu creadigrwydd, cydweithredu, a bwrlwm y dirwedd ddiwylliannol ar arfordir y gorllewin.

Ers y cychwyn cyntaf, mae Prifysgol Aberystwyth yn ymfalchïo yn ei hunaniaeth Gymreig. Mae'n anrhydedd i ni mai ni oedd y Coleg Prifysgol cyntaf yng Nghymru a'n bod yn parhau â'n haddysg a'n hymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.

Eleni mae hi'n ganrif a hanner ers sefydlu'r Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Mae gan yr Adran hanes disglair, ac fe fu'n gartref i rai o awduron ac ysgolheigion uchaf eu bri yng Nghymru drwy gydol ei hanes, gan gynnwys T. H. Parry-Williams, T. Gwynn Jones, D. Gwenallt Jones, Bobi Jones a Mihangel Morgan.

Ers y 1980au, mae'r Adran wedi helpu i feithrin rhai o chwaraewyr mwyaf allweddol yn niwylliant cyfoes Cymru, ac mae llawer o fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i ennill y gwobrau llenyddol mawr yn Eisteddfod yr Urdd ac yn y Genedlaethol, gan ddod yn llenorion blaenllaw y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys Robin Llywelyn, William O. Roberts, Myrddin ap Dafydd, Iwan Llwyd, Twm Morys, Lleucu Roberts, Meleri Wyn James, Catrin Dafydd, Marged Tudur, Carwyn Eckley ac Iestyn Tyne. Rydym hefyd yn falch o gael yr Athro Mererid Hopwood, bardd adnabyddus ac Archdderwydd presennol Cymru, ymhlith ein staff.

Fe wnaethom ddathlu carreg filltir y ganrif a hanner mewn cyfres o ddiwyddiadau, gan gynnwys cyngerdd ym mis Gorffennaf gyda'r canwr byd-enwog a Chymrawd Prifysgol Aberystwyth, Bryn Terfel, lle y canwyd caneuon gan rai o gyfansoddwyr amlycaf Cymru gyda geiriau gan rai o feirdd mwyaf adnabyddus y wlad.

Mae dysgu drwy'r Gymraeg ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau yn parhau i fod wrth wraidd cenhadaeth ein Prifysgol. Yn ystod y flwyddyn fe ddatblygwyd modiwl newydd ar sgiliau i'r gweithle a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r bwriad yw ei gyflwyno ym mis Medi 2025. Lanswyd cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ar baentio, ffotograffiaeth y cyfnos a'r hwyr, a brodio â llaw hefyd gan yr Adran Dysgu Gydol Oes.

Mae ein hacademyddion wedi cyflawni gwaith ymchwil craff yn ystod y 12 mis diwethaf. Bu ymchwilwyr yn astudio sut mae teledu Cymraeg wedi meithrin fideos cerddoriaeth Gymraeg yn y 50 mlynedd diwethaf, ac fe ddaeth arbenigwyr o bob cwr o'r byd ynghyd yn Aberystwyth i drafod crefyddau Celtaidd, mythau a'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon yn yr Oesoedd Canol. Gofynnodd academyddion yn adrannau Daeryddiaeth a'r Gymraeg i'r cyhoedd am eu hatgofion am y tywydd mewn Eisteddfodau yn y gorffennol, o'r tywydd crasboeth yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi yn 1976 i'r gwyntoedd cryfion yn Nhŷ Ddewi yn 2002.

Adolygodd ein hacademyddion effaith Arfor ll, prosiect Llywodraeth Cymru, a oedd â'r nod o hyrwyddo datblygiad

economaidd ar draws y gogledd a'r gorllewin, a thrwy hynny roi hwb i ddyfodol y Gymraeg. Mewn adroddiad arloesol gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru yn y Brifysgol bu galw am ffyrdd newydd o gasglu data er mwyn rhoi gwell darlun o gyflwr y Gymraeg a sut y'i defnyddir. Mewn manau eraill, canfuwyd bod cytundebau twf rhanbarthol ar draws y gogledd a'r gorllewin wedi rhoi ystyriaeth "ymylol" i'r Gymraeg.

Lluniwyd llyfryn gan ymchwilwyr addysg y Brifysgol i gynorthwyo disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o aelwydydd di-Gymraeg. Bu'r academyddion yn gweithio gyda sefydliadau addysg ledled Ceredigion a Phowys ar y prosiect, yn ogystal â siarad â disgyblion a rhieni. Gwnaeth Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol y Gymru Wledig - a arweinir gan Brifysgol Aberystwyth - wahodd cymunedau gwledig o bob cwr o'r wlad i wneud cais am grant gwerth £20,000 i bwysu a mesur syniadau a allai gyfrannu at ddyfodol gwell i'w hardal. Ar ben hynny, dyfarnwyd tair ysgoloriaeth newydd i wneud ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr sy'n astudio Seicoleg, Mathemateg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Cynhaliodd y Brifysgol nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn hefyd. Cynhaliwyd cynhadledd Cymdeithas Myfyrwyr Astudiaethau Celtaidd yn y Brifysgol am y tro cyntaf ers 10 mlynedd. Cynhaliwyd cynhadledd 'Testunau Enfys'

hefyd mewn partneriaeth â phrifysgolion Bangor a Chaerdydd, yn edrych ar gynrychiolaeth a hunaniaethau LHDTC+ a chroestoriadedd yn y canon llenyddol Cymraeg, gan roi sylw i amryw destunau llenyddol hanesyddol a chyfoes.

Trosglwyddwyd darpariaeth Dysgu Cymraeg Sir Gaerfyrddin i'r Brifysgol ym mis Medi 2024, a oedd yn golygu mwy na 300 o ddysgwyr ychwanegol yn rhan o'r ddarpariaeth Ceredigion-Powys-Sir Gâr. Roedd bron i 3,000 o ddysgwyr i gyd ar y prif gyrsiau iaith, a'r twf yn 10% yn fwy na'r targedau a osodwyd yn genedlaethol, a 200 o bobl yn sefyll arholiadau. Mae bron i 100 aelod o staff wedi astudio ar gyrsiau yn ystod y flwyddyn hefyd.

Bu nifer o brosiectau cydweithredol llwyddiannus gyda Hywel Dda, Urdd Gobaith Cymru, a Chyfoeth Cenedlaethol Cymru i ddatblygu'r ddarpariaeth iaith Gwaith. Roedd prosiect newydd i gynnig hyfforddiant iaith i ddisgyblion y chweched dosbarth mewn ysgolion lleol yn llwyddiannus iawn a bydd bellach yn cael ei ddarparu'n genedlaethol.

O gofio ein treftadaeth, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gynnal y lefelau uchel o wasanaeth a darpariaeth a gynigiwn ar hyn o bryd yn y Brifysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r Gymraeg yn elfen allweddol o'n Strategaeth 2030au - rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan i helpu i sicrhau bod y Gymraeg a'i diwylliannau niferus yn ffynnu i'r dyfodol.



Cynhaliodd Prifysgol Aberystwyth gyfres o ddiwyddiadau i'w staff ynglŷn â'i Strategaeth 2030au.

Ein pobl yw ein hadnodd pennaf ac mae gweithlu medrus, iach a theyrngar yn hanfodol er mwyn cyflawni ein strategaeth. Rydym yn gwerthfawrogi ein staff a holl aelodau ein cymuned sy'n cyfrannu at lwyddiant y Brifysgol hon. Rydym wedi ymrwymo i feithrin boddhad, cymhelliant ac ysbryd y staff, ac i greu gweithle cynhwysol sy'n cynnig cefnogaeth ac ysbrydoliaeth.

Roedd y flwyddyn academaidd 2024/25 yn flwyddyn o newid wrth i'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen ar ein Rhaglen Drawsnewid helpu'r Brifysgol i osod y sylfeini i ddyfodol mwy cynaliadwy ac effeithlon. Rydym yn glir o'r cychwyn cyntaf ynghylch ein hamcanion a'n hegwyddorion allweddol, sef effeithlonrwydd, cysondeb, atebolrwydd, gwytnwch a chydweithredu.

Er y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn cael ei rhoi ar waith o'r flwyddyn academaidd 2025/26 ymlaen, megis cyflwyno'r cyfadrannau newydd y Dyniaethau a'r Gwyddorau, a'r Adolygiad ar y Gwasanaethau Proffesiynol, canolbwyntiodd ar waith paratoi a meithrin cyswllt yn y flwyddyn ddiwethaf.

Trwy gydol y cyfnod hwn o newid, rydym wedi sicrhau ein bod wedi cyfathrebu â'r staff mewn modd agored a thryloyw, drwy gynnal cyfarfodydd yn aml i'r holl staff, sesiynau briffio adrannol, a sesiynau galw heibio i unigolion, ynghyd â deialog barhaus â'r undebau llafur. Fe wnaethom hefyd sefydlu cyfrif e-bost pwrpasol ar gyfer ymholiadau a microwefan bwrpasol,

roedd y Cwestiynau Cyffredin yn cael eu diweddu'n aml i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol wrth i'r Rhaglen a'r Adolygiad fynd rhagddynt. Bydd hyn yn parhau i'r flwyddyn academaidd 2025/26.

Pan fo staff wedi manteisio ar y cynllun Diswyddo Gwirfoddol a gyflwynwyd yn rhan o'r Rhaglen Drawsnewid neu wedi ymadael â'r Brifysgol, rydym wedi sicrhau eu bod wedi cael cefnogaeth. Yn ogystal â'r gefnogaeth gan reolwyr llinell ac Adnoddau Dynol, mae'r Brifysgol yn cynnig gwasanaethau'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr, rhag ofn y byddai angen help ar staff ag unrhyw faterion emosiynol neu ymarferol.

Ynghyd â'r Rhaglen Drawsnewid mae lansiad Strategaeth 2030au, sy'n cadarnhau ein cenhadaeth, sef darparu addysg ac ymchwil ragorol sy'n ysbrydoli pobl o bob cwr o'r byd i newid bywydau er gwell. Roedd ein cyswllt â'r staff yn ganolog i'n gwaith i ddatblygu'r Strategaeth trwy gyfres o weithdai a holiaduron. Cynhaliwyd lansiad mawr i'r staff ym mis Mai, gyda nifer o ffeiriau

gwybodaeth yn cyflwyno'r Strategaeth newydd iddynt, gan roi'r cyfle i gael siarad yn uniongyrchol â staff y Weithrediaeth, gan sicrhau bod ganddynt 'fuddsoddiad' uniongyrchol yng ngwerthoedd newydd y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol a'n cydweithwyr yn yr undebau llafur wedi gweithio'n galed ar ddatblygu perthynas gydweithredol wedi'i seilio ar fod yn agored ac ar ymddiriedaeth. Yn rhan o'r bartneriaeth bwysig hon, fe ddaethom i gytundeb ar flaenoriaethau, gan weithio'n unol â hwy er mwyn cefnogi ein staff, ac fe wnaethom sicrhau rhagor o gyfathrebu.

Lansiodd yr adran Adnoddau Dynol adolygiad ar sut rydym yn cefnogi ac yn datblygu ein staff a sut rydym yn gwobrwyo, cydnabod a dathlu eu gwaith, a bydd yr adolygiad hwnnw'n parhau i'r flwyddyn academaidd 2025/26. Bydd hyn yn golygu sicrhau bod llwybrau gyrfaol a chynlluniau datblygu eglur wedi'u gosod o'r adeg pan gychwynna staff newydd.

Fe wnaethom hefyd gyflwyno Ffair Les newydd, a gynhaliwyd ym mis Ebrill, lle'r oedd stondinau adrannau mewnol a sefydliadau allanol, ynghyd â rhaglen o sesiynau a gweithdai a ganolbwyntiai ar iechyd a lles. Daeth niferoedd da o staff i'r digwyddiad ac fe gafodd ymateb cadarnhaol. Rydym wrth ein bodd y bydd yn dod yn eitem reolaidd yn ein calendr.

Rydym wedi cadw ein hachrediad Cyflog Byw Gwirioneddol, ac rydym yn cynorthwyo'r staff ar y graddfeydd cyflog isaf drwy ddarparu hyfforddiant ariannol a chefnogaeth arall. Mae gennym hefyd gynllun Beicio i'r Gwaith a chynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Cerbydau Trydan.

Rydym yn cydnabod bod y gweithle'n newid yn gyflym ac rydym hefyd yn awyddus i hwyluso anghenion y staff trwy ddatblygu ac annog ffyrdd modern o weithio. Rydym yn cynnig cynlluniau fel oriau gwaith hyblyg, y cyfle i weithio llai o oriau dros dro, ac yn ymestyn y cyfle i brynu gwyliau blyneddol.

Bydd y flwyddyn academaidd nesaf yn gweld newidiadau pellach wrth i'r Brifysgol roi ei Rhaglen Drawsnewid ar waith. Mae sicrhau ein bod yn cadw'r llinellau cyfathrebu ar agor, bod y wybodaeth yn agored a bod y staff yn cael cefnogaeth os bydd ei hangen arnynt yn flaenoriaethau allweddol i ni o hyd.



Ym Mhrifysgol Aberystwyth, rydym yn ymrwymedig o hyd i feithrin amgylchedd cynhwysol, llawn parch, lle rydym yn croesawu, cefnogi a pharchu gwahanol bobl, safbwyntiau a ffyrdd o fyw a bod yn y byd.

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae'r Brifysgol wedi adeiladu ar y sylfaen gynhwysol gref a osodwyd i'n staff a'n myfyrwyr yn y blynyddoedd diwethaf, trwy fwrw ymlaen â mentrau allweddol, cyflwyno hyfforddiant a chyfleusterau newydd, a noddi a chymryd rhan mewn digwyddiadau allweddol i godi ymwybyddiaeth.

Cydnabuwyd ein cynnydd pan gawsom ddyfarniad Safon Efydd Siarter Cydraddoldeb Hiliol gan gorff AU Ymlaen, a oedd yn cydnabod ein cynllun gweithredu i wella cynrychiolaeth, cynnydd a llwyddiant unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn y Brifysgol ac ar draws y sector addysg uwch yn ehangach. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfraniad a wnawn i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r nod cenedlaethol o sicrhau Cymru wrth-hiliol erbyn 2030.

Adnewyddodd yr Adran Gyfrifiadureg ei safon Efydd Athena Swan hefyd, gan adlewyrchu ei hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb rhyweddol a hybu menywod ym meysydd y gwyddorau a thechnoleg.

Mae ein hadroddiad diweddaraf ar gydraddoldeb yn tynnu sylw at amrywioldeb ein staff a'n myfyrwyr. Yn 2024, nododd 53.9% o'r staff eu bod yn fenywod a 46.1% eu bod yn ddynion. Roedd y staff o leiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 6.3% o'r gweithlu-yn is na chyfartaledd sector yn y DU (17.5%) a Chymru (10.5%). Mae'r staff yn hano o 51 o wledydd, a gwnaeth 11.5% ohonynt nodi eu bod yn ddinasyddion o wladwriaethau heblaw'r DU. Cynyddodd y gyfran o'r staff sy'n datgan bod ganddynt anabledd, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu i 10.5%, yn fwy na ffigur meincnodi AU Ymlaen, sef 7.2% i'r DU ac 8.5% i Gymru.

Fe wnaethom gyflwyno amrywiaeth o raglenni hyfforddi a digwyddiadau i hybu ymwybyddiaeth er mwyn meithrin diwylliant mwy cynhwysol a gwrth-hiliol. Roedd y rhain yn cynnwys gweithdai atal hunanladdiad a ddarparwyd gan Papyrus, sesiynau ymwybyddiaeth hil a diwylliannol, hyfforddiant ymyrryd i wylieyddion, a modiwlau sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth ynghylch e.e. Deall Hil a Hiliaeth i Arweinwyr. Mae'r prosiectau hyn wedi cryfhau dealltwriaeth ac atebolrwydd ar bob lefel yn y Brifysgol.

Cyflwynwyd cyfleusterau newydd hefyd i gefnogi lles a chynhwysiant, gan gynnwys Man Ffydd ychwanegol ar gyfer staff a myfyrwyr. Cynyddodd nifer y staff sy'n datgan crefydd neu gred i 29.8%, cynnydd o'r 28.9% a ddatganodd y flwyddyn gynt. Parhaodd ymgyrch Helo Periods â darparu cynhyrchion misglwyf am ddim ar draws y campws, gan hybu urddas a hygyrchedd.

Drwy gydol y flwyddyn, buom yn dathlu cyfoeth ein cymuned drwy ystod eang o ddigwyddiadau mewn partneriaeth ag Undeb Myfyrwyr y Brifysgol. Roedd y rhain yn cynnwys Mis Hanes Pobl Ddu, Mis Hanes LHDT, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Iechyd Meddwl y Brifysgol, Wythnos Niwroamrywiaeth, Blwyddyn Leuad Newydd, Diwali, a Ramadan. Roedd ein hymrwymiad i amrywioldeb yn ymestyn y tu hwnt i'r campws, wrth i ni noddi digwyddiad Cynefin yng Ngheredigion a digwyddiad pan 'feddiannwyd' Parkrun Aberystwyth o dan arweinyddiaeth gwirfoddolwyr i nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn, i godi ymwybyddiaeth am drais a seilir ar rywedd.

A ninnau'n sefydliad a chymuned sy'n dysgu, rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i wella'n barhaus o ran Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant—a sicrhau bod ein polisïau, ein harferion a'n diwylliant yn adlewyrchu gwerthoedd tegwch, parch a chyfle i

bawb. Byddwn yn parhau i wrando, dysgu a gweithredu er mwyn creu prifysgol lle y gall pawb berthyn iddi a ffynnu ynddi.

Mae lansio ein Strategaeth 2030au wedi darparu fframwaith o'r newydd ar gyfer ymgorffori tegwch, amrywioldeb a chynhwysiant (TACH) ym mhopeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn parhau i adlewyrchu ein hymrwymiad cadarn i fynd ati i sicrhau cydraddoldeb rhywedd a hil, a bod yr holl nodweddion gwarchoddedig yn bwydo i ddiwylliant lle mae unigolion yn cael eu parhau, eu gwerthfawrogi a'u grymuso i arddel eu gwir hunaniaeth.

Polisi Cyflog Blynyddol a Thaliadau i'r Staff Uwch

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/25, y pwynt cyflog uchaf yw Pwynt 9 ar Raddfa Gradd 10, sy'n cyfateb i £113,615 (ar 31 Gorffennaf 2025). Mae 13 o swyddi uwch sydd â phe cyn taliadau dros £100,000, yn seiliedig ar y cyflog sylfaenol yn ogystal ag unrhyw lwfans am gyfrifoldeb ychwanegol, ar 31 Gorffennaf 2025. Pennir y cyflogau hyn wedi ystyried data meincnodi perthnasol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector Addysg Uwch.

Y pwynt tâl isaf yw Pwynt 3 ar y Golofn Dâl Unigol, sy'n cyfateb i £23,915 (ar 31 Gorffennaf 2025). Dyna'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar hyn o bryd (dechreuodd y Brifysgol dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Ebrill 2018 a chafodd ei hachredu'n gyflogwr y Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Hydref 2018).

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchiadau cystadleuol ac mae'n awyddus i ddenu a chadw'r staff gorau posib. Serch hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl y staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Taliadau ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath, gan gyfeirio at y data meincnodi i brifysgolion tebyg.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch i'r Brifysgol, sy'n pennu ymagwedd y sefydliad tuag at dâl ei staff uwch. Fel y nodwyd yn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch, mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Taliadau i gytuno ar faterion sy'n gysylltiedig â thaliadau'r Is-Ganghellor; y Dirprwy Is-Gangellorion; a'r Prif Swyddog Ariannol. Mae pob aelod o'r staff uwch yn y Brifysgol yn derbyn yn awtomatig unrhyw ddyfarniadau tâl 'costau byw' sy'n cael eu darparu gan y Brifysgol i'w staff ar y golofn dâl sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol.

Cyd-adroddiad ar y flwyddyn ariannol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Prif Swyddog Ariannol

Mae'r Brifysgol wedi wynebu llawer o'r un heriau yn y flwyddyn academaidd 24/25 ag a wynebodd y sector addysg uwch ehangach. Serch hynny, rydym wedi dechrau gweld effeithiau cadarnhaol yn deillio o'n Rhaglen Drawsnewid, a lansiwyd yn ystod y flwyddyn academaidd 23/24 i aildrefnu ein model gweithredu, ac rydym wedi lleihau ein diffyg gweithredol sylfaenol i £2.4 miliwn o £8.1 miliwn yn y flwyddyn gynt.

Ffioedd dysgu myfyrwyr yw ein prif ffynhonnell incwm o hyd. Er bod ffioedd israddedig 'cartref' wedi cynyddu eleni, maent yn dal i fod yn sylweddol ar ei hôl hi, y tu ôl i'r cynnydd chwyddiant a gafwyd yn y 10 mlynedd diwethaf. Cynyddodd ein costau hefyd yn unol â chwyddiant ar draws yr economi ehangach.

Mae'r gystadleuaeth i ddenu myfyrwyr yn ffyrnig, wrth i brifysgolion geisio cynyddu niferoedd a'u hincwm. Cynyddodd nifer ein myfyrwyr dros y cyfnod adrodd, yn unol â'n cyllideb. Er mwyn gwella ein sefyllfa weithredol, bu'n rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau anodd i leihau ein gwariant. Drwy ymgymryd â rhaglen o arbedion, gwnaethom leihau costau staff a nwyddau traul dros £14 miliwn yn ystod y cyfnod.

Er bod y gostyngiad hwn yn ein diffyg gweithredol yn rhywbeth i'w groesawu, bydd angen i ni barhau â'n gwaith ar Raglen Drawsnewid y Brifysgol. Rydym yn aros am fanylion y trefniadau cyllido yn y tymor hwy, sef ar ôl codi lefel y cap ar ffioedd dysgu sydd yn yr arfaeth i'r flwyddyn academaidd 2026/27. Eleni, gwnaethom gwblhau ein gwaith ar ein Strategaeth a'n Cynlluniau newydd i'r Brifysgol sy'n gosod ein llwybr i'r pum mlynedd nesaf er mwyn gwella ein sefyllfa ariannol ymhellach.

Mae ein cyllideb i 2025/26 yn rhagweld gwelliant pellach yn y sefyllfa weithredu, gan adeiladu ar sylfaen y cynnydd a wnaed eleni. Mae'r nifer o fyfyrwyr newydd a dderbyniwyd yn cyd-fynd â'n cyllideb, ac rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r arbedion sydd eu hangen drwy ein hadolygiad ar y Gwasanaethau Proffesiynol, sy'n rhan o'r Rhaglen Drawsnewid ehangach.

Mae'r cynnydd yn yr arian parod a ddaliwn, sef £3.7 miliwn, sy'n cryfhau sefyllfa ein hylifedd arian parod, yn dangos bod ein sefyllfa ariannol wedi gwella. Mae gwneud hynny ymhlith y targedau allweddol i'r tymor canolig er mwyn ymdrin â'r pwysau rheoli arian parod o ddydd i ddydd a hefyd er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd sydd eu hangen i fuddsoddi yn y seilweithiau digidol a chorfforol, sy'n hanfodol er mwyn cefnogi Rhaglen Drawsnewid y Brifysgol.

Roedd gwariant cyfalaf y flwyddyn hon yn canolbwyntio ar waith ailddatblygu'r Hen Goleg, lle y cawsom a defnyddiasom arian o sawl cyllidwr allanol. Gwnaed buddsoddiadau cyfalaf eraill, wedi'u targedu i gefnogi ein gweithgareddau craidd, bodloni rheoliadau statudol a galluogi newid. Rydym yn ddiolchgar am yr arian cyfalaf ychwanegol a gafwyd yn ystod y flwyddyn a ddyrannwyd i bob prifysgol yng Nghymru gan Medr a oedd yn golygu bod modd cyflawni enillion effeithlonrwydd pellach, ac a gefnogodd waith cyfalaf ein Rhaglen Drawsnewid.

Bydd angen buddsoddiad sylweddol o ran cyfalaf a refereni i gefnogi'r Rhaglen Drawsnewid a sicrhau newid. Mae sicrhau gwell canlyniadau gweithredu yn hanfodol i gynhyrchu arian parod a rhoi hyder i'n rhanddeiliaid. Mae llunio ein Strategaeth 2030au a'n cynlluniau ategol eleni yn darparu llwybr clir tuag at gyflawni ein hamcanion cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig.

Cwmpas y datganiadau ariannol

Mae'r datganiadau ariannol i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025 yn ymgorffori canlyniadau'r Brifysgol, ynghyd ag Arloesi Aberystwyth, Aber Trading Cyf ac Aber Business Consultancy Cyf., sydd i gyd yn is-gwmnïau. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o ganlyniadau'r Grŵp. Mae cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn yn cynnwys sawl cofnod nad ydynt yn arian parod. Mae'r Brifysgol wedi cofnodi £2.7 miliwn o enillion cyfrifo yn 2024-25, (2023-24: £3.7 miliwn o golled) ar ôl prisiad o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensynau (prisiad actiwaraid) a gynhaliwyd gan ein cynghorwyr annibynnol, Mercers. Rhoddir rhagor o fanylion am gynlluniau pensiwn y Brifysgol o dudalen 96 ymlaen.

Mae cysoniad crynhoi rhwng y Datganiadau Ariannol a'r Cyfrifon Rheoli (y sefyllfa weithredu waelodol) wedi'i ddangos isod er cyflawnder. Mae'r safonau Cyfrifon yn mynnu bod y Brifysgol yn cynnwys nifer o addasiadau cyfrifo nad ydynt yn arian parod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Y sefyllfa weithredol waelodol yw £2.4 miliwn o ddiffyg yn y grŵp pan hepgorir yr eitemau hyn ac mae'r rhain wedi'u gosod yn y tabl isod.

	2024-25 (£m)	2023-24 (£m)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-0.3	26.2
Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog	-	-0.4
Elw ar ôl gwerthu asedau anniriaethol	-0.4	-
Colled/(enillion) o fuddsoddiadau	-1.8	-3.2
Gwaddolion newydd	-	-0.4
Symudiadau yn y pensiwn USS yn ystod y flwyddyn	-	-38.4
Taliadau pensiwn	1.9	2.4
Enillion eraill a gofnodir	0.9	2
Symudiadau ym mhensiynau CPAPA a'r ALL yn ystod y flwyddyn	-2.7	3.7
Sefyllfa weithredol waelodol	-2.4	-8.1

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r Grŵp i'r flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Datganiadau Ariannol.

	2024-25	2023-24
Incwm	127.4	126.3
Gwariant	-132.6	-99.9
Gwarged / (diffyg) cyn enillion a cholledion eraill	-5.2	26.4
Elw ar ôl gwerthu asedau sefydlog	-	0.4
Elw ar ôl gwerthu asedau anniriaethol	0.4	-
(Colled)/enillion o fuddsoddiadau	1.8	3.2
Gwarged / diffyg cyn treth	-3.0	29.9
Gwarged / diffyg ar ôl treth	-3.0	29.9
(Colledion) / enillion actiwaraid ar y cynlluniau pensiwn	2.7	-3.7
Cyfanswm incwm cynhwysfawr	-0.3	26.2

Mesuriadau iechyd ariannol

Mae'r Brifysgol yn mesur ei pherfformiad ariannol yn ôl nifer o fetrigau 'iechyd' ariannol. Nod y rhain yw helpu i gynnal cymariaethau ar draws y sector a byddant yn cael eu hadolygu pan fydd y Brifysgol yn gorffen ei strategaeth ariannol newydd yn ail hanner 2025.

	2024-25	2023-24	Targed
Proffidioldeb - Canlyniad a gedwir, fel % o'r incwm	-1.88%	-6.40%	5.00%
Hylifedd - Diwrnodau hylifedd net	31 diwrnod	21 diwrnod	120 diwrnod
Cymhareb Gyfredol	0.7	0.7	1.2
Gerio - Benthycia allanol fel % o'r incwm	51.64%	54.60%	50.00%
Effeithlonrwydd - Costau staffio fel % o'r incwm	56.33%	60.00%	53.00%

Mae perfformiad y Brifysgol yn ôl y targedau yn adlewyrchu'r amgylchedd heriol y buom ni, a phrifysgolion eraill ledled y sector addysg uwch ym Mhrydain, yn gweithredu ynddo yn ystod y flwyddyn. Er hynny, gostwng wnaeth ein costau gweithredol ac fe gynyddodd yr incwm o'i gymharu â'r flwyddyn gynt, gyda'r balansau arian parod yn cynyddu, gan arwain at gynydd yn y diwrnodau hylifedd net. Bydd y strategaeth ariannol newydd, a'r Rhaglen Drawsnewid sydd bellach ar waith, yn ysbarduno mwy o welliannau i'n perfformiad. Ar y dyddiad llofnodi, rydym yn dal i ragweld tuedd tuag at wella'r sefyllfa o ran dyddiau hylifedd net.

Proffidioldeb

Arweiniodd y cynnydd mewn incwm a'r gostyngiad mewn costau at ddiffyg gweithredol sydd yn llai o dipyn na'r flwyddyn academaidd gynt. Mae'r cynlluniau arbedion wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth yn ystod y flwyddyn, wrth i'r adolygiad ar ein Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau arbedion a diogelu ein strwythurau cymorth i'r dyfodol, gan lwyddo i gyrraedd targed y gyllideb. Bydd yr arbedion hyn yn rhoi sylfaen i well perfformiad ariannol yn y dyfodol.

Hylifedd

Deilliodd y cynnydd mewn hylifedd o drosi rhai asedau gwaddol yn arian parod a'r gostyngiad mewn masnachu mewn diffyg yn y flwyddyn, a oedd yn digwydd yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Elusennau a diben elusennol y Brifysgol. Cynyddodd yr arian parod a ddelir £3.7 miliwn yn ystod y flwyddyn, nes ein bod yn dal 31 diwrnod o arian parod ar ddiwedd y flwyddyn. Dylid nodi hefyd bod metrig y dyddiau hylifedd net yn seiliedig ar arian parod yn y banc ac sy'n cael ei ddal fel buddsoddiadau yn unig, ac nid yw'n cyfrif am unrhyw gronfeydd o'r adnodd credyd cylchdroi sydd heb eu tynnu ac sydd ar gael yn rhwydd ac yn cynorthwyo â'r hylifedd. Gwnaethom ostwng yr arian a dynnwyd o'r adnodd credyd cylchdroi £3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, o'i gymharu â'r flwyddyn gynt, sy'n adlewyrchu llai o ddefnydd arno yn ystod y flwyddyn. Pe baem wedi tynnu gwerth llawn yr adnodd credyd cylchdroi, 49 diwrnod fuasai cyfanswm ein diwrnodau hylifedd net. Er mwyn parhau â gwella hylifedd yn y tymor canolig, bydd angen i'r Brifysgol gynhyrchu gwargedion masnachu rheolaidd a sylweddol ac mae hynny'n rhan o'n strategaeth ariannol newydd.

Oherwydd bod y Pasg yn hwyr yn y flwyddyn academaidd, derbyniwyd yr incwm oddi wrth y myfyrwyr yn nhymor yr haf yn y 4ydd Chwarter, o'i chymharu â'r flwyddyn ariannol 2023-24 pan gafwyd yr arian hwnnw yn y 3ydd Chwarter. Fe wnaethom roi gwybod i ddarparwr ein hadnodd credyd cylchdroi am y gwahaniaeth hwn yn yr amseru ac fe gytunodd i hawlildiad ac amodau i gyfamod yr adnodd credyd cyfleusterau a oedd yn cyd-fynd yn well â gweithgarwch ac amserlenni incwm y brifysgol. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd da parhaol a wnaed wrth leihau costau yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25 ac mae'n alinio â'n cynlluniau ar gyfer ein perfformiad, yn ogystal â'r gwelliant amlwg yn ein hylifedd sylfaenol.

Cymhareb gyfredol

Ym mis Gorffennaf 2025, 0.7 oedd y gymhareb gyfredol, sy'n cyd-fynd â'r 0.7 a gofnodwyd ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r asedau cyfredol wedi gostwng £3.1 miliwn ac mae'r rhwymedigaethau cyfredol wedi gostwng £6.3 miliwn dros gyfnod yr adroddiad, gan arwain at well sefyllfa ond heb fod yn ddigon i wella'r metrig. Dylai blaenoriaeth y brifysgol i wella hylifedd helpu i wella'r metrig hwn yn y tymor canolig.

Gerio

Mae'r gerio'n dal i fod yn uwch na'r targedau. Mae'r gwelliant yn y gerio'n adlewyrchu'r incwm uwch yn ystod y flwyddyn, ac mae'r benthyca allanol hefyd wedi gostwng yn ystod 2024-25, sy'n deillio'n bennaf o'r herwydd £3 miliwn yn llai a ddefnyddiwyd o'r adnodd cyllid cylchdroi yn ystod y flwyddyn. Dylai gwella'r sefyllfa o ran hylifedd olygu bod gwelliant yn y metrig hwn yn y tymor canolig drwy leihau'r benthyca gweithredol a wneir o'r adnodd credyd cylchdroi. Bydd y metrig hwn yn gwella yn y tymor byr hefyd drwy gynyddu'r incwm a gynhyrchir a thrwy ad-dalu cyllid y benthyciad Salix yn gynyddrannol.

Effeithlonrwydd


Mae'r Brifysgol wedi gwella ei sefyllfa yn ystod y flwyddyn academiaidd o ran y metrig iechyd ariannol ar effeithlonrwydd, er bod pwysau chwyddiant a newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi effeithio ar gostau. Roedd hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Brifysgol i stiwardiaeth ariannol gadarn, i reoli adnoddau'n strategol, ac effeithiolrwydd gweithredol. Mae'r Brifysgol wedi cychwyn ar adolygiad cynhwysfawr ar adrannau ei gwasanaethau proffesiynol, â'r bwriad o ddod o hyd i fwy o arbedion ac o wella ein ffyrdd o weithio, gan sicrhau bod adnoddau yn cael eu hanelu yn y modd gorau posib i gyd-fynd â blaenoriaethau academiaidd ac ymchwil y sefydliad, a'r blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr.

Incwm


Ffioedd dysgu yw ffynhonnell incwm fwyaf y Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn fe gynyddwyd y ffioedd dysgu i israddedigion cartref £250 ac mae hynny, ynghyd â chynnydd yn nifer y myfyrwyr, wedi helpu i gynyddu'r incwm a'n helpu i gyrraedd ein targed i'r gyllideb. Bydd unrhyw gynnydd blynyddol yn y ffioedd yn y dyfodol, yn ogystal â chynnydd yn nifer y myfyrwyr, yn cynorthwyo â thwf ymhellach. Gall myfyrwyr rhyngwladol ddod â mwy o enillion, ond gostyngodd eu niferoedd yn y flwyddyn hon.

Cynyddodd cyllid ymchwil a grantiau cyllid eraill o'u cymharu â'r llynedd, er bod y gweithgarwch ymchwil mewn gwirioneddol yn cyd-fynd yn fras â'r flwyddyn academiaidd 23/24. Cafwyd cynnydd yn ein hincwm arall, sy'n adlewyrchu'r gwell amodau masnachu i'n harlwygo ar y campws a'n ffermydd gan fod prisiau llaeth yn uwch.

Ffynonellau Incwm (2024-25)




Newid Incwm £Miliwn (2024-25 CF 2023-24)




Gwariant

Gostyngwyd y costau staffio oherwydd bod nifer y staff wedi lleihau, ac oherwydd i'r prif godiad cyflog i'r staff gael ei ohirio tan fis Gorffennaf. Cynyddodd y costau ailstrwythuro, gan adlewyrchu gwaith gweithredu'r Rhaglen Drawsnewid. Mae'r gostyngiad yn y costau eraill yn adlewyrchu effaith ein cyllidebu ar sylfaen sero, rheoli costau'n llym a lleihau ein gwariant ar draws gweithrediadau'r Brifysgol.

Hollti Gwariant (2024-25)



Newid Incwm £Miliwn (2024-25 CF 2023-24)



Y Fantolen

Er bod y Brifysgol yn cofnodi £2.4 miliwn o ddiffyg gweithredol, mae asedau net cyfunol y Brifysgol wedi aros yr un peth yn fras, yn gostwng £0.3 miliwn yn y flwyddyn o'u cymharu â chyfanswm o £124.0 miliwn. Mae balansau'r arian parod wedi cynyddu £3.7 miliwn yn ystod y flwyddyn a'r adnodd credyd cylchdroi a ddefnyddiwyd erbyn diwedd y flwyddyn oedd £9 miliwn (£12 miliwn yn 2023/24), sy'n dangos gwelliant yn ein sefyllfa hylifedd. Mae'r gwaith sy'n parhau ar brosiect yr Hen Goleg wedi gweld cynnydd yn yr asedau sefydlog a'r grantiau cyfalaf gohiriedig. Mae portffolio buddsoddiadau'r Brifysgol wedi gostwng £6.8 miliwn yn 2024-25 ar ôl i £9 miliwn gael eu trosi'n arian parod i gynorthwyo â hylifedd ehangach a'r Rhaglen Drawsnewid (£3.2 miliwn o enillion yn 2023-24), gyda chynnydd net yn sylfaen i berfformiad y buddsoddiadau.

	2024-25	2023-24	
Asedau sefydlog (£ miliwn)	257.3	253.6	↑
Buddsoddiadau (£ miliwn)	29.8	36.6	↓
Banc ac arian parod (£ miliwn)	9.5	5.8	↑
Rhwymedigaethau hirdymor (£ miliwn)	146	141.7	↑
Rhwymedigaethau pensiwn (£ miliwn)	11.5	13.9	↓

Buddsoddiadau cyfalaf

Mae'r pwysau gweithredol ar hyn o bryd a'r swm o arian parod sydd ar gael o'u herwydd wedi effeithio ar allu'r Brifysgol i gyflawni'r gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd, er bod prosiectau blaenoriaethol sydd â chyllid penodol ynghlwm wedi gwneud cynnydd. Prosiect yr Hen Goleg oedd yn cyfrif am y rhan helaethaf o gyllideb gyfalaf 2024-25, gyda £15.2 miliwn wedi'u gwario dros y flwyddyn ariannol. Disgwylir lefel debyg o wariant dros 2025-26. Mae cyfanswm y costau cyfalaf a ragwelir i'r prosiect wedi cynyddu i £53 miliwn, ac mae disgwyl i'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn diwedd 2026. Caiff y prosiect ei ariannu gan grantiau allanol, codi arian a buddsoddiadau a glustnodwyd gan y Brifysgol ac rydym yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru wedi addo cyfanswm o £3.8

Adroddiad ar y cyd ar y flwyddyn ariannol (parhad)

miliwn o gyllid ychwanegol. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i fuddsoddiadau sy'n dod i gyfanswm o £3.9 miliwn dros y flwyddyn i ardaloedd penodol o'r ystâd, y seilwaith digidol a phrosiectau a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni. Derbyniwyd £1.4 miliwn o gyllid ychwanegol oddi wrth Medr yn ystod y flwyddyn yn rhan o'u rhaglen genedlaethol i gefnogi prosiectau a fyddai'n gwella perfformiad gweithredol ac yn cynorthwyo amcanion y Rhaglen Drawsnewid.

Cytunodd y Brifysgol ar strategaeth gwaredu asedau ym mis Tachwedd 2023 ac mae'n dal i bwysu a mesur a ellir gwaredu unrhyw asedau yn unol â strategaeth newydd y brifysgol. Ym mis Gorffennaf 2025 gwiredodd y Brifysgol £0.4 miliwn drwy werthu asedau anniriaethol penodol.

Buddsoddiadau

Dros y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025, cafwyd tuag 8.1% o adenillion o fuddsoddiadau'r Gronfa Gwaddolion (c.11.9% 2023-24). Perfformiodd y portffolio o fuddsoddiadau'n well na'r targed, sef CPI + 2-4% y flwyddyn. Dros y flwyddyn roedd y marchnadoedd ariannol yn gyfnewidiol, oherwydd y pryderon sy'n parhau ynghylch chwyddiant, y twf economaidd araf, risgiau geowleidyddol, effeithiau tariffau, a chanlyniadau etholiadau pwysig.

Cafwyd 10.4% o adenillion o'r portffolio Twf (ac o Ecwiti Byd-eang yn benodol) ac fe hybwyd hynny gan y gostyngiad mewn chwyddiant byd-eang, lleihau cyfraddau polisi'r banciau canolog ac optimistiaeth ynghylch stociau deallusrwydd artiffisial a thechnoleg. Drwy'r portffolio Arallgyfeirio fe gafwyd enillion cadarnhaol cyson, sef 4.4%. Cynhyrchodd y Credyd Aml-Ased a'r Bondiau Corfforaethol adenillion cadarnhaol. Serch hynny, cafodd yr adenillion a gafwyd eu lleihau gan yr elfen Eiddo. Er eu bod yn gostwng, mae amgylchedd y cyfraddau llog uchel yn dal i bwysu'n drwm ar fuddsoddiadau mewn eiddo tiriog oherwydd y costau benthyca uwch.

Arian parod ac adneuron byrdymor

Hyd at fis Gorffennaf 2025, roedd y llifoedd arian parod gweithredol tua £2 filiwn uwchben y gyllideb, a oedd yn dyst i waith sefydlogi a gwell rheolaeth ar gyfalaf weithio, a ddeilliodd o broses newydd o gasglu dyledion myfyrwyr. Y mewnlfif o arian parod net a gofnodwyd o weithrediadau oedd £11.3 miliwn, sy'n gynnydd sylweddol o'r £0.4 miliwn a gofnodwyd yn 2023-24. Er mwyn cynorthwyo â hylifedd, troswyd £6 miliwn o asedau gwaddolion yn arian parod yn Chwarteri 1 a 2 y flwyddyn. Yn ogystal, defnyddiwyd £3 miliwn o fuddsoddiadau digyfyngiad i gynorthwyo â'r costau newid cysylltiedig â'r Rhaglen Drawsnewid.

Buddsoddiwyd arian parod mewn cyfrifon cadw i wneud y gorau ar enillion llog lle bo'n

bosib, yn bennaf o amgylch derbyniadau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Roedd yr all-lif arian parod cyfalaf net ar gyfer 2024-25 yn uwch na'r hyn yn y gyllideb, yn bennaf oherwydd amseru gwariant ar yr Hen Goleg ac oedi mewn symiau derbyniadwy ar y prosiect. Roedd yr effaith ar y llif arian net sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn ystod y flwyddyn ariannol yn deillio o'r amseru, a bydd hyn yn datod yn ystod gweddill cyfnod y prosiect. Cafodd y rhaglen gyfalaf ddisgresiynol ei rhesymoli hefyd yn unol â'r arian parod a oedd ar gael, gan ganolbwyntio ar y prosiectau cyfalaf a oedd â'r flaenoriaeth uchaf yn unig.

Ar y cyfan, roedd y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn cyd-fynd â'r rhagolygon ac mae'n dangos bod y sefyllfa'n gwella. Defnyddiwyd llai o gronfeydd yr adnodd credyd cylchdroi o'u cymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, sef £9 miliwn wedi'u tynnu ar ddyddiad yr adroddiad, o'u cymharu â £12 miliwn ym mis Gorffennaf 2024. Cyfrannodd hyn yn uniongyrchol at ostwng y costau benthyca £0.1 miliwn o'u cymharu â 2023-24 ac mae hynny'n adlewyrchu gwelliannau yn y gweithrediad craidd drwy fwy o arian parod o'r cynnydd mewn incwm o ffioedd dysgu, llai o ddyledwyr a chostau llai o ran cyflawni gweithrediadau.

Mae gan y Brifysgol werth £15 miliwn o adnodd credyd cylchdroi sy'n rhedeg tan fis Ionawr 2027, a bydd opsiwn i'w adnewyddu am 12 mis arall. Oherwydd natur busnes y grŵp, mae amseru mewnllifoedd arian parod yn gallu amrywio, yn enwedig o ran prosiectau cyfalaf mawr sy'n derbyn cyllid. Mae'r Cyngor wedi paratoi gwybodaeth ragamcanol, y cynhaliwyd prawf straen arni, ynghylch y llif arian parod er mwyn asesu'r gallu i weithredu fel busnes parhaus o leiaf dros y cyfnod 12 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar sail y wybodaeth hon am y llif arian parod a'r trafodaethau â bancwyr y grŵp, mae'r Cyngor o'r farn y bydd y grŵp yn parhau i weithredu o fewn yr adnodd y cytunwyd arno ac yn dal i fodloni'r cyfamodau cysylltiedig, gan nodi nad yw ffin rhwng yr adnodd a'r gofynion yn ddelfrydol ar adegau penodol yn ystod y cyfnod a fodelir. Mae gwaith i gynyddu hylifedd a hyblygrwydd o ran arian parod, er mwyn defnyddio llai byth ar yr adnodd credyd, ymhlith amcanion penodedig strategaeth newydd y Brifysgol. Mae'n cynnal monitro trylwyr ar ei balansau arian parod, ei hymrwymadau, a'i chydymffurfiaeth barhaol â chyfamodau benthycwyr drwy adroddiadau a rhagolygon misol a chwarterol. Yn y modd hwn mae risgiau'n cael eu hamlygu a'u rheoli.

Prif faterion risg ac ansicrwydd

Mae proses rheoli risg y Brifysgol yn cydnabod nifer o feysydd risg, gan gynnwys risgiau strategol corfforaethol, a allai ei hatal rhag cyflawni ei hamcanion. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau gweithredol a risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau sy'n gofyn am fuddsoddiadau cyfalaf. Mae'r risgiau hyn yn cael eu cofnodi drwy ddefnyddio offeryn ar-lein yn rheolaidd

Adroddiad ar y cyd ar y flwyddyn ariannol (parhad)

ac yn cael eu hadolygu gan Gorff Llywodraethu'r Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad manwl ar reoli risg ym mhob un o'i gyfarfodydd. Cofnodir cofrestrau risg ar gyfer pob adran academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol yn yr un modd ac maent yn cael eu monitro ar lefel y Cyfadrannau neu adrannau'r gwasanaethau proffesiynol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25, mae'r Brifysgol wedi dal i fonitro targedau sgoriau risg er mwyn canolbwyntio ar feysydd lle y gall fod angen gwaith pellach. Parhaodd y Brifysgol i ganolbwyntio ar sicrhau bod y gofrestr risg gorfforaethol yn gyfredol yn ogystal ag asesu ei pharodrwydd i dderbyn risg.

Mae'r risgiau a nodwyd yn cynnwys niferoedd ein myfyrwyr, yn enwedig o farchnadoedd rhyngwladol. Gall newidiadau i amodau fisâu'r DU yn ogystal ag effeithiau digwyddiadau yn y byd ddylanwadu ar sefydlogrwydd niferoedd y myfyrwyr a'r incwm o ffioedd. Mae'r Brifysgol yn dal i sicrhau bod ei threfniadau seiberddiogelwch yn addas i'r diben a'i bod hefyd yn diwallu anghenion ei myfyrwyr, o ran eu lles meddyliol a phrofiad y myfyrwyr fel ei gilydd. Mae hefyd yn hanfodol bod y Brifysgol yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd a ddaw i'w rhan drwy'r Rhaglen Drawsnewid.

Mae'r prif risgiau i'r Brifysgol, a sut maent yn cael eu lliniaru, i'w gweld yn y tabl ar y dde.

Maes y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Lliniaru'r Risg
Denu Myfyrwyr	Nid yw'r Brifysgol yn cyrraedd ei thargedau blynyddol am ddenu myfyrwyr.	Mae'r Brifysgol yn cynllunio'n ofalus am y galw ac mae ganddi strategaethau ar waith i ddenu myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar ardaloedd allweddol drwy Brydain, yn ogystal â datblygu rhwydweithiau rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn buddsoddi i ddatblygu gweithgareddau cyswllt ag ysgolion er mwyn meithrin ein cysylltiadau ag ysgolion a cholegau yn ogystal â gweithgareddau sy'n anelu at agor y drysau i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn Addysg Uwch, gan hybu uchelgais ac agor y drysau i addysg uwch yn ehangach. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei phortffolio'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn dal i ddiwallu gofynion myfyrwyr a chyflogwyr.
Cyllid Ymchwil	Mae'r Brifysgol yn methu â chyrraedd ei huchelgais o ran cyllid ymchwil ac arloesi.	Mae'r Brifysgol yn darparu pecyn cynhwysfawr o gymorth a chyngor i ymchwilwyr drwy ei swyddfa Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn ogystal â darparu gweithdai a chyngor ar arloesi a chyfnwid gwybodaeth. Rhoddir gwybod am gyllid ymchwil ac arloesi i'r Weithrediaeth a'r Cyngor bob chwarter.
Cynaliadwyedd Ariannol	Nid yw'r Brifysgol yn gallu cynhyrchu digon o adnoddau ariannol i allu cynnal ei huchelgeisiau strategol	Mae'r Brifysgol yn cynllunio'n ddoeth ac mae wedi ymgorffori dadansoddiadau sensitifrwydd manwl o'r tybiaethau incwm yn ei rhagolygon ariannol, ynghyd â chymau rheoli effeithiol ar ei chostau. Mae ariannu datblygiadau cyfalaf yn cael ei fonitro'n agos ac mae goruchwyliaeth ychwanegol drwy Fwrdd Gweithredol ar ddatblygiadau mawr fel yr Hen Goleg.
Cymorth i Staff	Mae'r Brifysgol yn methu ag adeiladu a chynnal capasiti a gallu mewn staffio i gyflawni gofynion gweithredol a chefnogi ei chyfeiriad strategol	Mae'r Brifysgol yn buddsoddi mewn hyfforddiant parhaus i'w staff mewn ystod o sgiliau, wedi'u targedu at anghenion strategol y Brifysgol. Mae hefyd yn buddsoddi mewn rhaglen cymorth i weithwyr sydd ar gael i bob aelod o'r staff. Mae rhwydweithiau staffio yn galluogi'r staff i rannu sgiliau a phrofiad.
Seiberddiogelwch	Nid yw'r Brifysgol yn rheoli ei hystâd ddigidol yn briodol.	Mae gan y Brifysgol drefniadau seiberddiogelwch achrededig, gan gynnwys rheolaethau technegol canolog, polisiau, gweithdrefnau a hyfforddiant gorfodol i'r staff. Mae'r cyfan yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu'n rheolaidd.
Rheoli newid	Mae'r Brifysgol yn methu â rheoli'r newid sy'n deillio o'r Rhaglen Drawsnewid.	Mae ffrydiau gwaith ar gyfer pob elfen o'r Rhaglen Drawsnewid gydag aelod o'r Weithrediaeth yn arwain pob un, ynghyd â chymorth gweinyddol i bob ffrwd, ac mae adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Weithrediaeth ehangach. Mae amserlenni a dogfennaeth glir wedi'u datblygu i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n dda.

Cynaliadwyedd, cyfleoedd ariannol yn y dyfodol ac ystyriaethau o'r sail busnes parhaus

Yn unol â'r manylion a roddir mewn manau eraill yn yr Adroddiad hwn, mae'r Brifysgol yn ymdrechu i ddarparu addysg ac ymchwil ragorol, a hynny mewn cyfnod heriol i sector addysg uwch Prydain sy'n wynebu effeithiau chwyddiant uchel parhaus, ffoedd dysgu sydd heb gynyddu yn unol â phrisiau cynyddol y degawd diwethaf, ac ymchwil nad yw'r cyllid yn talu am ei chostau llawn.

Mae Rhaglen Drawsnewid y Brifysgol yn arwain yr ymateb i'r heriau hyn ar draws y pedair ffrwd waith, sef Ein Pobl, yr Ystâd Gorfforol a Digidol, Gweithrediadau a Gweithgareddau Effeithlon, a Buddsoddi i Dyfu. Mae pob ffrwd waith yn cael ei harwain gan aelod o'r Weithrediaeth a'i chefnogi gan arweinwyr a staff ar draws y sefydliad.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi cynhyrchu strategaeth newydd gyda naw cynllun ategol sy'n disgrifio'n fanwl sut y byddwn yn datblygu ein sefydliad er mwyn ffynnu ac ymdrin â'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch. Mae'r cynllun Cyllid yn nodi camau gweithredu i gryfhau ein gwytnwch trwy gynyddu ac arallgyfeirio incwm, gwella effeithlonrwydd gweithredol, a chynyddu'r arian parod a ddelir a'r buddsoddiadau yn ein hasedau dros bum mlynedd.

Rydym yn gweithredu mewn marchnad sy'n gystadleuol, ym Mhrydain a thramor, ochr yn ochr â rhagolygon economaidd heriol yn ehangach. Yn 2024-25 rydym wedi sefydlogi ein cyllid ac yn awr edrychwn ymlaen at fwrw ymlaen â'r cyfleoedd niferus a nodwyd yn ein cynlluniau i ddatblygu ein harlwy, fel y ddarpariaeth dysgu ar-lein newydd a gyflwynir ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2024/25 yn rhan o'n cynlluniau i arallgyfeirio incwm. Rydym yn adolygu ein portffolio dysgu i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amodau'r farchnad yn y modd gorau posib, a gweithredwn gymarebau staff a myfyrwyr er mwyn gwneud y gorau o ran effeithlonrwydd a phrofiad y myfyrwyr fel ei gilydd. Drwy ein hadolygiad ar y Gwasanaethau Masnachol yn y 12 mis diwethaf cofnodwyd sefyllfa fasnachu well ar ddiwedd y flwyddyn. Daliwn ati i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n cynlluniau newydd ac yn ategu'r rhan bwysig a chwaraewn yn ein rhanbarth a'n sector.

Mae ein cyllideb a osodwyd am (£1.9) miliwn o ddiffyg ar gyfer 2025-26 yn golygu £3 miliwn o arbedion pellach, a hynny ochr yn ochr â chadw ein cyfran o'r farchnad am fyfyrwyr. Rydym wedi llwyddo i ddenu niferoedd o fyfyrwyr sydd o fewn 1% o'r targed i'r gyllideb ac rydym yn gwneud cynnydd da o ran arbedion, gyda £2.6 miliwn o'r £3 miliwn sydd eu hangen wedi'u nodi ar hyn o bryd.

Yn unol â'r manylion uchod, mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau hyn ar sail busnes parhaus.

Simon Crick

Prif Swyddog Ariannol

Kate Eden

Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad

Yr Amgylchedd

Rydym yn dal i wneud cynnydd cryf a mesuradwy o dan ein strategaeth 'Tuag at Garbon Sero Net 2030', sy'n nodi sut rydym yn datgarboneiddio ein gweithrediadau ac yn gweithio tuag at Ystad Sero Net erbyn diwedd y degawd. Ers ein blwyddyn sylfaen 2019/20, rydym wedi lleihau cyfanswm yr allyriadau net 43%, sy'n adlewyrchu effaith buddsoddi a gweithredu parhaus ar draws ein hystad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflawni gwerth £3.6 miliwn ychwanegol o welliannau effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys gosod goleuadau ynni-effeithlon a system solar ffotofoltäig fawr ar do yn ein Campws yng Ngogerddan. Mae'r gwaith hwn yn golygu ein bod wedi buddsoddi dros £10 miliwn mewn datgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni ers 2020.

Mae'r banciau o baneli solar 2.5MW ar Gampws Penglais bellach wedi cwblhau ei ail flwyddyn lawn o gynhyrchu trydan. Darparodd 25%, bron, o anghenion trydan blyneddol y campws, gan ein helpu i gyflawni 500 tunnell yn llai o allyriadau carbon. Mae'r systemau ynni adnewyddadwy hyn yn ganolog i'n strategaeth i ddibynnu'n llai ar danwyddau ffosil ac i wella ein gwytnwch ynni yn y tymor hir.

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith i ehangu ein rhaglen creu coetiroedd, sy'n chwarae

rhan hanfodol wrth wella bioamrywiaeth ac yn helpu i storio carbon. Yn ystod y 12 mis diwethaf, fe wnaethom blannu miloedd o goed ar draws ardaloedd addas o'n hystad, gan adeiladu ar waith y blyneddoddi diwethaf. Bydd plannu coed yn parhau i fod yn rhan o'n hymdrechion i wella bioamrywiaeth yn y flwyddyn academaidd 2025/26.

Cynaliasom ddigwyddiad plannu coed i wirfoddolwyr yn Fferm Penglais hefyd, lle y daeth myfyrwyr a staff at ei gilydd i blannu 420 o goed ar un diwrnod. Mae'r prosiectau hyn a arweinir gan y gymuned yn dystiolaeth rymus o'n hymrwymiad ar y cyd i ofalu am yr amgylchedd.


Rydym wedi cryfhau ein harweinyddiaeth ar gynaliadwyedd trwy hyfforddiant a dargedir a fframweithiau polisi newydd. Cafodd staff uwch o grwpiau o randdeiliaid allweddol hyfforddiant ar ddeall materion carbon, gan roi iddynt y wybodaeth i allu

gyrru camau gweithredu ar yr hinsawdd o fewn eu cyfrifoldebau eu hunain.

Rydym yn parhau i fonitro ein perfformiad amgylcheddol trwy archwiliadau rheolaidd sy'n cyd-fynd â safonau ISO 14001 ac ISO 50001. Roedd ein harchwiliadau yn 2024-25 yn craffu ar ddefnyddio ynni a dŵr, rheoli gwastraff, allyriadau o adeiladau preswyl, a phatrymau teithio i'r gwaith. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ein helpu i ddod o hyd i gyfleoedd i wella ac i sicrhau bod ein cynnydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac yn dryloyw.

Yn 2024/25 cyfanswm ein hallyriadau net oedd 9,871 tCO₂e. Y ffynonellau mwyaf o allyriadau oedd Nwy/Gwresogi (33%), Trydan (30%), Allyriadau da byw a gwrtaith (12%), Staff yn teithio i'r gwaith (10%) a Theithiau Busnes (9%). Ar hyn o bryd mae storio carbon yn ein tir yn gwrthbwyo 22% o gyfanswm ein hallyriadau.

Rydym yn dal yn ymrwymedig i gynnal ein holl weithgareddau mewn modd amgylcheddol gyfrifol, yn unol â'n Datganiad Polisi Cynaliadwyedd. Trwy barhau i fuddsoddi, meithrin cyswllt â'r gymuned, ac arwain polisi, rydym yn mynd ati i lunio dyfodol mwy cynaliadwy i'n Prifysgol, i'n bro a'r genedl ehangach.



Datganiad o'r Budd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestrdig (Rhif 1145141) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu nodau ac amcanion y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus a'r canllawiau ategol i elusennau a sefydlwyd at ddibenion addysgiadol.

Ers 1872 mae'r Brifysgol yn hybu rhagoriaeth mewn ymchwil a dysgu o dan ei harwyddair, 'Nid byd, byd heb wybodaeth'. Anelwn at helpu'r myfyrwyr i allu datblygu eu hawch am ymholi academaidd, dysg a datblygu personol sy'n para gydol oes ac sy'n trawsnewid bywydau. Rydym yn gwerthfawrogi arloesedd a rhagoriaeth mewn ymchwil ym mhob maes a disgyblaeth, ac rydym yn annog gwaith ar draws y disgyblaethau er mwyn ymdrin â heriau byd-eang. Anelwn at chwalu'r meini tramgwydd sy'n rhwystro pobl rhag gallu manteisio ar addysg ac rydym yn cydweithio'n agos â'r gymuned er mwyn sicrhau bod y drysau i'n darpariaeth yn cael eu hagar yn lletach.

Dysgu

Ein cenhadaeth greiddiol yw cydweithio â'n myfyrwyr i ddylunio a chyflwyno cwricwlwm cyfoes ac amgylchedd dysgu uchelgeisiol a chefnogol a fydd yn dileu'r ffactorau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol sy'n atal cynnydd, ac fe ddatblygwn raddedigion yn Aberystwyth sy'n hyddysg, mentrus, yn ddigidol alluog, yn wybodus am y byd, ac yn barod i'w gyrfaoedd. Rydym yn darparu hyn trwy ganolbwyntio ar ystod o sgiliau craidd i raddedigion sy'n cael eu meithrin gennym trwy addysg ragorol yn ein hadrannau a'n hysgolion academaidd a thrwy ymgorffori cyflogadwyedd, sgiliau trosglwyddadwy, materion dinasyddiaeth fyd-eang, cynaliadwyedd, cydraddoldeb ac amrywioldeb yn ein cwricwlwm. Rydym yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau ar gyfer dysgu yn y gymuned, sy'n cynnwys darpariaeth eang o gyrsiau dysgu gydol-oes mewn ieithoedd, yn y gwyddorau, y celfyddydau a'r dyniaethau, ar gampws y Brifysgol ac mewn lleoliadau cymunedol ar draws Cymru, yn ogystal â phortffolio o gyrsiau rhan-amser, mân-gymwysterau, a chyrsiau undydd.

Cydnabyddwn ein dyletswydd arbennig i annog pobl i fanteisio ar ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ac i hybu'r Gymraeg, ac rydym yn chwarae rhan weithredol wrth annog myfyrwyr

Cymraeg i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Daw hyn i gyd ar sylfaen y ganmoliaeth barhaus y mae'r Brifysgol yn ei chael am Fodlonrwydd ei Myfyrwyr yn nhablau cynghrair y DU a'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr.

Ymchwil

Mae gennym hanes hir ac anrhydeddus o ymgymryd â gwaith ymchwil blaenllaw sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, gan ymchwilio i'r prif heriau sy'n wynebu'r gymdeithas, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, anghydraddoldeb byd-eang, ymchwil i'r gofod, economeg ryngwladol, deallusrwydd artiffisial, a hunaniaethau diwylliannol. Rydym yn cryfhau fel canolfan ar gyfer gwaith ymchwil cydweithredol â busnesau drwy ein tîm Ymchwil, Busnes ac Arloesi a thrwy ArloesiAber. Mae ymchwil yn cael ei chyflwyno â'r gymuned drwy, ymhlith pethau eraill, raglenni iechyd a lles, cyfraniadau i bolisi ac ymarfer ar draws ystod o sectorau, a darlithoedd cyhoeddus.

Ehangu mynediad

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi llwyr ymrwymo i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch. Cydweithiwn ag ysgolion a chymunedau ledled Ceredigion, Cymru a Lloegr i ennyn uchelgais a hyrwyddo llwybrau tuag at y brifysgol ar gyfer unigolion o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli yn draddodiadol—yn enwedig y rhai sydd â llai o gynrychiolaeth o fewn ein corff myfyrwyr ein hunain. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'n hymroddiad ehangach i feithrin cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant.

Ymhlith y prif ddigwyddiadau eleni roedd yr Wythnos Wyddoniaeth, a roes gyfle i ddisgyblion cynradd o bob rhan o'r Canolbarth i ymweld â'r campws a dysgu mwy am wyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r digwyddiad hwn yn ategu'r ymdrechion a wneir gan y tîm estyn allan drwy gydol y flwyddyn, sy'n cydweithio'n eang â sefydliadau addysg ledled y wlad.

Y tu hwnt i godi uchelgais, cynigiwn ystod o gefnogaeth ymarferol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol trwy fwrsariau, ysgoloriaethau a gwobrau i israddedigion ac ôl-raddedigion. Rydym hefyd yn darparu arian i helpu darpar fyfyrwyr a'u teuluoedd i ymweld â'r campws a chael ymdeimlad go iawn am fywyd prifysgol. I'r rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rydym yn parhau i ddarparu cymorth bugeiliol a phreswyl penodol, gan sicrhau eu bod yn pontio i fywyd yn y brifysgol gyda chefnogaeth, mewn modd mor llyfn â phosib.

Estyn yn Rhyngwladol

Mae Prifysgol Aberystwyth yn dal i ffynnu fel canolfan ryngwladol fywiog, sy'n croesawu staff a myfyrwyr o fwy na 90 o wledydd. Adlewyrchir ein golwg byd-eang yn y partneriaethau cryf a gynhaliwn â phrifysgolion, busnesau a sefydliadau ledled y byd.

Teimlir effaith ein hymchwil ymhell y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol, gan ymdrin â heriau o arwyddocâd rhyngwladol. Wrth i nifer y myfyrwyr tramor sy'n dewis Aberystwyth dyfu, rydym yn buddsoddi mwy mewn adnoddau a chefnogaeth i sicrhau bod eu taith academaidd yn fuddiol ac yn llwyddiannus. Mae gofal bugeiliol gwell, gwasanaethau wedi'u teilwra, a rhaglenni cynhwysol yn ganolog i'r ymdrech hon.

Trwy'r mentrau hyn, rydym yn meithrin cenedlaeth o raddedigion sydd, yn ogystal ag etifeddu a throsglwyddo gwerthoedd y Brifysgol, hefyd yn gwasanaethu fel llysgenhadon i Gymru ar y llwyfan byd-eang.

Cynaliadwyedd

Mae cynnydd yn parhau ar ein strategaeth Tuag at Garbon Sero Net 2030, a lansiwyd yn 2023.

Mae'r fframwaith hwn yn rhoi crynodeb o flaenoriaethau allweddol y Brifysgol ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn ein holl waith, a chyflymu ein llwybr i ddyfodol Sero Net. Trwy gamau gweithredu a dargedir a buddsoddiadau hirdymor, rydym yn mynd ati'n weithredol tuag at ein nod o fod yn ystad sero net erbyn diwedd y degawd. Ymhlith y prosiectau sydd ar y gweill y mae camau i wella ein heffeithlonrwydd ynni, ynni solar, creu coetiroedd, a fframweithiau hyfforddiant a pholisi penodol.

Cyswllt â'r Gymuned

Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan annatod o'i bro lleol, yn gwneud cyfraniadau gweithredol i les a datblygiad ein tref a'n rhanbarth ehangach. Mae rhychwant eang i'n gwaith i feithrin cysylltiadau—o ddarparu rhaglenni addysgol wedi'u teilwra i anghenion lleol, i ymgymryd ag ymchwil sy'n llywio polisi cyhoeddus ac yn gwella gwasanaethau hanfodol.

Mae staff yn ogystal â myfyrwyr yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi mentrau cymunedol, gan gynnwys gwaith elusenol, prosiectau adfywio, ac ymdrechion sy'n meithrin balchder cymunedol a thwf economaidd ledled Ceredigion. Rydym yn parhau i gydweithio â chyrrff yn y sector cyhoeddus a phartneriaid eraill i sicrhau bod ein gwaith o fudd i'r rhanbarth a'i bobl.



Mae cyfoethogi diwylliannol yn ganolog i'n cenhadaeth. Mae Canolfan Gelfyddydau'r Brifysgol yn cynnig rhaglen fywiog o ddigwyddiadau a gweithgareddau, gan gynnwys theatr fyw, perfformiadau cerddorol, dangosiadau ffilm, arddangosfeydd, gwyliau, a gweithdai creadigol i bob oedran. Rydym hefyd yn agor ein cyfleusterau chwaraeon rhagorol, dosbarthiadau sy'n canolbwyntio ar iechyd, a chlybiau gwyliau - sydd yn enwedig o fuddiol i breswylwyr hŷn.

Trwy ein dysgu, ein hymchwil a'n gwaith estyn allan, rydym yn parhau i fod yn gyflogwr o bwys yn Aberystwyth a'r cymunedau cyfagos, sy'n atgyfnerthu ein rôl fel conglfaen bywyd y Canolbarth.

Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Yn unol â Siarter Frenhinol Ategol Prifysgol Aberystwyth, fel y'i diwygiwyd yn 2018, Cyngor y Brifysgol yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol" ac mae'n gyfrifol am "benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol, am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, ac am faterion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion".

Yn unol â dogfennau llywodraethol y Brifysgol, mae'r Cyngor yn cynnwys: Aelodau Annibynnol (rhai ohonynt yn gwasanaethu ex-officio); aelodau staff ex-officio; ac aelodau a etholir gan y Senedd, y staff anacademaidd a'r myfyrwyr. Ni fydd cyfanswm aelodaeth y Cyngor â'r hawl i bleidleisio yn fwy na 18 aelod. Caiff y Cyngor hefyd gyfethol aelodau ychwanegol os dymuna wneud hynny, ar yr amod bod cyfanswm nifer yr aelodau yn cyd-fynd â'r Statud, er nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

Aelodau annibynnol anweithredol yw'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor, nad ydynt yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr yn y Brifysgol. Ar ben hynny, mae swyddogaeth Cadeirydd y Cyngor - sydd ar gael i Aelod Annibynnol yn unig - wedi'i gwahanu oddi ar swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwmo i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol ac i werthfawrogi natur amrywiol ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned. Hysbysebwr pob swydd wag am Aelodau Annibynnol y Cyngor yn allanol, ac mae croeso'n enwedig i ddatganiadau o ddiddordeb gan bobl o grwpiau a dangynrychiolir. Pan fynegir diddordeb yn un o'r swyddi hyn fe'u hystyrir gan Bwyllgor Enwebiadau a'u pwysu a'u mesur yn ôl aelodaeth bresennol y Cyngor i sicrhau bod gan ei aelodau ystod o sgiliau sy'n bodloni gofynion y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn anelu at ymgymryd â'i gwaith mewn modd moesegol yn unol â'r saith egwyddor a osodwyd yn Adroddiad Pwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwmo i arddel yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol, gan roi ar waith yr egwyddorion craidd a'r saith elfen sylfaenol

gysylltiedig o lywodraethu fel y'u gosodwyd yng Nghod Llywodraethu Addysg Uwch (Medi 2020) Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion yn ogystal â'r egwyddorion perthnasol a roddir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'n ffurfiol y 'Siarter Llywodraethiant ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru' a'r Ymrwymiad i Weithredu a gyhoeddwyd mewn ymateb i Adolygiad CAMM.

Comisiynwyd adolygiad o effeithiolrwydd y llywodraethu gan y Cyngor yn ystod gwanwyn 2024. Fe'i cynhaliwyd gan 'Good Governance Improvement', ac fe gyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Cyngor ym mis Hydref 2024. Mae'r Cyngor yn anelu at wella llywodraethu a pherfformiad y sefydliad yn barhaus. Roedd yr adolygiad ar y llywodraethu yn cynnwys ystyriaethau megis llywodraethu a goruchwyliaeth academaidd, llywodraethu is-gwmnïau, a sicrhau bod y strwythur llywodraethu yn addas i'r diben. Roedd yr adolygiad yn ystyried adolygiad annibynnol Gillian Camm ar Lywodraethu yng Nghymru ('A Review of Governance in the Universities of Wales') fel meincnod, ac roedd yr argymhellion yn adlewyrchu unrhyw waith a oedd yn mynd rhagddo mewn cysylltiad ag Adolygiad Camm. Bu gwaith ar y gweill yn ystod 2024-25 i weithredu'r argymhellion yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gan y Cyngor, ac mae adroddiadau ar y cynnydd a wneir yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant ddwywaith y flwyddyn i fonitro'r cynnydd ar y cynllun.

Disgrifir prif gyfrifoldebau'r Cyngor yn Ystatudau ac Ordinhadau'r Brifysgol. Yn unol â'r arfer traddodiadol ac â'r Cod Rheoli Ariannol y cytunwyd arno â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (sef Medr erbyn hyn), mae'r Cyngor yn cadw'r hawl, ymhlith eraill, i gymeradwyo datblygiadau a gwariant ar raddfa fawr, yn ogystal ag arddel y cyfrifoldeb dros sefydlu unrhyw is-gwmnïau a thros eu gweithredoedd.

Cyfarfu'r Cyngor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25. Mae llawer o'r gwaith manwl yn cael ei ystyried a'i archwilio ar y cychwyn gan sawl is-bwyllgor. Mae prif is-bwyllgorau llywodraethu'r Brifysgol yn cynnwys: Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd; Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant; Pwyllgor Taliadau; a Phwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

Mae pob un o'r is-bwyllgorau hyn yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Cyngor, ac mae pob un wedi'i sefydlu'n ffurfiol â'i gylch gorchwyl ei hun a chyfran o'i aelodau yn dod o blith Aelodaeth Annibynnol y Cyngor. Mae gwybodaeth fanwl am aelodaeth a chyfrifoldebau'r is-bwyllgorau hyn i'w cael ar ein gwefan.

Sefydlwyd y Pwyllgor Taliadau i ystyried a phennu materion sy'n ymwneud â thalu Staff Uwch yn y Brifysgol, o fewn fframwaith cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor. Wrth gytuno i unrhyw newidiadau i'r tâl a roddir i'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion ac aelodau eraill a ddiffinnir o'r Staff Uwch, mae'r Pwyllgor Taliadau yn ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn rhoi adroddiadau i'r Cyngor ar ei holl benderfyniadau.

Yn y pen draw, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli mewnol y Brifysgol ac am arolygu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Bwriad trefniadaeth o'r fath yw rheoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes yn hytrach na chael gwared â'r risg honno, a bydd yn cynnig sicrwydd rhesymol yn unig - nid sicrwydd absoliwt - yn erbyn camddatgan neu golled sylweddol.

Mae Cyngor y Brifysgol, trwy ei Bwyllgor Enwebiadau, yn ystyried rhychwant sgiliau Aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgorau bob blwyddyn. Ym mis Gorffennaf 2025 cychwynnodd gwaith i benodi un Aelod Annibynnol o'r Cyngor ac aelodau cyfetholedig o'r is-bwyllgorau i sicrhau craffu a herio priodol ar bob lefel o'r Cyngor a'i bwyllgorau.

Mae'r Cyngor yn ymgymryd â phroses barhaus ar gyfer canfod, cloriannu a rheoli risgiau arwyddocaol i'r Brifysgol; ac roedd y broses honno ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae wedi ei hadolygu gan y corff llywodraethol yn rheolaidd; ac mae'n cydymffurfio â'r canllawiau rheoli mewnol i Gyfarwyddwyr yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU, fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn gyfrifol am gyfarfod â'r Archwilwyr Allanol i drafod canfyddiadau archwilio, a gyda'r Archwilwyr Mewnol i ystyried adroddiadau archwilio mewnol manwl ac argymhellion ar gyfer gwella systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymatebion a chynlluniau gweithredu'r rheolwyr. Mae'r is-bwyllgor hwn hefyd yn monitro sut y glywir wrth y gofynion rheoliadol, ac yn arolygu datganiadau ariannol blynyddol y Brifysgol ynghyd â'r polisiâu cyfrifo. Ar ben hynny, gellid gofyn iddynt archwilio i enghreifftiau lle na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth a rheoliadau eraill. Er bod uwch-swyddogion gweithredol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r is-bwyllgor hwnnw, a gall aelodau'r is-bwyllgor gwrdd â'r Archwilwyr ar eu pen eu hunain er mwyn cael trafodaethau annibynnol.

Mae gan Weithrediaeth y Brifysgol brosesau ffurfiol ar waith i gloriannu a rheoli risgiau sylweddol a wynebir. Mae hynny'n cynnwys nodi'r mathau o risgiau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu drwy broses sy'n edrych o'r pen i'r gwaelod ac o'r gwaelod i'r pen, a hynny ar y lefel gorfforaethol ac yn adrannol. Mae'r risgiau yn cael eu blaenoriaethu o ran eu heffaith ddichonol ac o ran pa mor debygol ydynt o ddigwydd yn unol â pholisi rheoli risg sefydledig a gymeradwywyd.

Edrychir ar y risgiau hyn yng ngoleuni Amcanion Strategol y sefydliad, a'u monitro, ynghyd â'r dulliau rheoli cysylltiedig, a'r camau lliniaru risg, ar sail barhaus gan Weithrediaeth y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf o ran risg ym mhob un o'i gyfarfodydd, ac mae'r adroddiadau a'r argymhellion priodol yn cael eu cyflwyno i Gyngor y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol broses ar waith i ymdrin â materion rheoli o bwys, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â llygredd, twyll, llwgrwobrwyo a mathau eraill o afreoleidd-dra, sy'n golygu bod Cadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael gwybod am faterion o'r fath yn syth; ac fe roddir gwybod hefyd i Medr a'r Comisiwn Elusennau fel y bo'n briodol.

Mae egwyddorion rheolaeth fewnol yn cael eu monitro trwy'r polisi Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban). Bydd unrhyw wybodaeth a chymau perthnasol yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd fel rhan o'r cylch gorchwyl. Disgwylir i'r staff ac aelodau'r Cyngor hefyd gynnal cofrestr o fuddiannau bob blwyddyn, gan dynnu sylw at unrhyw wrthdaro, neu gysylltiadau teuluol sy'n gweithio yn y Brifysgol neu'n darparu gwasanaeth iddi. Gofynnir i'r staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau ar ddechrau unrhyw gyfarfodydd grwpiau gweithredol y Brifysgol er mwyn sicrhau tryloywder a sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd priodol ac agored.

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gosod y categorïau o wybodaeth y bydd y sefydliad yn eu darparu i'r cyhoedd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan drwy'r Canllaw i Wybodaeth, sy'n cynnwys y mathau o wybodaeth y mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch eu darparu er mwyn cyflawni ein hymrwymyiadau o dan y cynllun cyhoeddi enghreifftiol.

Gweithrediaeth y Brifysgol

Y Weithrediaeth yw uwch dîm rheoli'r Brifysgol a hi sy'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth gyffredinol y Brifysgol.

YR ATHRO JON TIMMIS Is-Ganghellor



Cymerodd yr Athro Jon Timmis yr awenau fel Is-Ganghellor yn Ionawr 2024. Cyn hynny, roedd yn Ddirprwy Is-Ganghellor (Masnachol) ym Mhrifysgol Sunderland. Mae Jon yn gyn-dderbynydd Gwobr Teilyngdod Ymchwil Wolfson y Gymdeithas Frenhinol a Chymrodoriaeth Fenter yr Academi Beirianneg Frenhinol.

Ac yntau wedi graddio ym Mhrifysgol Aberystwyth, gadawodd Jon ar ôl cwblhau ei Ddoethuriaeth i fod yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Caint yn 2000, cyn symud i Brifysgol Caerefrog fel Darllenydd yn 2005. Fe'i dyrchafwyd yn Athro yn 2008, ac fe'i penodwyd yn Bennaeth yr Adran Peirianneg Electronig cyn dod yn Ddirprwy Is-Ganghellor Partneriaethau a Chyfnewid Gwybodaeth ac wedyn symud i Brifysgol Sunderland i fod yn Ddirprwy Is-Ganghellor (Masnachol).

YR ATHRO ANGELA HATTON

Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth, ac Arloesi



Dechreuodd yr Athro Angela Hatton yn y swydd ym Medi 2023. Roedd hi, cyn hynny, yn Brif Wyddonydd a Chyfarwyddwr Gwyddoniaeth a Thechnoleg yng Nghanolfan Eigioneg Genedlaethol y DU. Ar hyn o bryd mae'n aelod o Grŵp Adolygu Gwyddoniaeth Canolfan Hadley y Swyddfa Dywydd, o Fwrdd Arloesi Aber, ac yn aelod craidd o'r panel ar gyfer Cymrodoriaethau Arweinwyr y Dyfodol UKRI.

Roedd hi gynt yn Gadeirydd ar Fwrdd Gwyddorau'r NERC ac yn arweinydd gwyddonol y DU yn yr G7 ar Ddyfodol y Moroedd a'r Cefnforoedd. Mae hi wedi ennill dwy Gymrodoriaeth yr NERC, Cymrodoriaeth Challenger ac mae'n Gymrawd etholedig o'r Gymdeithas Fioleg Frenhinol a Chymdeithas Gwyddor Forol yr Alban, ac yn Athro er Anrhydedd ym Mhrifysgol Southampton.

DR GWAWR TAYLOR

Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg



Ymunodd Dr Gwawr Taylor â'r Brifysgol yn 2022 a daeth yn aelod o'r Weithrediaeth ym mis Ebrill 2024. Mae Gwawr yn arwain ar lywodraethu'r brifysgol, cydymffurfiaeth sefydliadol â dyletswyddau cyfreithiol a statudol, yn enwedig o ran: llywodraethu gwybodaeth; iechyd, diogelwch a'r amgylchedd; cydymffurfiaeth â materion fisâu myfyrwyr; a chydymffurfiaeth â materion y Gymraeg, gan gynnwys yr uned gyfieithu a'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg.

Mae Gwawr hefyd yn aelod o Gyngor y Gweithlu Addysg ac yn Gadeirydd ei Bwyllgor Archwilio a Chraffu, yn ogystal â bod yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

YR ATHRO ANWEN JONES

Dirprwy Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr



Penodwyd yr Athro Anwen Jones i'r swydd ym mis Awst 2024 ar ôl bod yn Ddirprwy Is-Ganghellor ar Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ers 2018. Yn ogystal â bod yn Ddirprwy Is-Ganghellor, yr Athro Anwen Jones sydd â'r cyfrifoldeb sefydliadol am ddarpariaeth academaidd, ysgolheictod, ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg. Hi hefyd yw arweinydd y Weithrediaeth ar brosiect yr Hen Goleg.

Mae'n Athro ar Astudiaethau Theatr, ac yn Olygydd ar yr e-gyfnodolyn ysgolheigaidd rhyngddisgyblaethol Cymraeg, Gwerddon, a gyhoeddir gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac mae'n un o ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac un o Gyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg.

DR PATRICK FINNEY

Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol



Ymunodd Patrick â'r Brifysgol yn 2002 ac roedd yn Ddirprwy Is-Ganghellor Dros Dro Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn ystod 2024-2025. Mae ganddo BA mewn Hanes a Gwleidyddiaeth Ryngwladol a PhD mewn Hanes Rhyngwladol o Brifysgol Leeds; mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol, yn gyn-Gadeirydd Grŵp Hanes Rhyngwladol Prydain (2017-2024) ac yn Olygydd y cyfnodolyn Rethinking History.

Bu'n Bennaeth yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, ac yn Gyfarwyddwr Ymchwil, Dirprwy Bennaeth a Chyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig yr adran honno. Mae hefyd wedi bod yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Israddedig yr Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg ac yn Ddirprwy Is-Ganghellor Cyfadranol Cyswllt ar Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

YR ATHRO QIANG SHEN

Dirprwy Is-Ganghellor: Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol



Mae'r Athro Qiang Shen yn Gymrawd o Academi Frenhinol Peirianeg ac yn Gymrawd ac yn Aelod o Gyngor Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Mae wedi bod yn aelod o banel y FfRhY ar Gyfrifiadureg a Gwybodeg ddwywaith, ac mae'n gyn-Bennaeth yr Adran Gyfrifiadureg ac yn Gyfarwyddwr ar Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg. Dyfarnwyd Gwobr Arloeswr Systemau Niwlog 2024 iddo fe gan Gymdeithas Deallusrwydd Cyfrifiannol yr IEEE.

YR ATHRO NEIL GLASSER

Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd



Ar ben ei swydd fel Dirprwy Is-Ganghellor, mae gan yr Athro Glasser gyfrifoldeb am Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant yn ogystal â materion yn ymwneud â'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn y Brifysgol. Mae'n gyn Ysgolhaig Neilltuol Fulbright yn y Ganolfan Data Eira ac Iâ Cenedlaethol yn Boulder, Colorado, ac mae'n aelod o Goleg Adolygiadau Cyd-academyddion yr NERC, yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru, ac yn Olygydd ac Sefydlwr y cyfnodolyn Quarternary Science Advances.

SIMON CRICK

Prif Swyddog Ariannol



Ymunodd Simon Crick â'r Brifysgol yn 2023 i gymryd yr awenau fel y Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio. Mae Simon yn Gyfrifydd Cyllid Cyhoeddus ac fe ddaeth i'r Brifysgol o Brifysgol Suffolk. Mae'n Gyfarwyddwr Cyllid ers 2004, ac wedi gweithio i'r y GIG, yr Heddlu, yn ogystal â'r Addysg Bellach ac Uwch.

O'i swyddi blaenorol mae gan Simon brofiad o drawsnewid a newid, ac mae'n arwain ar hyn yn y Brifysgol. Mae hefyd yn arwain y swyddogaeth Gynllunio. Mae'n hyfforddwr arweinyddiaeth cymwysedig ac yn Llywodraethwr gwirfoddol mewn Coleg Addysg Bellach arbenigol.

STEVE THOMAS

Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol



Ymunodd Steve Thomas â staff Prifysgol Aberystwyth yn 2020 fel Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus ac fe'i penodwyd yn aelod o'r Weithrediaeth ym mis Ebrill 2024. Roedd ei brofiad blaenorol yn cynnwys bod yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu S4C, swyddi cyfathrebu ym myd gwleidyddiaeth, a Chynghorydd Arbennig i weinidogion Llywodraeth Cymru. Fel newyddiadurwr, treuliodd Steve ei yrfa gynnar gyda'r BBC yn bennaf, yn ohebydd a chynhyrchydd, yn ymdrin â straeon newyddion o Gymru ac o bob cwr o'r byd.

SHARON LILLEY

Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol



Ymunodd Sharon â'r Brifysgol yn 2022 fel Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, gan gymryd yr awenau fel Cyfarwyddwr ym mis Chwefror 2024. Hi sy'n gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth i adnoddau dynol, am ddatblygu sefydliadol, rheoli newid, a materion trawsnewid yn y Brifysgol.

Ymunodd Sharon â'r Brifysgol o Gyngor Dinas Sheffield ac mae wedi gweithio mewn llywodraeth leol a chanolog yn ogystal â'r sector preifat, yn arwain Adnoddau Dynol, Datblygu Sefydliadol a gwasanaethau Cyflogres.

Daeth Sharon Lilley yn aelod o'r Weithrediaeth ym mis Ebrill 2025.

Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau'r Cyngor

Y PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD

Yn unol â'r hyn a ganiateir gan baragraff 122 o God Rheoli Ariannol y Cyngor Cyllido, gwasanaethodd Arwel Thomas yn Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (PARS), a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (PAPh). Cytunwyd ar yr egwyddor honno gan y Cyngor ar 10 Gorffennaf 2020 ar y sail bod yr angen cynyddol i ganolbwyntio ar hyfywedd ariannol yn y sector yn golygu ei bod hi'n hanfodol cael cynrychiolaeth ar draws y pwyllgorau fel y gallai'r aelod glywed yn uniongyrchol gan yr archwilwyr yn Archwilio, Risg a Sicrwydd, a chyfleu'r wybodaeth fel y bo'n briodol i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

Cymeradwyodd y Cyngor benodiad Arwel Thomas yn Gadeirydd dros dro ar y Pwyllgor am y cyfnod rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025. Yn unol â'r Cod Rheoli Ariannol, ac er mwyn osgoi croes-gynrychiolaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, penodwyd Daniel Richards yn Aelod dros dro ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad rhwng mis Mawrth a 31 Gorffennaf 2025. Roedd cynrychiolwyr o archwilwyr allanol a mewnol y Brifysgol yn bresennol yn y Cyngor yn ystod y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2024-25, yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Cynllunio (sef y Prif Swyddog Ariannol wedyn), Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, a'r Is-Ganghellor. Cynhaliwyd sesiynau preifat yn rheolaidd rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r archwilwyr, heb fod swyddogion y Brifysgol yn bresennol, yn ystod y flwyddyn.

Dyma aelodaeth y Pwyllgor am y flwyddyn (gan gynnwys presenoldeb yr aelodau, wedi'i roi ar ffurf nifer y cyfarfodydd y buont yn bresennol ynddynt o'r cyfanswm o gyfarfodydd posib):

Enw	Categori	Yn Bresennol
Mark Tweed	Cadeirydd y Pwyllgor (Gorffennaf - Rhagfyr 2024)	4/4
Arwel Thomas	Cadeirydd y Pwyllgor (Ionawr 2025 - Gorffennaf 2025)	4/4
Daniel Richards	Aelod Annibynnol	4/4
Rhuanedd Richards	Aelod Annibynnol	4/4
Tiffany McWilliams	Aelod o blith y Myfyrwyr	3/4
William Parker*	Aelod o blith y Myfyrwyr	1/1

*Yn dirprwyo i'r Aelod penodedig.

Swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yw cynghori a chynorthwyo'r corff llywodraethu ynglŷn â phob agwedd ar faterion sicrwydd a rheolaeth y Brifysgol. Mae'n atebol i'r Cyngor, ac mae ei brif ddyletswyddau yn cynnwys:

- Profi effeithlonrwydd trefniadau sefydliad o ran rheoli risg, diwylliant, rheolaeth a llywodraethu, a'r dulliau rheoli a'r gweithdrefnau mewnol i hybu gweithio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a chynghori'r Cyngor ar yr holl faterion hyn;
- Goruchwyllo'r trefniadau archwilio allanol a mewnol, gan gynnwys cynghori'r corff llywodraethu ynglŷn â phenodi darparwyr archwiliadau, a goruchwyllo natur a chwmpas yr archwiliadau allanol a mewnol ac effeithiolrwydd y prosesau archwilio; a
- goruchwyllo'r agweddau archwiliadol ar ddatganiadau ariannol y sefydliad, gan gynnwys barn yr archwilyr allanol a mewnol, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, y datganiad o reolaeth fewnol, ac unrhyw fater perthnasol a godir yn llythyr rheoli'r archwilyr allanol.

Yn ystod 2024-2025, canolbwyntiodd y Pwyllgor i raddau helaeth ar graffu ar faterion allweddol a chynghori'r Cyngor ar y materion hynny fel y bo'n briodol. Lle'r oedd yn briodol, gwnaed penderfyniadau hefyd gan y Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl. Roedd y busnes a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn academaidd yn cynnwys:

- Canlyniad yr Archwiliad Allanol ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024,
- Asesu'r camau gweithredu a roddwyd ar waith gan y rheolwyr i fynd i'r afael â materion rheoli a godwyd; a sicrhau bod y camau arfaethedig gan y Weithrediaeth yn cael eu monitro;
- goruchwyllo gwaith, effaith a chynnydd y Rhaglen Drawsnewid ar ran Cyngor y Brifysgol;
- asesu'r camau gweithredu a roddwyd ar waith gan y rheolwyr i fynd i'r afael â materion rheoli a godwyd a sicrhau bod y camau arfaethedig gan y Weithrediaeth yn cael eu monitro;

- Ailbenodi yr Archwilyr Allanol yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025;
- Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilyr Mewnol;
- Y Cynllun Archwilio Mewnol i'r blynyddoedd academaidd 2024-25, 2025-26 a 2026-27 a'r adroddiadau Archwilio Mewnol cysylltiedig. Yn ystod 2024-25, cafwyd adroddiadau Archwilio Mewnol ar Adolygiad y Swyddfa Gartref; Ymchwiliad i Fethiant TG; Gweithgareddau Masnachol - ArloesiAber; Rheoli Prosiect yr Hen Goleg; Monitro ac Adrodd Ariannol; Data Cyllido Addysg Uwch; Rheoli Risg;
- Y cynnydd a wnaed gan Weithrediaeth y Brifysgol wrth weithredu argymhellion a godwyd fel rhan o adroddiadau Archwilio Mewnol dros y blynyddoedd diwethaf;
- Diwygio'r trefniadau rheoli risg, gan gynnwys sicrhau bod y gofrestr risg gorfforaethol yn cydweddu â Strategaeth a Chynlluniau newydd y Brifysgol; ac
- Fe gyflwynwyd sesiynau gwybodaeth i'r Pwyllgor hefyd ar wahanol agweddau ar risg, gan gynnwys o safbwynt ymchwil ac arloesi a Ffermydd y Brifysgol.

Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIWYLLIANT

Cyfarfu'r Cyngor dair gwaith yn ystod y flwyddyn academiaidd 2024-25.

Aelodaeth a phresenoldeb

Dyma aelodaeth y Pwyllgor am y flwyddyn (gan gynnwys presenoldeb yr aelodau, wedi'i roi ar ffurf nifer y cyfarfodydd y buont yn bresennol ynddynt o'r cyfanswm o gyfarfodydd posib):

Enw	Categori	Yn Bresennol
Claire Vaughan	Cadeirydd y Pwyllgor	3/3
Meri Huws	Cadeirydd y Cyngor	3/3
Yr Athro Jon Timmis	Is-Ganghellor	3/3
Yr Athro Sarah Davies	Aelod o'r Senedd	3/3
Elain Gwynedd	Aelod o blith y Myfyrwyr	2/3
Yusuf Ibrahim	Aelod Annibynnol	2/3
Nicola Wood	Aelod Annibynnol	1/3
Jane Usherwood	Aelod Annibynnol	3/3
Jackie Sayce	Cynrychiolydd Anacademaidd	2/3

Roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd; ac Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg hefyd yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor, lle y bu'n briodol.

Craffu yw swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant ac mae'n cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n cynnwys llywodraethu sefydliadol; llywodraethu gwybodaeth; adnoddau dynol a datblygu staff; cydraddoldeb ac amrywioldeb; iechyd a diogelwch; y Gymraeg; a chydymffurfio â deddfwriaeth, a gofynion cyffredinol y llywodraeth, Medr, a rheoleiddwyr eraill.

Yn ystod 2024-25, canolbwyntiodd y Pwyllgor i raddau helaeth ar graffu ar faterion allweddol, yn gofyn am sicrhad, a chynghori'r Cyngor ar y materion hynny fel y bo'n briodol, gan gynnwys:

- Ystyried Cylch Gorchwyl a dyletswyddau'r Pwyllgor;
- Sut mae diwylliant yn cael ei fesur a'i fonitro;
- Argymhellion o'r adroddiad ar y adolygiad ar effeithiolrwydd llywodraethu, a monitro'r cynllun gweithredu;
- Adroddiadau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, gan gynnwys y canfyddiadau a'r argymhellion o ymchwiliadau archwilio mewnol perthnasol;
- Y Datganiad Blynyddol ar Gyflogau;
- Enwebiadau am Raddau er Anrhydedd;
- Datgeliad Caethwasiaeth Fodern;
- Adroddiad Blynyddol y rhaglen 'Prevent';
- Yr Adroddiad Blynyddol ar Ryddid i Lefaru;
- Yr Adroddiad Blynyddol ar Gwynion gan y Cyhoedd
- Cytundeb y Berthynas ag Undeb Aber;
- Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb;
- Y Bylchau Cyflog Rhywedd ac Ethnigrwydd;
- Diwygiadau i Ymddiriedolwyr CPAPA;
- Newidiadau i'r ordinadau;
- Adroddiad ar Weithgarwch Seiberddiogelwch;
- Adroddiadau ar Ddigwyddiadau Difrifol i'r Comisiwn Elusennau.

Gwaith y Dyfodol

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2025-2026, bydd y Pwyllgor yn parhau i gael adroddiadau ar faterion cydymffurfio allweddol ac yn adolygu gwybodaeth a data am y staff a chydraddoldeb, a'r effaith ar ddiwylliant y brifysgol. Bydd y Pwyllgor yn dal i weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt yn sgil yr adolygiad ar effeithiolrwydd llywodraethu, gan gynnwys adolygiad ar strwythur a chylchoedd gwaith is-bwyllgorau'r Cyngor. Bydd yn ystyried yr hunanasesiadau i holl Bwyllgorau'r Cyngor i sicrhau bod ganddo oruchwyliaeth ar unrhyw faterion neu heriau cyson. Bydd hefyd yn ystyried gofynion Medr ynghylch llywodraethu wrth i'r sector symud i weithio o dan yr Amodau Cofrestru newydd o fis Awst 2025.

Y PWYLLGOR TALIADAU

Cyfarfu'r Cyngor unwaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25.

Aelodaeth a phresenoldeb

Dyma aelodaeth y Pwyllgor am y flwyddyn (gan gynnwys presenoldeb yr aelodau, wedi'i roi ar ffurf nifer y cyfarfodydd y buont yn bresennol ynddynt o'r cyfanswm o gyfarfodydd posib):

Enw	Categori	Yn Bresennol
Rhuanedd Richards	Cadeirydd y Pwyllgor	1/1
Meri Huws	Cadeirydd y Cyngor	1/1
Claire Vaughan	Aelod Annibynnol	1/1
Bayanda Vundamina	Aelod o blith y Myfyrwyr	1/1
Charu Maini	Aelod o'r Is-bwyllgor	0/1

Roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, a'r Is-Ganghellor hefyd yn bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn 2024-25. Ni fu'r Is-Ganghellor yn rhan o unrhyw drafodaethau yn ymwneud â'i daliadau ei hun. Nid yw tâl Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, na'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Taliadau ond fe wnaeth y ddau aelod hyn dynnu yn ôl o'r trafodaethau ar eu cyflogau a'u perfformiad eu hunain a oedd yn rhan o'r adroddiad ar uwch ddeiliaid swyddi.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn ystyried a phenderfynu ar faterion sy'n ymwneud â thalu uwch staff penodol yn y Brifysgol, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn annibynnol ac mae'n cael comisiynu arbenigedd annibynnol allanol os oes angen.

Bu'n ystyried newidiadau yn strwythur a phortffolios y Weithrediaeth yn ogystal â chytuno ar y dyfarniad cyflog a negodwyd ar y lefel Brydeinig. Ystyriodd y Pwyllgor faterion cyflog rhwng y rhywiau ar lefel y staff uwch hefyd.

Cyflwynir adroddiad llawnach ar y gwaith a oruchwylir gan y Pwyllgor Taliadau yn 2024-25 mewn manau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol, yn unol â gofynion y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC) yng Nghod Taliadau Staff Uwch Addysg Uwch (Mehefin 2018).

Y PWYLLGOR ENWEBIADAU

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25, cynhaliodd y Pwyllgor ddau gyfarfod ffurfiol. Cynhaliwyd Pwyllgor Dethol hefyd i ystyried ceisiadau am swyddi'r Canghellor a'r Dirprwy Ganghellor a gwneud argymhellion i'r Cyngor.

Aelodaeth a phresenoldeb

Dyma aelodaeth y Pwyllgor am y flwyddyn (gan gynnwys presenoldeb yr aelodau, wedi'i roi ar ffurf nifer y cyfarfodydd y buont yn bresennol ynddynt o'r cyfanswm o gyfarfodydd posib):

Enw	Categori	Yn Bresennol
Meri Huws	Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd)	1/2
Rhuanedd Richards*	Dirprwy Gadeirydd y Cyngor	1/1
Yusuf Ibrahim	Aelod Annibynnol	2/2
Bayanda Vundamina	Aelod o blith y Myfyrwyr	1/1
Kylie Evans	Aelod y Staff Anacademaidd	1/2
William Parker	Aelod o blith y Myfyrwyr	1/1
Kate Eden	Aelod Annibynnol	1/2
Yr Athro Jon Timmis	Is-Ganghellor	2/2

*Roedd Rhuanedd Richards yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2025 a chadeiriodd yr eitem yn ymwneud â'r drafodaeth ynghylch Cadeirydd y Cyngor.

Yn ystod 2024-25, canolbwyntiodd y Pwyllgor i raddau helaeth ar graffu ar faterion allweddol a chynghori'r Cyngor ar y materion hynny fel y bo'n briodol, gan gynnwys:

- Gwneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â'i enwebai fel Ymddiriedolwr Cynllun Pensiynau ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth;
- Gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch Cadeirydd y Pwyllgor Buddsoddiadau;
- Adolygu aelodaeth y Cyngor ac argymhell proses ffurfiol ar gyfer penodi aelodau'r Cyngor i ail dymor yn y swydd;
- Canfyddiadau'r adolygiad ar effeithiolrwydd llywodraethu, yn enwedig o safbwynt cael mwy o amrywiaeth yn aelodaeth y Cyngor;
- Casglu gwybodaeth am amrywioldeb y Cyngor a'i dadansoddi.

Y PWYLLGOR BUDDSODDIADAU

Cyfarfu'r Cyngor ddwywaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25.

Aelodaeth a phresenoldeb

Dyma aelodaeth y Pwyllgor am y flwyddyn (gan gynnwys presenoldeb yr aelodau, wedi'i roi ar ffurf nifer y cyfarfodydd y buont yn bresennol ynddynt o'r cyfanswm o gyfarfodydd posib):

Enw	Categori	Yn Bresennol
Dr Paul Bevan	Cadeirydd y Pwyllgor	2/2
Meri Huws	Cadeirydd y Cyngor	2/2
Kate Eden	Aelod Annibynnol	2/2
Daniel Richards	Aelod Annibynnol	2/2
Bayanda Vundamina	Aelod o blith y Myfyrwyr	1/1
Yr Athro Jon Timmis	Is-Ganghellor	1/2
William Parker*	Aelod o blith y Myfyrwyr	1/1

*Yn bresennol yn ail gyfarfod y Pwyllgor, yn sgil ymadawiad Bayanda Vundamina o Undeb Myfyrwyr y Brifysgol, ychydig cyn i'w dymor yn y swydd ddod i ben.

Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (sef y Prif Swyddog Ariannol wedyn); y Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau; ac Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

Roedd cynrychiolwyr Cynghorwyr Buddsoddi'r Brifysgol, Quantum Advisory, hefyd yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

Ystyriodd yr aelodau ddogfennaeth ar faterion allweddol eraill, gan gynghori'r Cyngor a'r Pwyllgorau perthnasol arnynt fel y bu'n briodol, gan gynnwys:

- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Buddsoddiadau;
- Adolygu'r Polisi Buddsoddiadau;
- Perfformiad y buddsoddiadau a reolir ar ran y Brifysgol gan Quantum Advisory (yn cynnwys y gwaddolion a chronfeydd y sefydliad ei hun);
- Perfformiad y cronfeydd gwaddol a'r cronfeydd buddsoddi eraill;
- Monitro sut y defnyddiwyd Cronfeydd Buddsoddi'r Brifysgol.

Y PWYLLGOR ADNODDAU A PHERFFORMIAD

Cyfarfu'r Cyngor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25.

Aelodaeth a phresenoldeb

Dyma aelodaeth y Pwyllgor am y flwyddyn (gan gynnwys presenoldeb yr aelodau, wedi'i roi ar ffurf nifer y cyfarfodydd y buont yn bresennol ynddynt o'r cyfanswm o gyfarfodydd posib):

Enw	Categori	Yn Bresennol
Kate Eden	Cadeirydd y Pwyllgor	4/4
Meri Huws	Cadeirydd y Cyngor	4/4
Yr Athro Jon Timmis	Is-Ganghellor	4/4
Thomas Bates	Cynrychiolydd Anacademaidd	4/4
Bayanda Vundamina	Aelod o blith y Myfyrwyr	3/3
Dr Paul Bevan	Aelod Annibynnol	4/4
Mathew Norman	Aelod Annibynnol	2/4
Arwel Thomas	Aelod Annibynnol	2/2
Yr Athro Simon Green	Aelod Annibynnol	4/4
Aloysius Igboewku	Aelod o'r Senedd	4/4
Daniel Richards	Aelod Annibynnol	1/2
William Parker*	Aelod o blith y Myfyrwyr	2/2

*Roedd William Parker yn bresennol mewn dau gyfarfod o'r pwyllgor ar ôl i Bayanda Vundamina adael Undeb Myfyrwyr y Brifysgol, ychydig cyn i'w dymor yn y swydd ddod i ben.

Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (sef y Prif Swyddog Ariannol wedyn), ac Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg yn bresennol fel yr oedd yn briodol yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor.

Fel y nodwyd o dan adroddiad blynyddol Archwilio, Risg a Sicrwydd, penodwyd Arwel Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw rhwng Mawrth a 31 Gorffennaf 2025. Yn unol â'r Cod Rheoli Ariannol, ac er mwyn osgoi croes-gynrychiolaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, penodwyd Daniel Richards yn Aelod Dros Dro ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad rhwng mis Mawrth a 31 Gorffennaf 2025.

Craffu yw swyddogaeth y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformio, ac mae'n cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n cynnwys rheolaeth a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad; denu a chofrestru myfyrwyr, gan gynnwys gweithgarwch rhyngwladol; cynhyrchu incwm; ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi; yr ystadau a'r amgylchedd.

Cafodd yr aelodau ddogfennau ar faterion allweddol eraill hefyd, gan eu hystyried a chynghori'r Cyngor arnynt fel y bu'n briodol, gan gynnwys:

- Datblygu cyllideb y sefydliad a'r rhagolygon ariannol, gan gynnwys goruchwyllo cyllideb Undeb y Myfyrwyr;
- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024, a datganiadau blynyddol cysylltiedig ar gynaliadwyedd i'r Cyngor Cyllido;
- Yr Adnodd Credyd Cylchdroi;
- Cydymffurfiaeth â'r cyfamodau bancio;
- Cyflwr presennol ystadau'r Brifysgol, a chynigion i waredu asedau tir ac adeiladu y barnwyd nad oedd eu hangen bellach ar y sefydliad;
- Ffioedd myfyrwyr;
- Goruchwyliaeth ar brosiect yr Hen Goleg a gwaith cyflawni'r prosiect hwnnw;
- Y sefyllfa ddiweddaraf o ran denu a chofrestru myfyrwyr.

Y SENEDD

Dyma aelodau'r Senedd i'r flwyddyn academaidd 2024-25:

Enw	Categori	Yn Bresennol
Yr Athro Jon Timmis (Cadeirydd)	Is-Ganghellor	5/5
Yr Athro Neil Glasser	Dirprwy Is-Ganghellor	3/5
Yr Athro Anwen Jones	Dirprwy Is-Ganghellor	5/5
Yr Athro Qiang Shen	Dirprwy Is-Ganghellor	3/5
Yr Athro Angela Hatton	Dirprwy Is-Ganghellor	4/5
Dr Patrick Finney	Dirprwy Is-Ganghellor	5/5
Jonathan Fry Dr Hywel Griffiths (yn dirprwyo)	Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	5/5
Yr Athro Reyer Zwiiggelaar	Pennaeth Ysgol y Graddedigion	4/5
Dr Samuel Raybone, Celf	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Dr Aloysius Igboekwu, Busnes	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Otar Akanyeti, Cyfrifiadureg	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Lucy Trotter, Addysg	Cynrychiolydd Adrannol	2/5
Yr Athro Louise Marshall, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Yr Athro Sarah Davies, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Phillipp Schofield, Hanes a Hanes Cymru	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Dr Julie Mathias, Astudiaethau Gwybodaeth	Cynrychiolydd Adrannol	3/5

Y SENEDD PARHAD

Enw	Categori	Yn Bresennol
Yr Athro Hazel Davey, Gwyddorau Bywyd	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Yr Athro Iain Donnison, Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Dr Alistair Shepherd, Gwleidyddiaeth Ryngwladol	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Jen Phipps, y Gyfraith a Throsedddeg	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Alexander Pitchford, Mathemateg	Cynrychiolydd Adrannol	5/5
Dr Alex Mangold, Ieithoedd Modern	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Yr Athro Andrew Evans*, Ffiseg	Cynrychiolydd Adrannol	0/5
Dr Hanna Binks, Seicoleg	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Dr Ffion Jones, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu	Cynrychiolydd Adrannol	4/5
Yr Athro Mererid Hopwood, Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd	Cynrychiolydd Adrannol	3/5
Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb Aberystwyth	Aelod o blith y Myfyrwyr	4/5
Elain Gwynedd, Llywydd UMCA	Aelod o blith y Myfyrwyr	2/5
Will Parker, Swyddog Materion Academaidd	Aelod o blith y Myfyrwyr	5/5
Tom Bates, Pennaeth Cyfleusterau a Gweithrediadau Preswyl	Cynrychiolydd Anacademaidd	5/5
Jackie Sayce, Cydlynnydd Prosiectau a Swyddog Datblygu Busnes	Cynrychiolydd Anacademaidd	2/5

*Cafodd yr Athro Evans gyfnod o absenoldeb yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.

Gwahoddwyd y Cofrestrydd Academaidd, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, ac Ysgrifennydd y Brifysgol i'r holl gyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2024-25, yn ogystal â phenaethiaid yr holl adrannau academaidd nad oeddent wedi'u hethol i gynrychioli eu hadrannau ar y Senedd.

Y Senedd yw awdurdod academaidd y Brifysgol, ac mae'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn ag ansawdd academaidd y dysgu a'r ymchwil, yn rheoli a chymeradwyo'r portffolio academaidd, ac yn rheoli gwaith rheoleiddio buddiannau academaidd y sefydliad.

Bu'r Senedd hefyd yn craffu ar benderfyniadau perthnasol a gymerir gan y corff llywodraethu ac yn cynghori'r Cyngor arnynt, gan gynnwys y Datganiadau Sicrhau Ansawdd blynyddol a gyflwynir i'r Cyngor Cyllido.

GWEITHREDIAETH Y BRIFYSGOL

Dyma aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol i'r flwyddyn academaidd 2024-25:

Enw	Categori	Yn Bresennol
Yr Athro Jon Timmis	Is-Ganghellor a Chadeirydd	23/23
Simon Crick	Prif Swyddog Ariannol	22/23
Dr Gwawr Taylor	Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg	22/23
Yr Athro Anwen Jones	Dirprwy Is-Ganghellor	20/23
Yr Athro Angela Hatton	Dirprwy Is-Ganghellor	18/23
Dr Patrick Finney	Dirprwy Is-Ganghellor	23/23
Yr Athro Qiang Shen	Dirprwy Is-Ganghellor	19/23
Yr Athro Neil Glasser	Dirprwy Is-Ganghellor	18/23
Steve Thomas	Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol	23/23
Sharon Lilley	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	7/8

Roedd Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd Gweithrediaeth y Brifysgol drwy gydol y flwyddyn academaidd. Bu Sharon Lilley hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd o Weithrediaeth y Brifysgol cyn iddi gael ei phenodi'n aelod llawn hefyd. Roedd yr Athro Iain Barber, Pennaeth Adran y Gwyddorau Bywyd, hefyd yn bresennol yn y Weithrediaeth fel aelod cyfetholedig o ddechrau mis Mawrth cyn iddo ymgymryd yn swyddogol â swydd newydd Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Gwyddorau ar 1 Awst.

Ac yntau'n uwch dîm rheoli'r sefydliad, mae Grŵp Gweithredol y Brifysgol yn cynghori'r Is-Ganghellor yn bennaf; mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r Brifysgol i'r Is-Ganghellor, yn rhinwedd ei swydd fel y prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifo.

Bu Gweithrediaeth y Brifysgol felly yn ystyried unrhyw fater y barnwyd ei fod yn briodol i'r canlynol:

- Cynghori'r Is-Ganghellor ar faterion y mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol drostynt, lle dymuna'r Is-Ganghellor ymgynghori ag aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol cyn gwneud penderfyniad;
- Cynghori aelodau eraill o Weithrediaeth y Brifysgol ar faterion y mae ganddynt gyfrifoldeb dirprwyedig penodol drostynt, lle bo'r aelodau craidd hynny'n dymuno ymgynghori â chydweithwyr cyn gwneud penderfyniad; ac
- Ystyried a chynghori'r Is-Ganghellor ar faterion a ddirprwywyd i Grŵp Gweithredol y Brifysgol sy'n ymwneud â Siarter a Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau'r Brifysgol.

Lle bu'n briodol, cyflwynodd y Weithrediaeth argymhellion i'r Cyngor a'i is-bwyllgorau i'w cymeradwyo. Ceir braslun o'r materion hyn uchod yn rhan o'r crynodeb o'r materion busnes a ystyrir gan bob pwyllgor.

Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyngor O Ran Yr Adroddiad Blynyddol A'r Datganiadau Ariannol

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25 a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon"), y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd gan CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("CRhA") a'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Trosglwyddwyd dyletswyddau rheoleiddio sector Addysg Uwch Cymru o CCAUC i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ar 1 Awst 2024. Mae'r Cod Rheoli Ariannol, a Thelerau ac Amodau Cyllid 2024/25 a gyhoeddwyd gan CCAUC yn dal i fod mewn grym tan y byddant yn cael eu disodli gan gyhoeddiadau Medr maes o law. Yng ngoleuni'r trosglwyddo hwnnw, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at CCAUC fel un sy'n cyfeirio at Medr hefyd.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol i Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff yn unol â safonau cyfrifeg y DU a'r gyfraith berthnasol (Ymarfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys FRS 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sydd ar waith yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gofynion Deddf Elusennau 2011. Ar ben hynny mae Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â Datganiad o Ymarfer a Argymhellir 2019 – Cyfrifo ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch ac yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff, ac o'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u cholledion, a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn, ac o lif arian parod y Grŵp, am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff, mae'n ofynnol ar y Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu'n gyson;
- gwneud asesiadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog;
- datgan a yw safonau cyfrifeg perthnasol y DU a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy wedi'u dilyn, a datgelu unrhyw wahaniaethau o sylwedd yn y drefn, a'u hegluro yn y datganiadau ariannol;

- asesu a yw Grŵp y Brifysgol a'r rhiant-gorff yn gallu parhau ar sail busnes parhaus, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r gallu hwnnw; a
- defnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus oni bai ei bod hi'n fwriad ganddo ddirwyn Grŵp y Brifysgol neu'r rhiant-gorff i ben neu atal eu gweithredoedd, neu os nad oes ganddo ddewis amgen realistig heblaw gwneud hynny.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg digonol sy'n ddigon manwl i ddangos ac esbonio trafodion rhiant-gorff y Brifysgol, ac sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol rhiant-gorff y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiad o sylwedd, boed hynny'n deillio o dwyll neu o amryfusedd. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd unrhyw gamau sydd yn rhesymol o fewn ei allu i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu arferion afreolaidd eraill.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau:

- bod y cronfeydd, o ba bynnag ffynhonnell, a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- bod yr incwm, lle bo'n briodol, wedi'i ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o'r Cod Rheoli Ariannol;
- bod grantiau Cynghorau Cyllido (gan gynnwys grantiau gan Medr) wedi cael eu cymhwysu yn unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt a'u bod wedi'u defnyddio at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25;
- bod rheoliadau ariannol a rheoli addas mewn grym i ddiogelu cyllid cyhoeddus yn ogystal â chyllid a ddaw o ffynonellau eraill; a
- bod adnoddau a gwariant y brifysgol yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol, ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Ymddiriedolwyr y Brifysgol

Dyma Ymddiriedolwyr y Brifysgol i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025, a hyd at gyfarfod y Cyngor lle y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn yn ffurfiol:

AELODAU ANNIBYNNOL EX-OFFICIO

Meri Huws
Cadeirydd y Cyngor 6/6

Rhuanedd Richards
Dirprwy Gadeirydd y Cyngor 6/6

PENODWYD

Kate Eden 6/6

Yr Athro Simon Green 5/6

Arwel Thomas 6/6

Mark Tweed 5/6

Claire Vaughan 6/6

Jane Usherwood 6/6

Paul Bevan 6/6

Yusuf Ibrahim 5/6

Daniel Richards 6/6

AELODAU STAFF/MYFYRIWR EX-OFFICIO

Yr Athro Jon Timmis
Is-Ganghellor 6/6

Yr Athro Angela Hatton
Dirprwy Is-Ganghellor 6/6

AELODAU O'R SENEDD

Yr Athro Sarah Davies 6/6

Dr Aloysius Igboewku 6/6

AELODAU O'R STAFF ANACADEMAIDD

Kylie Evans 5/6

AELODAU YN CYNRYCHIOLI'R MYFYRWYR

Bayanda Vundamina
Llywydd Undeb Aberystwyth 4/5

Elain Gwynedd
Llywydd UMCA 5/5

Nanw Hampson
Llywydd UMCA
(o 1 Gorffennaf 2025) 1/1

Millicent Hackett
Llywydd Undeb Aberystwyth
(o 1 Gorffennaf 2025) 1/1

Rhoddir gwybodaeth am bresenoldeb aelodau'r Cyngor a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025, wedi'i rhoi ar ffurf y nifer o gyfarfodydd y Cyngor yr oeddynt yn bresennol ynddynt o'r cyfanswm o gyfarfodydd yr oedd disgwyl i'r aelod fod yn bresennol ynddynt.

Ymgynghorwyr Proffesiynol

ARCHWILWYR ALLANOL AC YMGYNGHORWYR AR DRETH GORFFORAETHOL

KPMG LLP
3 Assembly Square
Britannia Quay
Caerdydd
CF10 4AX

ARCHWILWYR MEWNOL

TIAA
Artillery House
Fort Fareham
Newgate Lane
Fareham
PO14 1AH

BANCWYR

Banc Barclays
Caerlŷr
LE87 2BB

Banc Lloyds
10 Gresham Street
London
EC2V 7AE

CYFREITHWYR

Shakespeare Martineau
No 1 Colmore Square
Birmingham
B4 6AA

PRIF SWYDDFA

Prifysgol Aberystwyth
Y Ganolfan Ddelweddu
Campws Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BF

Adroddiad Yr Archwilydd Annibynnol I Gyngor Prifysgol Aberystwyth

ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD I'R DATGANIAD ARIANNOL

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Aberystwyth ("y Brifysgol") i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen Gyfun a Mantolen y Brifysgol, y Datganiad o Newidiadau Cyfun a Datganiad Newidiadau'r Brifysgol yn yr Arian Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian Cyfun, a'r Datganiad o'r Prif Bolisiau Cyfrifeg.

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2025 ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, a'u henillion a'u cholledion, a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn ac o lif arian y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifeg y DU, gan gynnwys FRS 102 sef y Safon Adrodd Ariannol sydd ar waith yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â Datganiad 2019 ar Arferion Cymeradwy - Cyfrifeg mewn Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd yn ôl Siarteri ac Ystatudau'r sefydliad ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn cyflwyno ein hadroddiad yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi bodloni ein cyfrifoldebau moesegol yn ôl y gofynion moesegol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom i'r archwiliad yn sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

Busnes parhaus

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus gan nad yw'n fwriad ganddo ddirwyn y Grŵp na'r Brifysgol i ben nac atal eu gweithredoedd, ac yntau wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw elfennau sylweddol o ansicrwydd a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar y gallu i barhau ar sail busnes parhaus am flwyddyn o leiaf ar ôl dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod busnes parhaus").

Wrth inni bwysu a mesur casgliadau'r Cyngor, ystyriasom y risgiau ymhlyg ym model busnes y Grŵp, a buom yn dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu ar eu gallu i barhau â'u gweithrediadau dros gyfnod y busnes parhaus.

Dyma ein casgliadau ar sail y gwaith hwnnw:

- rydym o'r farn bod y sail busnes parhaus a ddefnyddir gan y Cyngor yn y cyfrifon, wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yn briodol; ac
- ni ddaethom o hyd i unrhyw ansicrwydd o sylwedd o ran unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau a allai fod, yn unigol neu gyda'i gilydd, wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau ar sail busnes parhaus am y cyfnod busnes parhaus, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor nad oes ansicrwydd o'r fath.

Serch hynny, gan na allwn ragweld digwyddiadau nac amgylchiadau'r dyfodol a chan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg pan y'u gwnaed, nid yw'r casgliadau uchod yn rhoi gwarant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

TWYLL A THORRI CYFREITHIAU A RHEOLIADAU – Y GALLU I DDARGANFOD ACHOSION O'R FATH

Canfod ac ymateb i risgiau o gam-ddatgan o sylwedd oherwydd twyll

Er mwyn dod o hyd i risgiau cam-ddatgan o sylwedd sy'n deillio o dwyll ("risgiau twyll") gwnaethom asesu digwyddiadau neu amgylchiadau a allai ddangos bod cymhelliad neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd y camau a gymerasom i asesu'r risg yn cynnwys:

- Gofyn i'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r archwiliad mewnol ynghylch polisïau a gweithdrefnau'r Grŵp, ar y lefel uchel, i ddod o hyd i dwyll ac i'w atal, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a threfn y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a fo ganddynt am dwyll gwirioneddol, neu amheuaeth neu gyhuddiadau am dwyll.
- Darllen cofnodion y Cyngor, a'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddi er mwyn dod o hyd i unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom gyfleu unrhyw risgiau twyll a nodwyd i'r tîm archwilio cyfan, gan aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Yn unol â gofynion y safonau archwilio, rydym yn cymryd camau i ymdrin â'r risg y bydd y rheolwyr yn diystyru'r rheolau, a'r risg y cofnodir refeniw yn dwyllodrus, yn benodol:

- y risg na fydd incwm ymchwil yn cael ei gofnodi yn unol â thelerau ac amodau perthnasol y grantiau dan sylw; ac
- y risg y gallai rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifo amhriodol.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Roedd y camau a gymerasom yn cynnwys:

- Dethol cofnodion yn y dyddlyfrau i'w profi ar sail y meini prawf risg, a chymharu'r cofnodion a ddetholwyd â'r ddogfennaeth ategol, gan gynnwys cyfnodolion gyda pharau annisgwyl ag arian parod a refeniw yn y cyfrifon.
- Ar gyfer detholiad o'r incwm ymchwil a gofnodwyd yn y cyfnod, gwirio a yw'r incwm a gofnodwyd yn briodol ar sail y cytundeb grant gwaelodol a'r gwariant ymchwil cyfatebol.

Nodi risgiau camddatgan o sylwedd oherwydd diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ac ymateb i'r risgiau hynny

Nodasom feysydd yn y cyfreithiau a'r rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddant yn cael effaith o sylwedd ar y datganiadau ariannol drwy ein profiad cyffredinol ym myd masnach ac yn y sector, a thrwy drafod â'r Cyngor a rheolwyr eraill (yn unol â gofynion y safonau archwilio) gan drafod â'r Cyngor a rheolwyr eraill y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Gwnaethom gyfleu i'n tîm cyfan y cyfreithiau a'r rheoliadau a nodwyd, gan aros yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio drwy gydol yr archwiliad.

Mae effeithiau posib y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys y ddeddfwriaeth ar adroddiadau ariannol, y ddeddfwriaeth dreth, y ddeddfwriaeth ar bensiynau, y ddeddfwriaeth ar elusennau a'r datgeliadau penodol sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau ar addysg uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan Medr, ac fe wnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, yn rhan o'n gweithdrefnau ar yr eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle y gallai peidio â chydymffurfio gael effaith o sylwedd ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy osod dirwyon neu ddwyn achos cyfreithiol neu drwy angen cynnwys darpariaethau o sylwedd. Gwnaethom nodi'r meysydd isod fel y rhai mwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfio â gofynion rheoleiddio addysg uwch Medr, yn cydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Grŵp. Mae'r safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio sy'n ofynnol er mwyn nodi diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, sef eu cyfyngu i holi'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr eraill, ac i archwilio'r ohebiaeth reoleiddio a chyfreithiol, os oes rhai. Felly os oes achlysur lle y torrwyd y rheoliadau gweithredol ond nad yw wedi'i ddatgelu i ni, neu os nad yw'n dod i'r amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd yr archwiliad yn darganfod yr achos hwnnw.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ddarganfod twyll neu achlysuron lle y torrwyd y gyfraith neu reoliadau

Oherwydd y cyfyngiadau sy'n gynhenid i archwiliad, mae risg anochel na fyddwn ni efallai wedi darganfod rhai camddatganiadau o sylwedd yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf y bo unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn gwyro oddi wrth y digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, lleiaf tebygol yn y byd yw hi y byddai'r gweithdrefnau - sydd yn eu hanfod yn gyfyngedig - yn eu canfod.

Ar ben hynny, fel pob archwiliad, mae risg uwch na fydd twyll yn cael ei ganfod oherwydd bod yr achosion hyn yn gallu cynnwys cydgyntllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru'r camau rheoli mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ddarganfod camddatganiadau o sylwedd. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio nac am atal twyll ac ni ellir disgwyl i ni ddarganfod diffygion cydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

Gwybodaeth arall

Y Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion y gyfraith elusennau) sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adolygiad Blynnyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd ar y datganiadau hynny. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall honno ac felly nid ydym yn mynegi barn archwiliadol nac, ac eithrio yn y modd a ddatgenir yn ddiamwys isod, unrhyw fath o gasgliad ar sicrwydd y wybodaeth honno.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol, a yw'r wybodaeth yno wedi'i cham-ddatgan yn ei sylwedd neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwiliadol. Mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi:

- os, ar sail y gwaith hwnnw yn unig, daethom o hyd i gamddatganiadau o sylwedd yn y wybodaeth arall; neu
- os yw'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynnyddol (sydd, gyda'i gilydd, i'w gyfrif yn Adroddiad Blynnyddol yr Ymddiriedolwyr i'r flwyddyn ariannol), yn ein barn ni, yn anghyson mewn unrhyw agwedd o sylwedd â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd o ran y materion hynny.

Materion y mae'n ofynnol arnom roi adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn ôl Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion digonol o gyfrifon; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â chofnodion y cyfrifon; neu
- na chawsom yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen i'n harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd o ran y materion hynny.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr esbonnir yn llawnach yn ei ddatganiad a roddir ar dudalen [X], y Cyngor sy'n gyfrifol am: paratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg; y rheolaeth fewnol sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol heb gamddatganiad o sylwedd, boed hynny'n deillio o dwyll neu o amryfusedd; pwyso a mesur gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau ar sail busnes parhaus, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes parhaus; a defnyddio'r dull o gyfrifo ar sail busnes parhaus oni bai ei bod hi'n fwiad ganddo ddirwyn y Grŵp neu'r Brifysgol i ben neu atal eu gweithredoedd; neu os nad oes ganddo ddewis amgen realistig heblaw gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys camddatganiadau materol, boed hynny'n deillio o dwyll neu drwy amryfusedd, ac i gyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Lefel uchel o sicrwydd yw 'sicrwydd rhesymol', ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o sylwedd pan fo un i'w gael. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu amryfusedd ac fe fernir mai camddatganiadau o sylwedd ydynt os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol y byddent yn dylanwadu ar benderfyniadau ariannol defnyddwyr a fyddai'n cael eu cymryd ar sail y datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

ADRODDIAD AR OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLIADOL ERAILL

Mae'n ofynnol inni roi adroddiad ar y materion isod yn unol â'r hyn a bennir yn y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr ("y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon").


Trosglwyddwyd dyletswyddau rheoleiddio sector Addysg Uwch Cymru o CCAUC i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ar 1 Awst 2024. Mae'r Cod Rheoli Ariannol, a Thelerau ac Amodau Cyllid 2024/25 a gyhoeddwyd gan CCAUC yn dal i fod ar waith ar ddyddiad ein hadroddiad. Yng ngoleuni'r trosglwyddo hwnnw, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at CCAUC yn ein hadroddiad fel un sy'n cyfeirio at Medr.

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae'r cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'i ddefnyddio yn briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- mae'r incwm, lle y bo'n briodol, wedi'i gymhwyso gan y Brifysgol yn unol â pharagraff 145 o God Rheoli Ariannol CCAUC;
- mae grantiau gan Gyngorau Cyllido (gan gynnwys grantiau gan Medr) wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthyt a'u bod wedi'u defnyddio at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25 a gyhoeddwyd gan CCAUC; ac
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon Medr wedi eu bodloni.

DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY MAE GENNYM GYFRIFOLDEBAU

Adroddiad i'r Cyngor yn unig yw hwn yn unol ag Adran 4 o Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud er mwyn datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddo mewn adroddiad archwilio, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac arddel cyfrifoldeb i neb ond y Brifysgol a'i Chyngor am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, a'r casgliadau yr ydym wedi eu gwneud.



Rees Batley

ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol
Cyfrifwyr Siartredig

Mae KPMG LLP yn gymwys i weithredu yn archwilydd
yn nhermau adran 1212 o Ddeddf Cwmniau 2006
66 Queen Square, Bryste, BS1 4BE
26 Tachwedd 2025

Datganiadau Ariannol i'r Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025

DATGANIAD O'R PRIF BOLISI'AU CYFRIFEG

1. SAIL Y PARATOI

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP): Cyfrifon ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019; y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Medr; a'r Safonau Adrodd Ariannol (FRS102).

Sefydliad er y budd cyhoeddus yw'r Brifysgol ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad perthnasol y budd cyhoeddus yn FRS102. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â chonfensiwn y gost wreiddiol, ac eithrio'r eiddo buddsoddi a rhwymedigaethau'r pensiynau buddiannau diffiniedig sy'n cael eu dal ar eu gwerth teg.

Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Datganiad o Llif Arian Parod y Grŵp dim ond yn ôl yr hyn a ganiateir gan yr eithriad ar ddatgan sydd i'w gael yn FRS102.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes parhaus.

Busnes Parhaus

Gwnaeth Grŵp Cyfunol Prifysgol Aberystwyth £3.0 miliwn o ddiffyg (2023-24 £30.0 miliwn o warged) sydd wedi arwain at £3.7 miliwn o fewnlif net o arian parod (2023-24 £2.4 miliwn o all-lif). Mae gan y Grŵp hefyd £13.4 miliwn o rwymedigaethau cyfredol net (rhwymedigaeth gyfredol net 2023-24 £16.5 miliwn) a £124.0 miliwn o asedau net (2023-24 £124.3 miliwn), y mae £90.5 miliwn (2023-24 £87.4 miliwn) ohonynt yn gronfeydd digyfyngiad. O fewn yr asedau cyfredol net y mae arian parod ac arian cyfatebol, sef £9.5 miliwn (£5.8 miliwn yn 2023-24) sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y Grŵp i dalu am ei rwymedigaethau parhaol ac i gefnogi Rhaglen Gyfalaf y Grŵp.

Ar ddyddiad yr adroddiad, roedd y Brifysgol wedi defnyddio £9.0 miliwn (2023-24 £12.0 miliwn) o gyfanswm cronfeydd ei Hadnodd Credyd Cylchdroi, sef £15.0 miliwn, sy'n golygu nas defnyddiwyd £6.0 miliwn o'r cronfeydd hynny, sydd ar gael i'w defnyddio ar unwaith. Mae'r adnodd ar gael hyd at Ionawr 2027, ac fe fydd opsiwn i'w estyn am 12 mis arall. Mae'r cytundeb yn cynnwys cyfamodau ar berfformiad ariannol. Oherwydd dyddiad y Pasg yn ystod cyfnod yr adroddiad o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd 23/24, cronwyd y symiau a gafwyd oddi wrth y myfyrwyr i dymor yr haf yn y 4ydd Chwarter yn hytrach na'r 3ydd, a

olygai fod angen cynnal adolygiad ar y cyfamodau ar lif arian parod a gwasanaethu dyled y Brifysgol ym mis Ebrill 2025. O ystyried y ffaith bod y sefyllfa weithredol yn dal i wella, a'r sefyllfa hylifedd well, cytunwyd i ddiweddarau'r cyfamodau ac i hawlildiad er mwyn darparu ar gyfer y newidiadau yn amseru'r llif arian parod. Mae'r Brifysgol wedi bodloni'r rhain yn y chwarter sy'n dod i ben ym mis Gorffennaf 2025 ac mae'n rhagweld y bydd yn cydymffurfio â nhw drwy gydol 2025-26.

Ym mis Hydref 2024, cymeradwyodd Cyngor y Brifysgol ail-gategoreiddio hyd at 25% o gyfanswm gwerth y cronfeydd cyfyngedig, gwerth £4.9 miliwn, a chronfeydd digyfyngiad i gynorthwyo â hylifedd a rhoi mwy o wytnwch o ran y llif arian parod. Defnyddiodd y brifysgol £6.0 miliwn yn ystod 2024-25.

Mae'r rhagolygon ariannol, gan gynnwys y rhagamcanion o'r llif arian parod a'r dadansoddiad o sensitifrwydd, wedi'u paratoi i'r Grŵp yn cwmpasu cyfnod yr asesiad ar sail busnes parhaus, sef 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Yn ôl y rhagolygon hynny, ar ôl cynnal profion straen a dadansoddiad sensitifrwydd, yn ymwneud â ffoedd dysgu ac incwm ymchwil, yn ogystal â chwyddiant a'r perfformiad masnachol, y bydd y Grŵp yn dal i allu cyflawni ei rwymedigaethau ariannol a chydymffurfio â'i gyfamodau benthycwyr yn ystod y cyfnod asesu ar sail busnes parhaus. Ar sail y rhagolygon hyn, mae'r Cyngor yn hyderus y bydd gan Grŵp Prifysgol Aberystwyth ddigon o gronfeydd i barhau â bodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus ac yn dal i gydymffurfio â'i gyfamodau, gyda hyblygrwydd derbyniol, am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly y mae wedi paratoi'r datganiadau ar sail busnes parhaus.

2. SAIL CYFUNO'R CYFRIFON

Mae'r datganiadau ariannol cyfun hyn yn cynnwys y Brifysgol, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (CAMA) (is-gwmni), Aber Trading Cyf (is-gwmni), ac Ymgynghori Aber Bangor Cyf (is-gwmni) am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2025. Mae canlyniadau'r is-gwmni yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfun o incwm a gwariant. Mae trafodion o fewn y grŵp yn cael eu dileu wrth gyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfun hyn yn cynnwys incwm a gwariant Undeb Aberystwyth, sef Undeb Myfyrwyr y Brifysgol, gan nad yw'r Brifysgol yn dwyn rheolaeth na dylanwad pennaf ar ei phenderfyniadau polisi. Defnyddir y dull ecwiti ar gyfer cyfrifon cwmnïau cysylltiedig a mentrau ar y cyd.

3. COFNODI INCWM

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gofnodi ar y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau wedi'u darparu i'r cwsmer allanol neu pan fo telerau'r contract wedi'u cyflawni.

Mae incwm o ffioedd yn cael ei ddatgan gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac yn cael ei roi ar y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio. Os yw maint y ffi ddysgu wedi'i leihau, drwy ddisgownt am dalu'n brydlon neu'n ddisgownt a warentir i bob myfyriwr, mae'r incwm derbyniadwy yn cael ei ddangos wedi tynnu'r disgownt. Mae bwrsariaethau ac ysgoloriaethau nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu cyfrif gros o fewn gwariant a heb eu tynnu o incwm.

Mae'r cronfeydd sy'n cael eu derbyn a'u dosbarthu gan y Brifysgol fel asiant sy'n talu ar ran corff cyllido yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol os nad yw'r Brifysgol yn agored ond i'r mymryn lleiaf o risg, neu os nad yw'n cael ond y mymryn lleiaf o fudd economaidd mewn cysylltiad â'r trafodyn ariannol.

Cyllid Grantiau

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth, gan gynnwys grantiau bloc a grantiau ymchwil y cynghorau cyllid, yn cael eu cofnodi mewn incwm dros y cyfnodau pan fydd y Brifysgol yn cofnodi'r costau cysylltiedig y rhoddwyd y grant amdanynt. Os yw rhan o grant y llywodraeth wedi'i gohirio, fe'i cofnodir fel incwm gohiriedig o fewn y credydwy'r a'i dyrannu rhwng y credydwy'r sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn a'r credydwy'r sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn fel y bo'n briodol.

Mae grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) a ddaw o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r incwm hwnnw, a phan fo'r amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni. Mae'r incwm a gafwyd cyn y bodlonir yr amodau sy'n ymwneud â pherfformiad yn cael ei gofnodi fel incwm gohiriedig ar y fantolen, ac yn cael ei ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

Grantiau cyfalaf

Cofnodir grantiau cyfalaf y llywodraeth yn yr incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae grantiau cyfalaf eraill yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd, yn amodol ar yr angen i fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Rhoddion a gwaddolion

Mae rhoddion a gwaddolion ac arnynt gyfyngiadau a osodwyd gan y rhoddwr yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cronfeydd. Cedwir incwm o waddolion cyfyngedig o fewn cronfa'r gwaddolion nes y bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r

cyfyngiadau penodol, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn. Mae incwm o waddolion digyfyngiad yn cael ei gofnodi yn y cyfnod pan y'i derbynnir.

Cedwir rhoddion cyfyngedig o fewn y cronfeydd cyfyngedig nes y byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r cyfyngiadau, ac ar yr adeg honno fe ryddheir yr incwm i'r arian cyffredinol wrth gefn drwy drosglwyddiad arian wrth gefn. Mae rhoddion heb gyfyngiadau arnynt yn cael eu cofnodi yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i'r cronfeydd.

Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac arbriso gwaddolion yn yr incwm i'r flwyddyn pan fyddant yn codi, naill ai fel incwm cyfyngedig neu ddigyfyngiad. Mae'r categorïau'n dibynnu ar y telerau a'r cyfyngiadau a osodir ar y gronfa waddol unigol.

Pedwar prif fath o roddion a gwaddolion a gofnodir yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid defnyddio'r rhodd at ryw fwriad penodol.
2. Gwaddolion parhaol digyfyngiad - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu llif incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion treuliadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol ac eithrio prynu neu adeiladu asedau cyffyrddadwy sefydlog, ac mae gan y Brifysgol yr hawl i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu llif incwm i'w defnyddio at ryw fwriad penodol.

4. CYFRIFO BUDDIANNAU YMDDEOL

Dyma'r pedwar prif gynllun pensiwn yn y Brifysgol:

- Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), sef cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig;
- Cynllun Pensiwn Prifysgol Aberystwyth (CPPA), sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig;
- Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig sydd wedi'i gau rhag cyfraniadau gan weithwyr yn y dyfodol; a
- Chronfa Pensiwn Dyfed (CPD), sef Cynllun Buddiannau Diffiniedig nad yw'n derbyn aelodau newydd.

Cynllun Aml-gyflogwr â Buddiannau Diffiniedig

Mae'r sefydliad yn rhan o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), sef cynllun aml-gyflogwr â buddiannau diffiniedig. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Oherwydd natur gyfuddiannol y cynllun, nid yw ei asedau wedi'u neilltuo i sefydliadau unigol ac mae cyfradd gyfrannu wedi'i gosod i'r cynllun cyfan. Felly mae'r sefydliad yn agored i risgiau actiwaraidd sy'n gysylltiedig â staff cyflogedig sefydliadau eraill ac nid oes modd ynysu ei gyfran ei hun o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Yn unol â gofynion Adran 28 o FRS 102 'Buddiannau i Gyflogeion', mae'r sefydliad felly yn cyfrifo am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r swm a gofnodir ar y cyfrif elw a cholled yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ac unrhyw gyfraniadau sy'n daladwy i adfer y diffyg yn ôl y Cynllun Adfer.

Pan fo prisiad cynllun yn dyfarnu bod diffyg ar y cynllun ar sail darpariaethau technegol (fel y digwyddodd ar ôl prisiad 2020), rhaid i ymddiriedolwr y cynllun gytuno ar Gynllun Adfer sy'n pennu sut y bydd pob cyflogwr o fewn y cynllun yn ariannu'r diffyg. Mae'r sefydliad yn cydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n deillio o gytundeb o'r fath (i'r graddau y maent yn ymwneud â diffyg) gyda'r costau cysylltiedig yn cael eu cofnodi drwy'r datganiad incwm. Mae datgeliadau pellach yn ymwneud ag unrhyw rwymedigaeth am adennill diffyg i'w cael yn nodyn 30.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac ni fydd arni rhwymedigaeth gyfreithiol, na thrwy ddehongliad, i dalu mwy. Mae rhwymedigaethau am gyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y datganiad o incwm yn y cyfnodau pan fo'r staff yn cyflawni eu dyletswyddau.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig

Mewn cynlluniau buddiannau diffiniedig mae gan y Brifysgol rwymedigaeth i ddarparu'r buddiannau y cytunwyd arnynt i aelodau presennol o staff ac i gyn-weithwyr. Y Brifysgol sy'n ysgwyddo'r risg actiwaraidd (sef bod y buddiannau yn costio'n fwy neu'n llai na'r disgwyl) a'r risg fuddsoddol (sef bod yr adenillion ar yr asedau a neilltuir i ariannu'r buddiannau yn wahanol i'r disgwyl).

Mae'r Brifysgol yn cofnodi rhwymedigaeth am ei hymrwymiaid yn ôl cynlluniau buddiannau diffiniedig, net o asedau'r cynlluniau. Mae'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net hon yn cael ei mesur drwy amcangyfrif y cyfanswm o fuddiannau y mae'r staff wedi'u hennill am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, wedi'i ostwng i bennu'r gwerth presennol, wedi tynnu gwerth teg asedau'r cynllun (yn ôl prisiau cynnig). Gwneir y gwaith cyfrifo gan actwari cymwys gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd unedau. Os ased net yw canlyniad y cyfrifo hwnnw, cyfyngir ar gofnodi'r ased hwnnw i'r

graddau bod y Brifysgol yn gallu adfer y gweddill naill ai drwy leihau cyfraniadau yn y dyfodol, neu drwy ad-daliadau o'r cynllun. Mae cynlluniau buddiannau diffiniedig yn cael eu prisio bob yn dair blynedd gan actiwarïaid annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol.

5. BUDDIANNAU CYFLOGAETH

Mae buddiannau cyflogaeth yn y tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau y telir amdanynt, yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y flwyddyn pan fydd yr aelodau o staff dan sylw yn cyflawni eu gwasanaeth i'r Brifysgol. Cronnir unrhyw fuddiannau nas defnyddiwyd ac mae gwerth y rhwymedigaeth yn cael ei gofnodi fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawliau nas defnyddiwyd.

6. PRYDLESAU CYLLID

Diffinnir prydlesau fel prydlesau cyllid lle mae'r Brifysgol yn arddel sylwedd yr holl risgiau a'r buddiannau sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth yr ased a brydlesir. Mae asedau ar brydles a gafwyd drwy brydlesau cyllid a'r rhwymedigaethau prydles cyfatebol yn cael eu cofnodi ar y dechrau am swm sy'n cyfateb naill ai i'w gwerth teg neu werth presennol y taliadau prydles isafsymol, p'un bynnag fo'r isaf, ar ddechrau'r brydles.

Mae'r taliadau prydles isafsymol yn cael eu rhannu rhwng y costau cyllid a lleihad y rhwymedigaeth sy'n weddill.

Mae cost y cyllid yn cael ei dyrannu i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn creu cyfradd log gyson ar weddill y rhwymedigaeth.

7. PRYDLESAU GWEITHREDU

Cofnodir costau sy'n gysylltiedig â phrydlesau gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

Mae incwm a gafwyd drwy roi prydlesau gweithredu yn cael eu cofnodi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesau dros dymor isafsymol y brydles.

8. ARIAN TRAMOR

Y bunt (sterling) yw arian cyfredol gweithredol Grŵp Prifysgol Aberystwyth.

Trosir trafodion a gynhaliwyd mewn gwahanol fathau o arian tramor i'r bunt yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau a gofnodir mewn gwahanol fathau o arian tramor ar ddyddiad y fantolen

yn cael eu trosi i'r arian cyfredol yn ôl y gyfradd gyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar y dyddiad hwnnw. Mae gwahaniaethau cyfraddau newid arian tramor sy'n codi wrth drosi i'r arian cyfredol yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

Mae asedau a rhwymedigaethau gweithrediadau tramor yn cael eu trosi i'r bunt yn ôl y cyfraddau cyfnewid arian tramor sy'n weithredol ar ddyddiad y fantolen. Mae refeniwiau a threuliau gweithrediadau tramor yn cael eu trosi ar gyfradd gyfartaleddol i'r flwyddyn lle mae'r gyfradd honno'n debyg i'r cyfraddau cyfnewid arian tramor a fu ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Mae gwahaniaethau cyfraddau newid sy'n codi wrth drosi gweithrediadau tramor fel hyn yn cael eu cofnodi o dan log a chostau cyllid eraill.

9. ASEDÄU SEFYDLOG

Mae asedau sefydlog yn cael eu cyfalafu yn ôl eu cost dybiedig pan fyddant yn cael eu cofnodi am y tro cyntaf. Ar ôl y cofnod cyntaf, mae asedau sefydlog yn cael eu mesur wedi hynny yn ôl y gost dybiedig wedi tynnu'r colledion dibrisio cronedig a'r colledion cronedig drwy golli gwerth. Mae rhai eitemau o asedau sefydlog a ail-brisiwyd i werth teg ar ddyddiad y trosglwyddiad i SORP Addysg Uwch 2015, neu cyn y dyddiad hwnnw, wedi'u mesur ar sail y gost dybiedig, sef y gwerth ailbrisiu a bennwyd ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw.

Os bydd oes ddefnyddiol wahanol gan wahanol rannau o ased sefydlog, cyfrifir amdanynt fel eitemau o asedau sefydlog ar wahân. Mae dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

Ar bob dyddiad adrodd fe gynhelir adolygiad ar gyfer dangosyddion posib o golli gwerth. Os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos ei bod hi'n bosib na ellir adennill swm cario'r eiddo, y cyfarpar a'r offer, fe gyfrifir yr effaith a bydd y gwerthoedd a gollir yn cael eu cofnodi ar yr ased ac yn y Datganiad Cyfun a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr.

Tir ac adeiladau

Ailbrisiwyd eiddo rhydd-ddaliad, ac eithrio Neuaddau Llety ac adeiladau eraill sy'n gysylltiedig â masnachu, ar sail gwerth adnewyddu ar ôl dibrisiant ar 31 Gorffennaf 2014. Mae'r asedau hyn yn parhau yn unol â phrisiad 2014. Mae ychwanegiadau eraill yn cael eu dal yn ôl y gost.

Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â'u rhannau cyfansoddol, sef:

Tymor hir e.e. sylfeini ac adeiladwaith	40 i 60 o flynyddoedd
Tymor canolig e.e. gwasanaethau	10 i 30 o flynyddoedd
Tymor Byr e.e. gosodiadau mewnol	5 i 10 o flynyddoedd

Mae costau sy'n codi mewn cyswllt â thir ac adeiladau, ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu ar y cyntaf, yn cael eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu'r budd disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol. Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu.

Nid yw tir ar rydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio gan yr ystyrir bod iddo oes ddefnyddiol am gyfnod amhenodol. Mae tir ar brydles yn cael ei ddibrisio dros gyfnod y brydles.

Offer a Pheiriannau

Y mae gwariant ar offer sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol yn cael ei ddileu yn y flwyddyn pan y'u prynwyd. Mae'r offer eraill yn cael eu cyfalafu.

Cofnodwyd offer a gyfalafwyd yn ôl ei gost a'i ddibrisio, drwy'r dull llinell syth, dros gyfnod disgwyliedig ei ddefnyddioldeb, sef pum mlynedd, heblaw am offer a gafwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol sy'n cael eu ddibrisio dros gyfnod y prosiect (sef tair blynedd fel arfer).

Asedau treftadaeth

Paentiadau, gweithiau celfyddydol a darnau o waith seramig ym meddiant y Brifysgol yw asedau treftadaeth. Maent yn cael eu dal a'u cynnal yn bennaf oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Mae'r eitemau hynny y pennwyd eu gwerth dros £10,000 wedi'u cyfalafu a'u cofnodi yn ôl y gost neu eu gwerth caffael, lle y bo modd cael amcan rhesymol o'r gost neu'r gwerth. Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu bywyd economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai sylwedd i unrhyw ddibrisio o'r fath.

Mae unrhyw gostau sy'n codi o waith adfer neu gadwriaethol i'r asedau hyn yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fo'r costau hynny'n codi.

Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cael eu cyfalafu yn ôl eu cost dybiedig pan fyddant yn cael eu cofnodi am y tro cyntaf. Ar ôl y cofnod cyntaf, mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur wedi hynny yn ôl y gost dybiedig wedi tynnu'r colledion dibrisio cronedig a'r colledion cronedig drwy golli gwerth.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig yn y modd isod:

Tymor byr e.e. costau datblygu	5 i 10 o flynyddoedd.
--------------------------------	-----------------------

10. EIDDO BUDDSODDI

Ystyr eiddo buddsoddi yw tir ac adeiladau a ddelir er mwyn cael incwm o'u llogi neu er mwyn arbriso cyfalaf, yn wahanol i'r eiddo a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau.

Mesurir eiddo buddsoddi yn ôl y gost ar y cychwyn, ac wedyn yn ôl eu gwerth teg, ac fe'u hystyrir bob blwyddyn, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

11. BUDDSODDIADAU ERAILL

Mae buddsoddiadau a restrir yn cael eu priso yn ôl eu gwerth teg ar y farchnad ac mae enillion a cholledion yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Mae buddsoddiadau asedau anghyfredol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen yn ôl eu cost wedi'u hamorteiddio, wedi tynnu unrhyw addasiadau am golli gwerth.

Mae buddsoddiadau mewn endidau a gyd-reolir, cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau yn cael eu cofnodi yn ôl y gost wedi tynnu addasiadau am golli gwerth yng nghyfrifon y Brifysgol.

Delir buddsoddiadau asedau cyfredol yn ôl eu gwerth teg, ac mae unrhyw newidiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr.

12. STOC

Prisiwyd stoc yn ôl y gost neu'r gwerth gwiredadwy net, p'un bynnag fo'r isaf.

13. ARIAN PAROD AC ARIAN CYFATEBOL

Mae Arian Parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuo sydd i'w had-dalu ar gais, a gorgodiadau. Cyfrifir bod adneuo i'w had-dalu ar gais os ydynt ar gael i bob pwrpas o fewn 24 awr heb gosb ariannol.

Mae arian cyfatebol yn fuddsoddiadau byrdymor a hylifol iawn y gellir yn hawdd eu trosi'n symiau hysbys o arian parod, heb risg sylweddol o newid yn eu gwerth.

14. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDU AMODOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan:

- (i) fo gan y Brifysgol ymrwymiad (cyfreithiol neu ddeongliadol) yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

- (ii) fo'n debygol y bydd angen gwario buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw; a phan

- (iii) fo modd gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.

Mae'r maint a gofnodir fel darpariaeth yn cael ei bennu drwy dynnu'r llif disgwylidig o arian parod yn y dyfodol, ar gyfradd, cyn tynnu treth, sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n berthnasol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaethau amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n gosod ymrwymiad tebygol ar y Brifysgol ac ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai ei bod hi'n annhebygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu ei bod hi'n amhosib mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Mae ased amodol yn codi lle mae digwyddiad yn golygu ei bod hi'n bosib y bydd gan y Brifysgol ased ond ni fydd modd ei gadarnhau nes y bo digwyddiadau posib yn y dyfodol, y tu allan i reolaeth y Brifysgol, yn digwydd ai peidio.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol yn cael eu cofnodi ar y Fantolen, ond fe'u datgenir yn y nodiadau.

15. TRETH

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Felly mae'n elusen yn unol â'r ystyr ym Mharagraff 1 o atodlen 6 o Ddeddf Cyllid 2010 ac felly mae gan y Brifysgol botensial i gael ei heithrio rhag talu treth ar incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau sy'n cael eu cwmpasu gan adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010 (CTA 2010) neu adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Taladwy 1992 i'r graddau bod yr incwm neu'r enillion dan sylw wedi eu defnyddio at ddibenion cwbl elusennol.

Mae is-gwmnïau'r Brifysgol yn talu Treth Gorfforaethol yn union fel unrhyw gorff masnachol arall.

Byddai treth ohiriedig yn cael ei ddarparu'n llawn ar wahaniaethau amseru sy'n golygu bod rhwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, ar ddyddiad yn y dyfodol.

Mae prif gylchoedd gweithredu'r Brifysgol yn cael eu hesgusodi rhag Treth ar Werth (TAW), ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn talu TAW ar wahanol gyfraddau. Mae Gwariant yn cynnwys Treth ar Werth anadferadwy a godwyd gan gyflenwyr i'r Brifysgol.

16. ARIAN WRTH GEFN

Mae arian wrth gefn wedi'i bennu naill ai'n gyfyngedig neu'n ddigyfyngiad. Mae gwaddolion cyfyngedig wrth gefn yn cynnwys gweddillion a ddelir, drwy eu gwaddoli i'r Brifysgol, mewn cronfeydd sydd wedi'u cyfyngu yn barhaol ac y mae'n rhaid i'r Brifysgol eu dal am byth.

Mae arian cyfyngedig arall wrth gefn yn cynnwys gweddillion lle y mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol iddynt ac felly dim ond at ddibenion cyfyngedig y mae'r Brifysgol yn cael defnyddio'r cronfeydd hynny.

17. OFFERYNNAU ARIANNOL SYLFAENOL

Masnach a dyledwyr/credydwyr eraill

Mae dyledwyr a chredydwyr nad oes ganddynt gyfradd log ddatganedig neu sy'n daladwy o fewn un flwyddyn yn cael eu cofnodi yn ôl pris y trafodyn. Cofnodir unrhyw golledion sy'n deillio o golli gwerth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr o fewn y costau gweithredu eraill.

Rhwymedigaethau ariannol hirdymor

Mae rhwymedigaethau ariannol hirdymor yn cael eu dosbarthu yn ôl sylwedd goblygiadau contractiol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol. Mae'r holl fenthyciadau a ddelir gan y Grŵp yn cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â gofynion FRS 102, ac yn cael eu dal yn ôl eu cost wedi'u hamorteiddio. Nid yw benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n ddyledus o fewn un flwyddyn yn cael eu disgowntio.

Cafwyd y llety myfyrwyr, Fferm Penglais, drwy ddefnyddio cyllid oddi wrth Legal & General (L&G) a Balfour Beatty. Mae'r adeilad wedi'i gofnodi yn ôl y gost. Mae'r cyllid a ddarparwyd gan L&G a Balfour Beatty wedi'i gofnodi o dan gredydwyr hirdymor ar sail y gyfradd log ymhlyg yn y trefniadau.

18. Amcangyfrifon ac asesiadau allweddol

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol y Sefydliad mae angen gwneud asesiadau, amcangyfrifon, a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar sut mae'r polisïau cyfrifo yn cael eu cymhwyso ac ar y meintiau o asedau a rhwymedigaethau, incwm, a threuliau a gofnodir yn yr adroddiad. Mae'r asesiadau, yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig hyn wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau'r dyfodol y credir eu bod yn rhesymol dan yr amgylchiadau. Prin y bydd yr amcangyfrifon cyfrifo sy'n deillio o hynny yr un peth â'r canlyniadau gwirioneddol a gofnodir, a hynny'n anorfod.

(i) Goblygiadau buddiannau ymddeol

Amcangyfrif - CPAPA

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, sef Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA), sydd yn gynllun buddiannau diffiniedig. Cynhelir prisiad actiwaraid ar y cynllun yn unol â phenderfyniad yr ymddiriedolwyr ar gyfnodau heb fod yn hwy na thair blynedd. Asesir costau pensiwn o dan FRS 102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol ar sail y prisiadau actiwaraid diweddaraf a'r rhagdybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid. Mae'r rhagdybiaethau wedi'u seilio ar wybodaeth a roddwyd i'r actiwarïaid gan y Brifysgol, a ategir gan drafodaethau rhwng yr actiwari a'r rheolwyr, lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r rhagdybiaethau wedi'u cofnodi yn Nodyn 30.

Asesiad - USS

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun grŵp yn gasgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin, fel rheol ag un cyflogwr nawdd. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac sydd (fel rheol) yn gynllun ar draws y diwydiant, fel Cynllun Pensiwn y Prifysgolion. Mae cyfrifo am gynllun aml-gyflogwr, lle mae'r cyflogwr wedi ymrwmo i gytundeb â'r cynllun sy'n penderfynu sut y bydd y cyflogwr yn ariannu diffyg, yn golygu cofnodi rhwymedigaeth am y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r diffyg) a'r gost sy'n deillio o hynny yn cael ei chofnodi drwy'r cyfrif elw neu golled yn unol ag adran 28 o FRS 102.

DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O INCWM CYNHWYSFAWR am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025

	Nodiadau	2025		2024	
		Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol
		£'000	£'000	£'000	£'000
INCWM					
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	1	61,683	61,683	58,781	58,781
Grantiau cyrff cyllido	2	14,656	14,656	17,150	17,150
Grantiau a chontractau ymchwil	3	19,162	19,162	19,019	19,019
Incwm arall	4	30,641	28,027	29,341	26,590
Incwm o fuddsoddiadau	5	730	730	841	841
Rhoddion a gwaddolion	6	563	563	1,181	1,181
Cyfanswm yr incwm		127,435	124,821	126,313	123,562
GWARIANT					
Costau staff	7	71,789	71,086	75,287	74,587
Costau Staff - cynnydd/(gostyngiad) ym mhensiwn yr USS	7	-	-	(38,418)	(38,418)
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7	1,092	1,092	2,098	2,098
Costau gweithredu eraill	9	38,950	39,081	40,725	40,064
Dibrisio ac amorteddio	9	14,509	12,832	14,466	12,801
Llog a chostau cyllid eraill	8/9	6,242	6,242	5,767	5,767
Cyfanswm y gwariant		132,582	130,333	99,925	96,899
Gwarged/(diffyg) cyn enillion/colledion eraill a chyfran o warged/diffyg gweithredol o fentrau ar y cyd a mentrau cysylltiedig		(5,147)	(5,512)	26,388	26,663
Enillion/(colled) ar ôl gwerthu asedau sefydlog		2	2	367	367
Enillion/(colled) ar ôl gwerthu asedau anniriaethol		401	401	-	-
(Colled) / enillion o fuddsoddiadau		1,782	1,782	3,217	3,217
Gwarged / (diffyg) cyn treth		(2,962)	(3,327)	29,972	30,247
Treth		(13)	-	(20)	-
Gwarged / (diffyg) ar ôl treth		(2,975)	(3,327)	29,952	30,247

DATGANIAD CYFUN A DATGANIAD Y BRIFYSGOL O INCWM CYNHWYSFAWR am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025

	Nodiadau	2025		2024	
		Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol
		£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm cynhwysfawr arall					
(Colledion)/enillion actiwaraidd o ran y cynlluniau pensiwn	30	2,721	2,721	(3,720)	(3,720)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr/(y golled gynhwysfawr) am y flwyddyn		(254)	(606)	26,232	26,527
A gynrychiolir gan:					
Incwm cynhwysfawr o waddolion am y flwyddyn	22	1,610	1,610	2,907	2,907
Incwm / (gwariant) cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn	23	(183)	(183)	52	52
Incwm cynhwysfawr digyfyngiad am y flwyddyn		(1,681)	(2,033)	23,273	23,568
		(254)	(606)	26,232	26,527
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a briodolir i					
Cyfran anreolaethol		82	-	(75)	-
Y Brifysgol		(336)	(606)	26,307	26,527
		(254)	(606)	26,232	26,527
Gwarged / (diffyg) ar ôl treth y gellir ei briodoli i					
Cyfran anreolaethol		82	-	(75)	-
Y Brifysgol		(3,057)	(3,327)	30,027	30,247
		(2,975)	(3,327)	29,952	30,247

Mae'r nodiadau a'r polisiau cysylltiedig ar dudalennau 69 i 102 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

CYDBWYSEDD CYFUNOL A PHRIFYSGOL ar 31 Gorffennaf 2025

	Nodiadau	2025		2024	
		Cyfun £'000	Prifysgol £'000	Cyfun £'000	Prifysgol £'000
ASEDAU ANGHYFREDOL					
Asedau sefydlog anniriaethol	10	845	845	-	-
Asedau sefydlog diriaethol	11	257,303	233,949	253,616	228,724
Asedau treftadaeth	12	1,898	1,898	1,899	1,899
Eiddo buddsoddi	13	6,196	6,196	6,252	6,252
Buddsoddiadau	15	29,290	29,290	35,046	35,046
		295,532	272,178	296,813	271,921
ASEDAU CYFREDOL					
Stoc	16	2,066	2,066	2,318	2,318
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	17	17,889	18,810	23,475	24,203
Buddsoddiadau	18	484	484	1,518	1,518
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	24	9,495	8,790	5,787	4,985
		29,934	30,150	33,098	33,024
Wedi Tynnu: Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	19	43,347	41,790	49,639	47,452
Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net		(13,413)	(11,640)	(16,541)	(14,428)
Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol		282,119	260,538	280,272	257,493
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	20	146,043	124,429	141,677	118,513

Mae'r nodiadau a'r polisiau cysylltiedig ar dudalennau 69 i 102 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

CYDBWYSEDD CYFUNOL A PHRIFYSGOL ar 31 Gorffennaf 2025 (parhad)

	Nodiadau	2025		2024	
		Cyfun £'000	Prifysgol £'000	Cyfun £'000	Prifysgol £'000
DARPARIAETHAU					
Darpariaethau pensiwn	21	11,466	11,466	13,881	13,881
Darpariaethau eraill	21	534	534	384	384
Cyfanswm asedau net		124,076	124,109	124,330	124,715
ARIAN CYFYNGEDIG WRTH GEFN					
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - gwaddolion wrth gefn	22	33,132	33,132	36,447	36,447
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - arian cyfyngedig wrth gefn	23	439	439	622	622
ARIAN DIGYFYNGIAD WRTH GEFN					
Arian wrth gefn o incwm a gwariant - digyfyngiad		90,515	90,538	87,353	87,646
Cyfran anreolaethol		(10)	-	(92)	-
Cyfanswm yr Arian wrth Gefn		124,076	124,109	124,330	124,715

Mae'r nodiadau cysylltiedig a'r polisiâu ar dudalennau 69 i 102 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Corff Llywodraethol ar 24 Tachwedd 2025 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:



Meri Huws,
Cadeirydd y Cyngor



Yr Athro Jon Timmis,
Is-Ganghellor

DATGANIAD CYFUN A PHRIFYSGOL O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025

CYFUNOL	Cyfrif incwm a gwariant			Cyfanswm ac eithrio'r gyfran anreolaethol	Cyfran anreolaethol	Cyfanswm
	Gwaddolion	Cyfyngedig	Digyfyngiad			
	£'000	£'000	£'000			
Gweddill ar 1 Awst 2024	36,447	622	87,353	124,422	(92)	124,330
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm cynhwysfawr	1,610	(183)	(1,763)	(336)	82	(254)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	(3,315)	(183)	3,162	(336)	82	(254)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd*			(4,925)	-	4,925	-
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2025	33,132	439	90,515	124,086	(10)	124,076

PRIFYSGOL	Cyfrif incwm a gwariant			Cyfanswm ac eithrio'r gyfran anreolaethol	Cyfran anreolaethol	Cyfanswm
	Gwaddolion	Cyfyngedig	Digyfyngiad			
	£'000	£'000	£'000			
Gweddill ar 1 Awst 2024	36,447	622	87,646	124,715	-	124,715
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad o incwm a gwariant	1,610	(183)	(2,033)	(606)	-	(606)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	(3,315)	(183)	2,892	(606)	-	(606)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd*		(4,925)	-	4,925	-	-
Gweddill ar 31 Gorffennaf 2025	33,132	439	90,538	124,109	-	124,109

*Gweler nodyn 22 am fanylion y trosglwyddo rhwng cronfeydd

Mae'r nodiadau a'r polisiâu cysylltiedig ar dudalennau 69 i 102 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025

	Nodiadau	2025	2024
		£'000	£'000
Llif arian parod o weithgareddau gweithredol			
Gwarged am y flwyddyn		(3,057)	30,027
Addasiad am eitemau heb gynnwys arian parod			
Dibrisio	9	14,298	14,466
Amorteiddio asedau anniriaethol		211	-
Colli gwerth asedau sefydlog	13		305
Colledion/(enillion) o fuddsoddiadau gwaddolion	22	(1,417)	(2,318)
Enillion o fuddsoddiadau eraill		(365)	(899)
Enillion o ailbriso		-	-
(Cynnydd) / gostyngiad mewn stoc	16	252	74
(Cynnydd) / gostyngiad mewn dyledwyr	17	5,586	75
Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr	19/20	(2,745)	2,297
Costau llog pensiynau	8/30	1,874	1,329
Cyfraniad at bensiynau yn fwy na chost y gwasanaeth cyfredol	29	(1,569)	(2,694)
Newid yn rhagdybiaethau'r cynllun i leihau diffyg yr USS	7/30	-	(38,418)
(Gostyngiad) / cynnydd mewn darpariaethau eraill	21	150	(505)
Cyfran anreolaethol mewn is-gwmnïau		82	(75)
Addasiadau am weithgareddau buddsoddi neu gyllido			
Incwm o fuddsoddiadau	5	(730)	(841)
Llog taladwy arall	8	4,368	4,438
Incwm o waddolion	6/22	(11)	(407)
Elw o werthu asedau sefydlog		(2)	(367)
Incwm o grantiau cyfalaf		(5,573)	(6,058)
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol		11,352	429

	Nodiadau	2025	2024
		£'000	£'000
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Enillion ar ôl gwerthu asedau sefydlog		59	1,933
Enillion o werthu asedau anniriaethol		452	-
Derbyniadau o grantiau cyfalaf		10,416	12,134
Incwm o fuddsoddiadau		729	841
Taliadau a wnaed i brynu asedau sefydlog		(19,493)	(18,986)
Buddsoddiadau asedau anghyfredol newydd		8,572	1
Gwaredu buddsoddiadau anghyfredol		9,000	-
		735	(4,077)
Llif arian parod o weithgareddau cyllido			
Llog wedi'i dalu		(4,368)	(4,438)
Arian parod a dderbyniwyd o waddolion		11	407
Benthyciadau newydd ansicredig		-	4,478
Ad-daliadau benthyciadau ansicredig		(3,658)	-
Elfen gyfalaf o brydles gyllid		(365)	780
		(8,380)	1,227
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y flwyddyn		3,643	(2,421)
Arian parod ac arian cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn	24	5,787	8,208
Arian parod ac arian cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn	24	9,495	5,787

Mae'r nodiadau a'r polisiâu cysylltiedig ar dudalennau 69 i 102 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025

	2025		2024	
	Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
1 FFOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG				
Myfyrwyr amser-llawn cartref a'r UE	48,626	48,626	46,464	46,464
Myfyrwyr rhyngwladol amser-llawn	11,540	11,540	10,973	10,973
Myfyrwyr rhan-amser	1,113	1,113	985	985
Cyrsiau byr a ffioedd eraill	404	404	359	359
	61,683	61,683	58,781	58,781
2 GRANTIAU CYRFF CYLLIDO				
Grant adnewyddol				
Medr - y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	11,710	11,710	13,073	13,073
Rhyddhau grant cyfalaf gohiriedig Medr	741	741	1,071	1,071
Grantiau penodol				
Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru	2,205	2,205	3,006	3,006
	14,656	14,656	17,150	17,150
3 GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL				
Cynghorau ymchwil	10,581	10,581	9,539	9,539
Elusennau ymchwil	1,475	1,475	1,152	1,152
Llywodraeth (y DU a thramor)	5,315	5,315	6,372	6,372
Diwydiant a masnach	1,433	1,433	2,012	2,012
Arall	358	358	(56)	(56)
	19,162	19,162	19,019	19,019

	Nodiadau	2025		2024	
		Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol
		£'000	£'000	£'000	£'000
4 INCWM ARALL					
Llety, arlwyo a chynadleddau		14,490	14,490	12,805	12,805
Grantiau refeniw eraill		1,861	536	1,827	935
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd		231	231	1,344	1,344
Canolfan y Celfyddydau		3,400	3,400	3,102	3,102
Ffermydd		2,012	2,012	1,706	1,706
Rhyddhawyd o grantiau cyfalaf gohiriedig		4,139	2,463	4,040	2,375
Incwm arall		4,508	4,895	4,517	4,323
		30,641	28,027	29,341	26,590
5 INCWM O FUDDSODDIADAU					
Incwm buddsoddi o waddolion		58	58	56	56
Incwm buddsoddi o gronfeydd cyfyngedig wrth gefn		515	515	551	551
Incwm arall o fuddsoddiadau		157	157	234	234
		730	730	841	841
6 RHODDION A GWADDOLION					
Gwaddolion newydd	22	11	11	407	407
Rhoddion a chyfyngiadau arnynt	23	528	528	741	741
Rhoddion digyfyngiad		24	24	33	33
		563	563	1,181	1,181

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

	2025		2024	
	Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
7 COSTAU STAFF				
Cyflogau	58,099	57,565	61,210	60,666
Costau nawdd cymdeithasol	5,976	5,920	5,679	5,629
Costau pensiwn yr USS	6,324	6,324	6,878	6,878
Costau pensiwn eraill	1,390	1,277	1,520	1,414
	71,789	71,086	75,287	74,587
Costau Staff - cynnydd/(gostyngiad) ym mhensiwn yr USS	-	-	(38,418)	(38,418)
	71,789	71,086	36,869	36,169
Costau staff - ailstrwythuro	1,092	1,092	2,098	2,098
Taliadau i'r Is-Ganghellor (o 1 Ionawr 2024)				
Cyflog		222*		134
Buddiannau trethadwy ar ffurfiau eraill		23		19
		245		153
Cyfraniadau pensiwn i'r USS		32		19
		277		172
Taliadau i'r Is-Ganghellor blaenorol (o 1 Awst 2023 i 31 Rhagfyr 2023)				
Cyflog		-		106
Buddiannau trethadwy ar ffurfiau eraill		-		10
		-		116
Cyfraniadau pensiwn i'r USS		-		7
		-		123

*Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gostyngiad yn y cyflog a gymerwyd yn wirfoddol gan uwch aelodau'r staff, ochr yn ochr â gohirio codiad cyflog i bob aelod o staff am 11 mis.

Mae'r swm a ddangosir fel "Buddiannau trethadwy ar ffurf llety cymorthdaledig" yn y tabl uchod yn ymwneud â'r llety a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth ym Mhlas Penglais. Nid yw darpariaeth y llety ei hun wedi newid.

Ar 21 Medi 2018, cafodd Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch i'r Brifysgol ei gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r fframwaith yn disgrifio sut mae'r sefydliad yn ymdrin â thaliadau'r staff uwch, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Gellir gweld copi yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/remuneration/>.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo i'r Pwyllgor Taliadau yr awdurdod i gytuno ar faterion sy'n ymwneud â thâl yr Is-Ganghellor. Nid oes cynllun taliadau bonws ar waith, ac nid oes buddiannau eraill yn cael eu darparu ac eithrio'r llety ac aelodaeth o gynllun pensiwn yr USS, fel y gwelir yn y tabl uchod.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchiadau cystadleuol ac mae'n awyddus i ddenu a chadw'r staff gorau posib. Serch hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl y staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Taliadau ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath, gan gyfeirio at y data meincnodi i brifysgolion tebyg.

O ran taliadau'r Is-Ganghellor, mae'r data meincnodi wedi'i seilio ar Arolwg Blynnyddol Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau (UCEA) o Daliadau Staff Uwch ac ar Arolwg Blynnyddol Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ar Gyflogau Is-Ganghellorion. Ystyrir bod y cyflog sy'n cael ei dalu'n cyd-fynd â swyddi tebyg mewn sefydliadau eraill sydd o faint a statws tebyg.

Mae pob aelod o'r staff uwch yn y Brifysgol - gan gynnwys yr Is-Ganghellor - yn derbyn yn awtomatig unrhyw ddyfarniadau tâl 'costau byw' sy'n cael eu darparu gan y Brifysgol i'w staff ar y golofn dâl sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol.

Trafodwyd cyflog yr Is-Ganghellor presennol yn fanwl yn ystod y broses benodi yn 2023, cyn iddo gymryd yr awenau ym mis Ionawr 2024. Cytunwyd ar y tâl ar sail data gan yr UCEA a Phwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion, sy'n darparu data meincnodi i'r sector ledled y DU; profiad yr ymgeisydd; a thrafodaethau â'r cwmni chwilio allanol ar eu profiad ac ar cyd-destun y sector. Wrth ystyried taliadau ychwanegol neu godiadau cyflog, ystyriodd y pwyllgor y perfformiad yn ôl: y Dangosyddion Perfformiad Allweddol; y broses hunanwerthuso; ac argymhellion Cadeirydd y Cyngor ar ôl adolygiad ffurfiol.

Nid oes unrhyw daliadau ychwanegol na chodiad cyflog wedi'u talu i'r Is-Ganghellor ers ei benodiad, ar wahân i'r taliad costau byw, sy'n cael ei roi i bob aelod o staff.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cyfarfod bob blwyddyn ac fe adolygir y perfformiad yn nhymor yr hydref, ar sail datganiad adfyfyriol ac adroddiad ffurfiol gan Gadeirydd y Cyngor. Gosodwyd cyfres o ddangosyddion perfformiad i'r Is-Ganghellor yn hydref 2024, ac fe gynhaliodd Cadeirydd y Cyngor broses adolygu ffurfiol yn haf 2025 i asesu'r cynnydd yn ôl y Dangosyddion Perfformiad hyn. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Taliadau yn hydref 2025 i'r pwyllgor ei ystyried a gwneud unrhyw argymhellion ar sail yr adroddiad hwnnw i'r Cyngor.

Bydd y Pwyllgor Taliadau yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn o 2025 i sicrhau goruchwyliaeth a chraffu priodol ar daliadau'r staff uwch.

Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor, wedi'i roi ar ffurf lluosrif cyflog y cyflogaion eraill i gyd, yn 5.72 gwaith (2023-24 6.20 gwaith) yn fwy na chanolrif cyflog y staff, lle y cyfrifir canolrif y cyflog ar sail y cyflogau amser-llawn a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cyfanswm cyflog yr Is-Ganghellor, wedi'i roi ar ffurf lluosrif cyflog y cyflogaion eraill i gyd, yn 7.14 gwaith (2023-24 7.96 gwaith) yn fwy na chanolrif cyflog y staff, lle y cyfrifir canolrif y cyflog ar sail y cyflogau amser-llawn a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Dangosir taliadau'r Is-Ganghellor ar yr un sail â'r staff eraill sydd ar daliadau uwch.

Telir cyfraniadau'r Brifysgol i'r USS ar yr un raddfa ag a wneir i staff academiaidd eraill.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r taliadau i'r staff eraill ar gyflogau uwch, ac eithrio'r cyfraniadau i Yswiriant Gwladol a phensiynau a wneir gan y cyflogwr (yn amodol ar gyfarwyddiadau perthnasol ar gyfrifon), wedi'u dangos isod. Dangosir yr holl daliadau cyn tynnu unrhyw symiau 'aberthu cyflog':

TÂL GAN GYNNWYS FFOEDD YMGYNGHORI	Nifer y staff 2025	Nifer y staff 2024
£100,001 i £105,000	2	2
£105,001 i £110,000	2	2
£110,001 i £115,000	1	5
£115,001 i £120,000	-	-
£120,001 i £125,000	2	-
£125,001 i £130,000	3	3
£130,001 i £135,000	1	1
£135,001 i £140,000	-	-
£140,001 i £145,001	-	-
£205,001 i £210,000	1	-
	12	13
Cyfanswm Costau'r Staff ar Daliadau Uwch (dangosir uchod)	1,490	1,557

Nid yw'r costau uchod yn cynnwys costau pensiynau'r Is-Ganghellor na'r cyflogwr.

CYFARALEDD NIFEROEDD Y STAFF YN ÔL Y PRIF GATEGORÏAU	2025	2024
Academaidd	410	437
Ymchwil	101	102
Rheoli ac arbenigol	337	362
Technegol	121	119
Arall	350	394
	1,319	1,414

PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

Mae'r personél rheoli allweddol yn ymwneud â'r aelodau hynny sydd ar fwrdd gweithredol y Brifysgol, sef naw aelod.

	2025	2024
	£'000	£'000
Taliadau i'r personél rheoli allweddol	1,525	1,417

Mae'r costau uchod yn cynnwys costau pensiynau'r Is-Ganghellor a'r cyflogwr.

AELODAU'R CYNGOR

Ni chafodd yr un aelod o'r Cyngor daliad, na thâl a ildwyd, gan y Brifysgol am weithredu yn rhinwedd eu haelodaeth o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn (2023-24 £dim). Nid yw aelodau staff y brifysgol a benodwyd i'r Cyngor yn derbyn taliad ychwanegol o unrhyw fath yn ymwneud â'u haelodaeth o'r Cyngor.

Ni chafodd yr un o aelodau'r Cyngor unrhyw daliad am wasanaethau eraill a ddarparwyd i'r Brifysgol, heblaw o dan contract cyflogaeth i'r aelodau o'r Cyngor sydd hefyd yn staff cyflogedig y Brifysgol, yn ystod y flwyddyn (2023-24 £dim).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i ddeg o aelodau'r cyngor, neu ar eu rhan, oedd £4,566 (2023-24 £2,529 i naw o aelodau'r cyngor).

Talwyd hyn am gostau teithio a chynhaliath yn codi o ganlyniad i'w presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn rhinwedd eu dyletswyddau swyddogol.

	2025		2024	
	Cyfun	Prifysgol	Cyfun	Prifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000

8 LLOG A CHOSTAU CYLLID ERAILL

Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn yr USS	-	-	890	890
Llog ar lety myfyrwyr Fferm Penglais	3,703	3,703	3,687	3,687
Arall	665	665	751	751
Cost net ar gynlluniau pensiwn	1,874	1,874	439	439
	6,242	6,242	5,767	5,767

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

9 DADANSODDIAD O GYFANSWM GWARIANT Y BRIFYSGOL YN ÔL GWEITHGAREDDAU

	Costau staff			Arall			Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	Costau gweithredol staff	Costau ailstrwythuro	Dibrisio ac amorteiddio	Treuliau gweithredu eraill	Llog sy'n daladwy			
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adrannau academaidd	30,000	42	789	2,764	-	-	33,595	36,932
Gwasanaethau academaidd	6,389	15	8	2,073	2,539	-	11,024	10,932
Grantiau ymchwil a chontractau	10,930	-	623	7,358	-	-	18,911	19,704
Llety, arlwyo a chynadleddau	5,254	-	1,342	6,267	-	-	12,863	13,842
Eiddo	1,245	-	9,393	7,409	3,703	-	21,750	21,248
Gwariant cyffredinol ar addysg	6,287	-	53	4,117	-	-	10,457	10,529
Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog	4,729	1,035	329	4,379	-	-	10,472	(28,174)
Cyfleusterau ac adnoddau i'r myfyrwyr a'r staff	3,138	-	33	627	-	-	3,798	3,892
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd	460	-	5	116	-	-	581	1,020
Canolfan y Celfyddydau	2,152	-	131	1,676	-	-	3,959	3,944
Ffermydd	502	-	126	2,170	-	-	2,798	2,865
Taliad i'r archwilydd	-	-	-	125	-	-	125	165
	71,086	1,092	12,832	39,081	6,242	-	130,333	96,899

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)

DADANSODDIAD CYFUN O GYFANSWM Y GWARIANT YN ÔL GWEITHGAREDDAU

	Costau staff			Arall		Llog sy'n daladwy	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
	Costau gweithredol staff	Costau ailstrwythuro	Dibrisio ac amorteiddio	Treuliau gweithredu eraill				
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adrannau academiaidd	30,000	42	789	2,764	-	-	33,595	36,932
Gwasanaethau academiaidd	6,389	15	8	2,073	2,539	-	11,024	10,931
Grantiau ymchwil a chontractau	10,930	-	623	7,358	-	-	18,911	19,704
Llety, arlwyo a chynadleddau	5,254	-	1,342	6,267	-	-	12,863	13,842
Eiddo	1,245	-	9,393	7,409	3,703	-	21,750	21,248
Gwariant cyffredinol ar addysg	6,287	-	53	4,117	-	-	10,457	10,529
Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog	5,432	1,035	2,006	4,227	-	-	12,700	(25,176)
Cyfleusterau ac adnoddau i'r myfyrwyr a'r staff	3,138	-	33	627	-	-	3,798	3,892
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd	460	-	5	115	-	-	580	1,020
Canolfan y Celfyddydau	2,152	-	131	1,676	-	-	3,959	3,944
Ffermydd	502	-	126	2,170	-	-	2,798	2,865
Taliad i'r archwilydd	-	-	-	147	-	-	171	194
